RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
06/2019
DYDDIAD CYHOEDDI:
12/02/2019

# Gwerthusiad Proses o’r Rhaglen Cymraeg i Blant

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-734-1

Gwerthusiad Proses o’r Rhaglen Cymraeg i Blant

Awduron: Sioned Lewis, Hefin Thomas, Tanwen Grover ac Eluned Glyn, Arad.

Mewn cysylltiad â Dr Cynog Prys, Dr Rhian Hodges ac Einir Roberts, Prifysgol Bangor.

Cyfrannodd yr Athro Liz Todd, Prifysgol Newcastle, fel adolygydd cymheiriaid annibynnol at yr adroddiad hwn, gydag arweiniad penodol ar fethodoleg Theori Newid.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Sioned Lewis, Hefin Thomas, Tanwen Grover, Eluned Glyn, Cynog Prys, Rhian Hodges ac Einir Roberts (2019). *Gwerthusiad Proses o’r Rhaglen Cymraeg i Blant*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 06/2019.
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/process-evaluation-cymraeg-for-kids/?lang=cy

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Catrin Redknap
Yr Isadran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000 255 720
E-bost: catrin.redknap@llyw.cymru

## Tabl Cynnwys


Rhestr Ffigurau ........ 2

Geirfa ........ 3

1. Rhagarweiniad/Cefndir ........ 4

2. Methodoleg ........ 12

3. Canfyddiadau ........ 21

4. Theori Newid ........ 60

5. Casgliadau ........ 100

6. Argymhellion ........ 111

Atodiad A: Offerynnau Ymchwil ........ 114

**Rhestr Ffigurau**

Ffigur 1: Prif Sesiynau Grŵp Cymraeg i Blant ........................................................ 29
Ffigur 2: Enghreifftiau o Brofiadau'r Rhieni ............................................................ 36
Ffigur 3: Holiadur Proffil Rhieni .................................................................................. 43
Ffigur 4. Model rhesymeg drafft ar gyfer Cymraeg i Blant ...................................... 62
Ffigur 5. Dibyniaethau, ffactorau allanol a thybiaethau'n ymwneud â Theori Newid Cymraeg i Blant ................................................................................................. 63
Ffigur 6: Theori Newid: Darparu Sesiynau Grŵp Cymraeg i Blant .......................... 66
Ffigur 7: Theori Newid: Partneriaethau .................................................................... 69
Ffigur 8: Theori Newid: Rôl Llywodraeth Cymru ..................................................... 71
Ffigur 9: Theori Newid Drosfwaol Cymraeg i Blant ................................................. 72

## Geirfa

| Acronym/ Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Cymraeg i Blant | Rhaglen Cymraeg i Blant |
| CSA | Childcare Sufficiency Assessment<br>Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant |
| Cylch Meithrin | Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg |
| Cylch Ti a Fi | Grwpiau cyfrwng Cymraeg i fabanod a phlant bach |
| FIS | Family Information Service. Y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yw'r man cyswllt cyntaf am gyngor a gwybodaeth am wasanaethau lleol i deuluoedd a gofalwyr. |
| Dechrau'n Deg | Dechrau'n Deg yw cynllun blynyddoedd cynnar blaenllaw Llywodraeth Cymru i deuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| Menter Iaith | Cyrff yn y gymuned yw mentrau iaith sy'n gweithio gydag unigolion, sefydliadau a busnesau i godi proffil y Gymraeg mewn ardal benodol. |
| Mudiad Meithrin | Sefydliad sy'n arbenigo yn y blynyddoedd cynnar, gan gynnwys cefnogi Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi. Y mudiad yw contractwr cyfredol Cymraeg i Blant. |
| CYBLD | Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion |
| SASS | Self-Assessment of Service Statement<br>Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth |
| Twf | Nod prosiect 'Twf', a redodd o 2001 i 2016, oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd o fanteision magu plant yn ddwyieithog a darparu dylanwad cadarnhaol ar eu hymarfer o ran defnyddio'r Gymraeg. |
| CSGAau | Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg |
| CiO | Cymraeg i Oedolion |
| LlC | Llywodraeth Cymru |

## 1. Rhagarweiniad/Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwerthusiad proses o raglen Cymraeg i Blant, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

1.2 Cafodd Ymchwil Arad, gan weithio gyda Phrifysgol Bangor, ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r gwerthusiad proses; hwn yw'r adroddiad terfynol ac mae'n dilyn adroddiad canfyddiadau cychwynnol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018.[1]

### Ynglŷn â'r rhaglen Cymraeg i Blant

1.3 Dechreuodd y rhaglen Cymraeg i Blant ym mis Ebrill 2016, yng nghyd-destun strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru (bryd hynny), *Iaith Fyw, Iaith Byw* (Llywodraeth Cymru, 2012).[2] Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth iaith Gymraeg gyfredol, sef *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*; mae ei rhaglen waith ar gyfer 2017-21 wedi ymrwymo i adolygu a mireinio'r rhaglen Cymraeg i Blant.[3] Nod y rhaglen yw cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Ei hamcanion yw cefnogi:

- rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu wrth gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant:
- datblygiad ieithyddol y plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

Trwy ei nod ac amcanion, ceisia'r rhaglen gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2018) *Gwerthusiad Proses o'r Rhaglen Cymraeg i Blant: Canfyddiadau Cychwynnol*. Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 55/2018 [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].
[2] Llywodraeth Cymru, 2012. *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017* [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].
[3] Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019] a Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr – Rhaglen waith 2017–21*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

1.4 Cyd-gyflwynir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru a darparwr allanol. Ym mis Ionawr 2016, dyfarnwyd contract i'r Mudiad Meithrin (y contractwr) i gyd-gyflwyno'r rhaglen am gyfnod o hyd at dair blynedd. Roedd y contract yn werth £500,000 yn 2016-2017, gyda'r diben o gyflwyno gwasanaethau mewn 14 awdurdod lleol. Ym mis Ebrill 2017, cynyddodd Llywodraeth Cymru werth y contract i £725,000 y flwyddyn er mwyn cynnig y gwasanaethau hyn ym mhob awdurdod lleol ar draws Cymru.

1.5 Mireiniwyd ac eglurwyd nod ac amcanion rhaglen Cymraeg i Blant (gweler 1.3) ymhellach gan y contractwr yn ei gais llwyddiannus ac yn dilyn hynny yn ei gynllun busnes. Disgrifia'r contractwr y prosiect fel un sy'n '[gwneud] rhieni'n ymwybodol o'r daith ddwyieithog sydd ar gael iddynt hwy a'u plentyn o ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg'. Er mwyn darparu'r gwasanaethau, mae'r contractwr yn cyflogi 26 swyddog ar draws Cymru, sy'n gweithio'n rhan-amser yn bennaf, ac sy'n gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau yn eu hardal. Mae cwmpas daearyddol rhanbarth pob swyddog rhanbarthol yn amrywio (gweler Tabl 1 isod). Mae rhai swyddogion yn gweithredu ar draws un awdurdod lleol (neu ran o awdurdod lleol) ac eraill yn gweithio ar draws mwy nag un awdurdod lleol. Mae'r contractwr hefyd yn cyflogi rheolwr cenedlaethol Cymraeg i Blant a thri uwch swyddog i reoli'r rhaglen.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddatblygu'r strategaeth ymgysylltiad cenedlaethol gyda'r cyhoedd, gyda gwybodaeth am y rhaglen ar wefan 'Cymraeg' Llywodraeth Cymru.[4] Caiff deunyddiau hyrwyddo a gwybodaeth eu datblygu a'u caffael yn ganolog gan Lywodraeth Cymru.

[4] Nod gwefan 'Cymraeg' Llywodraeth Cymru yw cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

**Tabl 1. Cwmpas daearyddol swyddogion Cymraeg i Blant**

| **Rhanbarthau (24)** | **Nifer y swyddogion** |
|---|---:|
| Ynys Môn | 1 |
| Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg | 1 |
| Caerffili a Chasnewydd | 1 |
| Caerdydd | 1 |
| Sir Gaerfyrddin | 3 |
| Ceredigion | 1 |
| Conwy | 2 |
| Sir Ddinbych a Sir y Fflint | 2 |
| Gwynedd (Arfon) | 1 |
| Gwynedd (Dwyfor) | 1 |
| Gwynedd (Meirionnydd) | 1 |
| Merthyr Tudful a Blaenau Gwent | 1 |
| Sir Fynwy | 1 |
| Sir Benfro (gogledd) | 1 |
| Sir Benfro (de) | 1 |
| Powys (gogledd) | 1 |
| Powys (de) | 1 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 |
| Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot | 2 |
| Torfaen | 1 |
| Wrecsam | 1 |
| **Cyfanswm (24 rhanbarth)** | **26** |

**Disgrifiad o Gyflwyno Cymraeg i Blant**

1.7 Cyflwynir y sesiynau Cymraeg i Blant i grwpiau o rieni/gwarcheidwaid (y cyfeirir at bob un ohonynt fel 'rhieni' yn yr adroddiad hwn) a phlant ifanc. Mae pob sesiwn Cymraeg i Blant yn rhad ac am ddim ac yn cael eu cynnal mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol. Mae tri phrif fath o weithgareddau i grwpiau: cynigir grwpiau tylino babanod o 8 wythnos oed, ioga babanod i fabanod 10 wythnos neu'n hŷn, a sesiynau grŵp stori a chân i blant 0 - 3 blwydd oed. Cyflwynwyd arwyddo i fabanod i nifer fawr o'r

sesiynau grŵp yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r model darparu sesiynau grŵp a fabwysiadwyd gan y contractwr yn cynnwys darparu cyfres o sesiynau grŵp rheolaidd mewn lleoliadau a ddewisir gan swyddogion Cymraeg i Blant. Ychwanegir at y rhain gyda sesiynau un-i-un, yn nodweddiadol gweithgaredd mewn ardal newydd neu gyda chynulleidfa darged newydd, neu ddigwyddiadau mewn cysylltiad â phartneriaid lleol. Roedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd gan y swyddogion yn cynnwys teithiau cerdded bygi gyda theuluoedd, neu gyflwyno sesiynau grŵp amser stori a chân un-tro mewn gwyliau lleol.

1.8 Un o amcanion penodol y rhaglen yw sefydlu trefniadau i weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a sefydliadau perthnasol eraill fel gweithwyr iechyd proffesiynol, Dechrau'n Deg a Mentrau Iaith, er mwyn cynnig sesiynau ar y cyd ac er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd ehangach.[5] Rhennir y cyfrifoldeb am gydweithredu gyda rhanddeiliaid ac asiantaethau eraill rhwng Llywodraeth Cymru a'r contractwr.

1.9 Mae'r contractwr a Llywodraeth Cymru yn cael cyfarfodydd adolygu strategol yn dymhorol er mwyn trafod cynnydd o ran darparu Cymraeg i Blant. Ceir cyfarfodydd is-grŵp rheoli Cymraeg i Blant cyson (a gynhelir bob tymor hefyd sy'n canolbwyntio ar faterion mwy gweithredol) rhwng Llywodraeth Cymru a rheolwyr rhaglen Cymraeg i Blant. Mae'r contractwr yn coladu ac yn darparu adroddiadau data monitro misol i Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y sesiynau grŵp a gyflwynwyd; y rhieni a'r plant sy'n mynychu'r sesiynau grŵp; teuluoedd unigryw sy'n cymryd rhan yn y rhaglen (data amcanol); ymweliadau gan staff y rhaglen â Chylchoedd Meithrin, Ti a Fi a meithrinfeydd preifat; cyflwyniadau i rieni mewn sesiynau grŵp rhianta; gweithgareddau ymgysylltu â phartneriaid; a gweithgareddau marchnata a chyfathrebu.

[5] Dechrau'n Deg yw rhaglen blynyddoedd cynnar blaenllaw Llywodraeth Cymru i deuluoedd gyda phlant dan 4 blwydd oed sy'n byw mewn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Sefydliadau yn y gymuned yw Mentrau Iaith sy'n gweithio gydag unigolion, sefydliadau a busnesau i godi proffil y Gymraeg mewn ardal benodol. Mae 22 Menter Iaith yng Nghymru. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

1.10 Yn ystod y flwyddyn lawn ddiweddaraf o gyflwyno'r rhaglen (2017-2018), mae'r data monitro'n dangos bod 20,926 o oedolion a 21,952 o blant wedi mynychu 2,946 o sesiynau grŵp. Mae'r data monitro'n dangos bod niferoedd y sesiynau a'r mynychwyr wedi tyfu'n sylweddol yn ystod oes y rhaglen. Darperir disgrifiad manylach o ddata monitro'r rhaglen yn adrannau 3.16-3.17 yr adroddiad hwn.

**Cynulleidfa**

1.11 Datganodd manyleb Llywodraeth Cymru ar gyfer contract Cymraeg i Blant y 'bydd y rhaglen hon yn targedu rhieni o gefndiroedd ieithyddol amrywiol yn ogystal a'u targedu yn ystod cyfnodau gwahanol o safbwynt oedran eu plant.[6]

1.12 Canolbwyntia'r rhaglen ar annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a gwneud y cam cyntaf tuag at addysg cyfrwng Cymraeg. Felly, mae'r gynulleidfa a dargedwyd i gymryd rhan yn y grwpiau'n cynnwys y teuluoedd hynny a chanddynt y potensial i drosglwyddo'r Gymraeg a'r teuluoedd hynny heb unrhyw brofiad blaenorol o ddefnyddio'r Gymraeg.

1.13 Fel y nodwyd yn adran 1.4, mae'r rhaglen wedi ehangu ers iddi gychwyn, ac mae ganddi bellach rwydwaith o swyddogion yn gweithio ym mhob ardal awdurdod lleol, ond golyga'r cyfyngiadau ar gapasiti ac amser y staff bod swm y gweithgarwch Cymraeg i Blant y gellir ei gyflwyno yn gyfyngedig. At hynny, caiff cyrhaeddiad y rhaglen o ran nifer y rhieni a'r ymestyniad daearyddol eu dylanwadu gan y model darparu a ddewiswyd gan y contractwr. Trafodir hyn ymhellach yn Adran 3 yr adroddiad.

[6] Llywodraeth Cymru (2015) Y fanyleb ar gyfer gweithredu'r rhaglen Cymraeg i Blant, Contract C12 2015/2016 [Heb ei gyhoeddi].

### Cyd-destun Polisi a Strategaeth

1.14 Mae strategaeth *Cymraeg 2050* yn gosod dull tymor hir Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Dynoda'r Strategaeth dair thema strategol i gyflawni hyn:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
  - Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu;
  - Y blynyddoedd cynnar;
  - Addysg statudol;
  - Addysg ôl-orfodol;
  - Y gweithlu addysg, adnoddau a chymwysterau;
- Thema 2: Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg;
  - Y gweithle;
  - Gwasanaethau;
  - Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg;
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun;
  - Cymuned a'r economi;
  - Diwylliant a'r cyfryngau;
  - Cymru a'r byd ehangach;
  - Technoleg ddigidol;
  - Seilwaith ieithyddol;
  - Cynllunio ieithyddol;
  - Gwerthuso ac ymchwil.

1.15 Esbonia rhaglen waith y Strategaeth sut mae Cymraeg i Blant 'nid yn unig yn rhoi gwybodaeth i rieni newydd a darpar rieni am drosglwyddo'r iaith, mae ganddi hefyd y nod o gefnogi plant wrth drosglwyddo i ddarpariaeth Gymraeg y blynyddoedd cynnar a thu hwnt'.[7]

1.16 Mae Cymraeg i Blant yn gweithredu yng nghyd-destun rhaglenni iechyd, gofal plant ac addysg Llywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cysylltiedig i rieni a phlant. O 2016 ymlaen, rhoddwyd *Rhaglen Plant Iach*

---

[7] Llywodraeth Cymru (2017) *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr – Rhaglen waith 2017–21*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

*Cymru* ar waith ar draws holl fyrddau iechyd Cymru. Mae Rhaglen Plant Iach Cymru wedi'i gweithredu o 2016 ymlaen ar draws pob un o fyrddau iechyd Cymru. Rhaglen iechyd cyffredinol i bob teulu gyda phlant 0 – 7 mlwydd oed yw *Plant Iach Cymru*, sy'n gosod y cysylltiadau cynlluniedig y gall plant a'u teuluoedd ddisgwyl gan eu byrddau iechyd, o drosglwyddo o'r gwasanaeth mamolaeth i'r blynyddoedd cyntaf mewn addysg.[8] Yn ogystal â'r gwasanaeth ymwelydd iechyd cyffredinol, mae teuluoedd â phlant dan 4 oed sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru – ardaloedd Dechrau'n Deg – yn derbyn rhaglen estynedig.[9] Yn ymarferol, golyga hyn y cynigia gofal plant rhan-amser rhad ac am ddim i blant 2-3 blwydd oed, gwasanaeth ymwelydd iechyd estynedig, mynediad i raglenni rhianta a mynediad i grwpiau iaith a chwarae.

1.17 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr o addysg a gofal plant blynyddoedd cynnar a ariennir gan y llywodraeth am hyd at 48 wythnos y flwyddyn i rieni plant tair a phedair blwydd oed cymwys sy'n gweithio yng Nghymru.[10] Mae'r addysg gynnar rhad ac am ddim bresennol o 10 awr yr wythnos o leiaf i bob plentyn 3 a 4 blwydd oed, a ddarperir gan y Cyfnod Sylfaen, yn rhan o'r cynnig hwn. Ar hyn o bryd, mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno'n raddol ar draws Cymru a bydd ar gael ar draws y wlad erbyn 2020.

1.18 Y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS) yw'r pwynt cyswllt cyntaf am gyngor a gwybodaeth am y gwasanaethau lleol hyn i rieni. Mae'r FIS yn darparu help, cymorth a chyngor am ddim a diduedd ar ystod o faterion teuluol gan gynnwys gofal plant, gofal iechyd, addysg a hyfforddiant, gwasanaethau hamdden a materion ariannol.

1.19 Mae Cymraeg i Blant yn gweithredu yng nghyd-destun y rhaglenni uchod, gyda swyddogion Cymraeg i Blant yn cydweithredu i raddau amrywiol gyda'r gwasanaethau hyn ar draws Cymru. Trafodir gweithio mewn partneriaeth yn fanylach yn Adran 3 yr adroddiad hwn.

---

[8] Llywodraeth Cymru (2016) *Rhaglen Plant Iach Cymru*. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].
[9] Llywodraeth Cymru (2017) *Dechrau'n Deg* *[Ar-lein]*. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].
[10] Llywodraeth Cymru (2017) *Dweud eich Dweud ar Ofal Plant: y cynnig i Gymru* *[Ar-lein]*. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

### Nod ac amcanion y gwerthusiad

1.20 Nod y gwerthusiad yw archwilio a ddyluniwyd y rhaglen mewn ffordd sy’n galluogi ar gyfer bodloni ei amcanion, ac asesu sut mae’r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn ei ffurf bresennol.

1.21 Amcanion y gwerthusiad yw datblygu a phrofi Theori Newid y rhaglen, er mwyn adnabod pa agweddau ar y rhaglen sy’n gweithio’n dda, yn ogystal â pha agweddau y mae angen eu gwella, a sut gellir gwneud hyn. Mae’r gwerthusiad hefyd yn ceisio datblygu cynigion ar gyfer dyluniad ymchwil posibl ar gyfer gwerthusiad o ddeilliannau’r rhaglen i’r dyfodol.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn darparu manylion ar amcanion y gwerthusiad a chwestiynau'r ymchwil; methodoleg y gwerthusiad; y broses ar gyfer datblygu'r Theori Newid; moeseg; a chryfderau a chyfyngiadau'r dull gwerthuso.

**Amcanion y gwerthusiad a chwestiynau'r ymchwil**

2.2 Dyma amcanion y gwerthusiad fel y nodwyd yn y Fanyleb:

- egluro'r Theori Newid sy'n sail i'r rhaglen Cymraeg i Blant;
- asesu i ba raddau mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu yn unol â'r Theori Newid;
- adnabod pa agweddau ar y rhaglen sy'n gweithio'n dda a pham;
- adnabod pa agweddau ar y rhaglen y mae angen eu gwella, a pham;
- cynnig argymhellion ar sut gellid gwella'r rhaglen;
- datblygu cynigion posibl ar gyfer dyluniad ymchwil ar gyfer gwerthusiad o ddeilliannau'r rhaglen i'r dyfodol.

2.3 Tynnodd y cwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn oddi ar y themâu a gynigiwyd yn y fanyleb ar gyfer y gwerthusiad ac maen nhw'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Nod ac amcanion y rhaglen:
  - Sut datblygwyd nod ac amcanion y rhaglen ac i ba raddau y mae cyd-ddealltwriaeth o blith yr holl randdeiliaid hyn.
- Cynulleidfa darged:
  - Sut diffinnir y gynulleidfa darged; a phriodoldeb annog ystod lawn y gynulleidfa darged i ymgysylltu â'r sesiynau Cymraeg i Blant a rhannu gwybodaeth gyda nhw.
- Gweithgareddau'r rhaglen:
  - Cryfderau a gwendidau'r dull cyfredol o gynllunio a darparu gweithgareddau mewn sesiynau grŵp, ac a ydy'r sesiynau'n bodloni gofynion y gynulleidfa darged.
- Ardaloedd daearyddol:
  - Y broses gyfredol ar gyfer cynllunio lle mae sesiynau'n digwydd.

- Strwythurau a phrosesau:
  - Y gefnogaeth a gynigir i'r contractwr gan Lywodraeth Cymru a sut rhennir y cyfrifoldebau yn y rhaglen.
- Monitro:
  - Astudio pa ddata sy'n cael ei gasglu, y dulliau, y rhesymeg dros gasglu a pha ddefnydd a wneir o'r data a gesglir.
- Partneriaethau:
  - Y ddolen gyswllt rhwng sesiynau grŵp Cymraeg i Blant a'r cyfleoedd ehangach i gefnogi profiadau cyfrwng Cymraeg plant ifanc.
  - Sut mae'r rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill wrth hwyluso dilyniant trwy ddarpariaeth gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg.

**Methodoleg y gwerthusiad**

2.4 Er mwyn ateb y cwestiynau ymchwil a restrwyd yn adran 2.3 uchod, datblygwyd dyluniad gwerthuso dulliau cymysg. Casglwyd tystiolaeth yn bennaf o fis Ebrill 2018 i fis Gorffennaf 2018, gyda'r gwaith maes oedd yn weddill yn cael ei gwblhau ym mis Medi 2018. Roedd y fethodoleg yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen;
- datblygu offerynnau ymchwil;
- cyfweliadau gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru;
- cyfweliadau gyda rheolwr Cymraeg i Blant, tri uwch swyddog a 26 swyddog rhanbarthol sy'n gweithio ar ran y contractwr (gweler 1.5 am ragor o wybodaeth);
- gwaith maes gyda rhieni;
- cyfweliadau gyda rhanddeiliaid; a
- datblygu a phrofi Theori Newid (trafodir yn fanwl ym mharagraffau 2.15 - 2.17).

2.5 Cynhaliwyd adolygiad o ddogfennaeth y rhaglen, gan gynnwys adroddiadau monitro a gyflwynwyd gan y contractwr, deunydd cyhoeddusrwydd Cymraeg i Blant, ffurflenni i gasglu data presenoldeb Cymraeg i Blant a

chyhoeddiadau cenedlaethol perthnasol (gan gynnwys *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*).[11] Llywiodd yr adolygiad hwn ddatblygiad y Theori Newid a dyluniad offerynnau ymchwil y gwerthusiad.

2.6 Datblygwyd offerynnau ymchwil i gasglu tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad. Roedd yr offerynnau yn cynnwys canllawiau cyfweld lled-strwythuredig ar gyfer y cyfweliadau gyda rhieni, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, swyddogion rhaglen rhanbarthol, rheolwyr y rhaglen ac uwch swyddogion y rhaglen. Datblygwyd hysbysiad preifatrwydd a deunyddiau esboniadol gyda gwybodaeth am y prosiect hefyd er mwyn sicrhau bod cydsyniad deallus yn cael ei gasglu gan gyfranogwyr yr ymchwil.

2.7 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda dau gynrychiolydd Llywodraeth Cymru sydd â goruchwyliaeth strategol o'r rhaglen, yn ogystal â rheolwr y rhaglen a thri uwch swyddog y rhaglen yn sefydliad y contractwr. Casglodd y cyfweliadau hyn dystiolaeth ar amcanion, gwaith marchnata ac ymgysylltu Cymraeg i Blant, dyluniad a gweithrediad grwpiau Cymraeg i Blant, partneriaethau, prosesau monitro, y cynnydd hyd yma ac argymhellion ar gyfer gwelliannau i'r rhaglen i'r dyfodol.

2.8 Cynhaliwyd y cyfweliadau gyda phob un o'r 26 swyddog Cymraeg i Blant rhanbarthol (gweler adran 1.5). Casglodd y cyfweliadau hyn dystiolaeth ar yr un themâu â'r rhai a nodwyd ym mharagraff 2.6, ond rhoddwyd mwy o bwyslais ar y dystiolaeth yn gysylltiedig â darparu'r rhaglen ar lefel ranbarthol.

2.9 Cynhaliwyd gwaith maes gyda 125 o rieni a gwarcheidwaid (gan gynnwys nifer fach o aelodau teulu a gwarchodwyr plant), ar draws 29 sesiwn grŵp mewn 24 rhanbarth. Dynodwyd sesiynau grŵp addas i'r gwerthuswyr eu mynychu yn ystod y cyfweliadau gyda'r swyddogion Cymraeg i Blant rhanbarthol. Canolbwyntiodd y gwerthuswyr ar sicrhau bod mynychwyr y sesiynau grŵp yn cynrychioli ystod o ranbarthau a mathau o sesiynau gweithgarwch, yn ogystal ag osgoi sesiynau grŵp lle byddai mwyafrif y mynychwyr yn mynychu am y tro cyntaf (tybiwyd y byddai'r rhai oedd yn

---

[11] Llywodraeth Cymru (2017) [*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*]. [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

mynychu am y tro cyntaf wedi cael llai o brofiadau o'r rhaglen i dynnu arnynt yn ystod y trafodaethau).

2.10 Cynhaliwyd cymysgedd o gyfweliadau un-i-un a grŵp gyda rhieni neu warcheidwaid. Amrywiodd fformat y cyfweliadau yn dibynnu ar natur sesiwn y gweithgaredd, y lle oedd ar gael yn y lleoliad, yr amser oedd ar gael ar gyfer cyfweliadau, a'r hyn oedd orau gan y rhieni neu'r gwarcheidwaid. Lle cynhaliwyd cyfweliadau un-i-un, cynhaliwyd y rhain bob amser yn y gweithgaredd grŵp ehangach ac nid cyfweliadau preifat oeddent. Ar sail y canfyddiadau, ymddengys na wnaeth lefel a natur yr atebion wahaniaethu rhwng y gwahanol fathau o gyfweliadau. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai ymatebion y rhieni fod wedi'u heffeithio gan y dewis dull, oherwydd gallen nhw fod wedi bod yn amharod i rannu gwybodaeth a barn mewn sefyllfa grŵp.

2.11 Casglodd y gwaith maes dystiolaeth ar gefndir ieithyddol y rhieni (e.e. a oeddent yn siarad Cymraeg, wedi mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg), eu hymwybyddiaeth o'r rhaglen a chyfathrebu, natur eu hymgysylltiad â'r gweithgaredd, eu barn ar ansawdd ac effaith y gweithgaredd ac anghenion cymorth i'r dyfodol.

2.12 Cynhaliwyd cyfweliadau un-i-un gyda 46 o bartneriaid a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant, trwy gyfuniad o ddulliau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Roedd y rhain yn cynnwys cyfweliadau gyda chynrychiolwyr Urdd Gobaith Cymru, Booktrust a Chyngor Llyfrau Cymru ar lefel genedlaethol, a llyfrgelloedd, ymwelwyr iechyd, adrannau hyfforddi bydwreigiaeth yn y brifysgol, Mentrau Iaith a Dechrau'n Deg ac arweinwyr rhaglen magu plant a ariennir gan yr awdurdod lleol ar lefel ranbarthol.[12] Roedd y cyfweleion hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau sydd wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru neu'r contractwr ar lefel genedlaethol neu ar lefel ranbarthol, yn ogystal â rhanddeiliaid sydd heb ymgysylltu'n uniongyrchol â'r rhaglen Cymraeg i Blant.

[12] Mudiad ieuenctid yw Urdd Gobaith Cymru. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019]. Mae BookTrust Cymru yn rhan o Booktrust, elusen darllen i blant mwyaf y DU. Corff cenedlaethol yw Cyngor Llyfrau Cymru, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu ffocws i'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru.

2.13 Dynodwyd y rhanddeiliaid trwy ddau ddull gwahanol: dynodwyd rhai gan swyddogion Cymraeg i Blant a dynodwyd eraill gan y gwerthuswyr neu gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y gwerthuswyr wybodaeth gan swyddogion Cymraeg i Blant ar sefydliadau y gweithion nhw mewn partneriaeth gyda nhw. Amrywiodd y rhain o sefydliadau a helpodd godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant neu a gyfeiriodd rieni at sesiynau gyda staff Cymraeg i Blant. Roedd rhanddeiliaid a ddynodwyd yn annibynnol gan y tîm ymchwil neu gan Lywodraeth Cymru’n cynnwys rhanddeiliaid oedd heb ymgysylltu â'r rhaglen Cymraeg i Blant ac eraill oedd wedi cydweithredu mewn rhyw ffordd gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant (e.e. trwy gyfeirio rhieni at y rhaglen, trosglwyddo gwybodaeth am y rhaglen neu gyd-gyflwyno sesiynau). Mae Tabl 2 isod yn gosod math a nifer y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â nhw.

2.14 Ceisiodd y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid ddeall i ba raddau y gweithion nhw mewn partneriaeth â'r rhaglen Cymraeg i Blant (os o gwbl), y rhesymau am ymgysylltu (neu ddiffyg ymgysylltu) a’u dealltwriaeth o nod, amcanion a gweithgareddau Cymraeg i Blant. Lle gweithiodd y sefydliadau mewn partneriaeth â'r rhaglen Cymraeg i Blant, ceisiodd y cyfweliadau hefyd ddeall natur y gwaith ar y cyd, eu profiadau o gydweithredu gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant, a safbwyntiau ar y manteision canfyddedig ar eu sefydliad ac ar y grŵp targed o weithio mewn partneriaeth â'r rhaglen Cymraeg i Blant.

**Tabl 2. Crynodeb o’r rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy**

| Math o sefydliad rhanddeiliaid | Nifer y rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy | | |
|---|---|---|---|
| | **Rhanddeiliaid a ddynodwyd gan swyddogion Cymraeg i Blant** | **Rhanddeiliaid a ddynodwyd gan y gwerthuswyr neu Lywodraeth Cymru** | **Cyfanswm** |
| Darparwyr hyfforddiant ymwelwyr iechyd a bydwreigiaeth | 0 | 3 | 3 |
| GIG Cymru | 5 | 2 | 7 |
| Awdurdod lleol | 2 | 0 | 2 |
| Dechrau’n Deg | 3 | 2 | 5 |
| Mentrau Iaith | 6 | 4 | 10 |
| Llyfrgelloedd | 7 | 0 | 7 |
| Arall (elusennau, trydydd sector, ysgolion) | 12 | 0 | 12 |
| **Cyfanswm** | **35** | **11** | **46** |

**Datblygu Theori Newid**

2.15 Un o amcanion y gwerthusiad hwn oedd datblygu a phrofi Theori Newid y rhaglen. Mae’r Theori Newid yn arf i esbonio’n glir sut bwriedir i raglen gyflawni ei nodau a’i hamcanion trwy wneud y cysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau tymor hir y rhaglen yn glir. Mae’r Theori Newid hefyd yn ceisio disgrifio a chyfleu’r set o dybiaethau sy’n esbonio’r camau sy’n arwain at yr effeithiau tymor hir ac sy’n helpu rhoi’r rhaglen yn ei chyd-destun polisi ac / neu strategol. Mae Theori Newid yn arf defnyddiol ar gyfer cynllunio, monitro a gwerthuso ymyriad cymhleth, fel Cymraeg i Blant, oherwydd mae’n dangos sut gallai newidiadau ddod i’r amlwg ac yn egluro’r newidiadau cynnar a thymor canolig y mae angen iddynt ddigwydd er mwyn cyrraedd canlyniad tymor hirach.

2.16 Llywiodd y tasgau amrywiol y broses o ddatblygu Theori Newid ddrafft ar gyfer Cymraeg i Blant yn ystod y gwerthusiad. Yn ystod y cyfnod cwmpasu (Ebrill a Mai 2018), ceisiodd ymchwil desg, cyfweliadau gyda rheolwyr Cymraeg i Blant a gweithdy Theori Newid gyda’r gwerthuswyr a staff

Llywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth o nod ac amcanion y rhaglen a'r mewnbynnau a'r gweithgareddau a dybiwyd i arwain at gyflawni'r rhain. Wedyn, datblygodd y gwerthuswyr fodel rhesymeg drafft ar gyfer y rhaglen, a fireiniwyd ochr yn ochr â'r gwaith maes gwerthuso a oedd yn digwydd (Mehefin-Medi 2018). Cefnogwyd hyn trwy drafodaethau ac adborth gan Lywodraeth Cymru, adolygydd cymheiriaid annibynnol a chanfyddiadau'r gwaith maes gwerthuso. Yna, llywiodd y trafodaethau o gwmpas y model rhesymeg drafft ddatblygiad Theori Newid ddrafft, a rannwyd unwaith eto gyda Llywodraeth Cymru a'r adolygydd cymheiriaid (Hydref 2018). Ymhelaethodd y Theori Newid ddrafft ar y camau, y cysylltiadau achosol a'r tybiaethau rhwng pob cam o'r model rhesymeg, gan ddarparu mwy o fanylder ar bob un.

2.17 Dangosir y Theori Newid ddrafft yn Adran 5 yr adroddiad (gweler Ffigurau 6-9). Fe'i rhannwyd a thrafodwyd gyda Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2018, i brofi a oedd y Theori Newid yn adlewyrchu eu harsylwadau o'r rhaglen. Disgwylir y bydd rhagor o brofi a mireinio ar y Theori Newid yn digwydd yn ystod cam nesaf Cymraeg i Blant o fis Ebrill 2019 ymlaen, a bydd hyn yn golygu trafodaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r contractwr, i sicrhau bod y Theori Newid ddiwygiedig yn gyson â'u dealltwriaeth o'r rhaglen.

**Ystyriaethau moesegol**

2.18 Casglwyd cydsyniad deallus gan yr holl rieni, staff a rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwerthusiad; darparwyd yr holl wybodaeth angenrheidiol am eu cyfraniad at y gwerthusiad a'r defnydd o'u data personol mewn nodiadau briffio ac mewn hysbysiad preifatrwydd cysylltiedig cyn y cyfweliad. Cafwyd cydsyniad wedi'i arwyddo gan y rhieni ar gyfer y cyfweliadau wyneb-yn wyneb, a chafwyd cydsyniad ar lafar ar gyfer y cyfweliadau ffôn ac wyneb-yn-wyneb gyda swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant. Cafodd Prifysgol Bangor gymeradwyaeth foesegol gan ei phwyllgor Moeseg Ymchwil ar gyfer ei gwaith maes.

**Prif egwyddorion a chyfyngiadau'r fethodoleg**

2.19 Dyluniwyd y fethodoleg werthuso gyda rhai egwyddorion allweddol mewn cof, sef:

- sicrhau bod yr holl reolwyr a swyddogion allweddol sydd ynghlwm â dylunio a darparu Cymraeg i Blant yn cael cyfle i gyfrannu at y gwerthusiad;
- dull anffurfiol a hyblyg o ymgymryd â gwaith maes gyda rhieni, gan sicrhau bod y gwaith yn tarfu gyn lleied ag oedd modd ar natur anffurfiol y sesiynau grŵp a drefnir gan swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant;
- hyblygrwydd i gasglu tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid o amrywiol sefydliadau a sectorau, gan gynnwys rhanddeiliaid a ddynodwyd gan swyddogion Cymraeg i Blant ac eraill a ddynodwyd yn annibynnol.

2.20 Mae rhai cyfyngiadau i'r fethodoleg ymchwil. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tuedd bosibl o fewn y data a hunan-adroddwyd. Gofynnwyd i'r rhieni a'r rhanddeiliaid roi sylwadau ar eu profiad o gymryd rhan yn y gweithgareddau Cymraeg i Blant maen nhw'n elwa arnynt ar hyn o bryd, a gallai hyn fod wedi arwain at ragor o ymatebion cadarnhaol;
- Y potensial i gefndir ac amgylchiadau unigol rhieni ddylanwadu ar eu safbwyntiau ar y rhaglen yn ogystal ag amodau a ffactorau lleol yn eu hardal (e.e. profiadau cadarnhaol neu negyddol o addysg cyfrwng Cymraeg, argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol);
- Tra cydnabyddir mai gwerthusiad proses yw hwn ac nid gwerthusiad o effaith, golyga'r diffyg grŵp cymhariaeth nad oes tystiolaeth gadarn i allu priodoli'r canfyddiadau'n ymwneud â bodlonrwydd y rhieni gyda sesiynau grŵp Cymraeg i Blant ac arwyddion cynnar o effaith y rhaglen i'r rhaglen ei hun;
- Dibyniaeth ar swyddogion Cymraeg i Blant yn adnabod rhanddeiliaid y maen nhw wedi cydweithredu gyda nhw gan arwain at duedd bosibl o ran dewis, gyda'r rhai a gydweithredodd gyda rhaglen Cymraeg i Blant yn debygol o gael eu gorgynrychioli yn y sampl. Lliniarwyd hyn trwy adnabod rhai rhanddeiliaid yn annibynnol;

- Dylai’r samplau o rieni a rhanddeiliaid gael eu hystyried yn sampl cyfleus ac ni ellir ystyried eu bod yn cynrychioli pob rhanddeiliad posibl;
- Bod y samplau o rieni a rhanddeiliaid yn gymharol fach a’u bod yn cyfyngu ar y graddau y gellir ystyried bod canfyddiadau’n gadarn, yn enwedig mewn perthynas ag is-grwpiau penodol (e.e. rhanddeiliaid mewn sectorau penodol);
- Nad yw’r gwerthusiad wedi ceisio safbwyntiau rhieni oedd heb ymgysylltu â’r rhaglen Cymraeg i Blant, ac y gallai fod gan y rhain wahanol safbwyntiau;
- Y posibilrwydd o duedd wrth ddethol y sampl o randdeiliaid, gan ddod ar draws heriau wrth ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai oedd yn ymgysylltu llai gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant;
- Nad yw’r canfyddiadau’n galluogi dadansoddiad ar lefel ranbarthol;
- Nad yw’r Theori Newid ddrafft yn ystyried adborth gan y contractwr. Mae’n bosibl y byddai’r profi pellach hwn (trwy gynnwys y contractwr a rhanddeiliaid eraill hefyd) wedi arwain at fireinio’r Theori Newid ymhellach.

Dylid ystyried y cyfyngiadau uchod wrth adolygu canfyddiadau’r gwerthusiad, a gyflwynir isod.

## 3. Canfyddiadau

3.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r gwerthusiad yn ymwneud â: nod ac amcanion y rhaglen; cynulleidfa darged; gweithgareddau'r rhaglen; ardaloedd daearyddol; strwythurau a phrosesau; monitro, a phartneriaethau. Cafodd canfyddiadau'n ymwneud â'r partneriaethau rhwng Cymraeg i Blant a sefydliadau eraill, yn ogystal â'r Mudiad Meithrin fel partner sector (yn wahanol i gontractwr) eu cynnwys yn yr adran hon hefyd.

### Nod ac amcanion y rhaglen

3.2 Fel y nodwyd yn adran 1.3, nod Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Ei amcanion yw cefnogi:

- rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill y teulu wrth gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant;
- datblygiad ieithyddol y plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

3.3 Adroddodd y cyfweleion o Lywodraeth Cymru fod y nod a'r amcanion a osodwyd ym manyleb rhaglen Cymraeg i Blant wedi'u llywio gan brofiad blaenorol o ariannu rhaglen 'Twf'.[13] Datblygwyd nod ac amcanion Cymraeg i Blant i gefnogi nodau ac amcanion strategaeth iaith Gymraeg (ar y pryd) Llywodraeth Cymru, sef *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017* (Llywodraeth Cymru, 2012). [14] Esboniodd cyfweleion Llywodraeth Cymru hefyd fod y nod a'r amcanion yn gyson â strategaeth *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Llywodraeth Cymru, 2017a) a'i rhaglen waith ar gyfer 2017-21, sy'n cynnwys ymrwymiad i adolygu a mireinio'r rhaglen.[15] Nododd

[13] 'Sefydlwyd 'Twf' gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn 2001. Ei nod oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd o fanteision magu plant yn ddwyieithog a darparu dylanwad cadarnhaol ar eu hymarfer o ran defnyddio'r Gymraeg. Mae ffocws y prosiect wedi esblygu dros y blynyddoedd, gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar adegau penodol ar gynyddu nifer y teuluoedd dwyieithog sy'n trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, ac ar godi ymwybyddiaeth y teuluoedd o werth cyflwyno Cymraeg yn y cartref, dwyieithrwydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig ar gyfer rhieni plant 6 mis oes neu'n iau. Daeth prosiect 'Twf' i ben ym mis Mawrth 2016.

[14] *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017* (Llywodraeth Cymru, 2012). [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

[15] Llywodraeth Cymru, 2017a, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019]. Llywodraeth Cymru, 2017b, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr – Rhaglen waith 2017–21*. [Ar-lein]. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

y cyfweleion o Lywodraeth Cymru bod y ffordd y mae nod ac amcanion y rhaglen yn cael eu hegluro wedi'u mireinio, yn seiliedig yn bennaf ar ddehongliad y contractwr ohonynt.

3.4 Dangosodd y cyfweliadau gyda staff y contractwr eu bod yn dehongli'r nod ac amcanion cenedlaethol fel cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, trosglwyddo'r Gymraeg a dilyniant gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Disgrifiodd y rhai y cyfwelwyd â hwy y nod ac amcanion hyn trwy gysyniad 'taith iaith', gan adlewyrchu'r arwyddair 'dechrau'r daith at ddwy iaith' a ddefnyddir ar ddeunyddiau wedi'u hysgrifennu gan Lywodraeth Cymru. Esboniodd swyddogion Cymraeg i Blant fod y daith yn dechrau gyda rhaglen Cymraeg i Blant ac yn symud ymlaen at weithgareddau cyfrwng Cymraeg (fel Cylch Ti a Fi y Mudiad Meithrin) a darpariaeth y blynyddoedd cynnar (fel Cylchoedd Meithrin) ac yna ymlaen at addysg cyfrwng Cymraeg.[16]

3.5 Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn deall y nod a'r amcanion cenedlaethol ac yn ystyried eu bod yn briodol. Adroddodd y swyddogion hefyd bod y nod a'r amcanion hyn yn cael eu hadlewyrchu ar lefel ranbarthol. Fodd bynnag, teimlai'r swyddogion hefyd bod ganddynt ddigon o hyblygrwydd i roi mwy o bwyslais ar rai amcanion (e.e. trosglwyddo iaith, caffael, defnyddio, addysg) yn dibynnu ar yr ardal neu gefndir ieithyddol y rhieni. Adroddodd y swyddogion iddynt fabwysiadu cysyniad 'taith iaith' a'u bod yn darparu hyn mewn gwahanol ffyrdd, yn dibynnu ar amgylchiadau a phrofiad teulu o'r Gymraeg. Tueddai'r rhieni i ddeall nod Cymraeg i Blant fel amlygiad i ragor o Gymraeg trwy'r sesiynau grŵp. Nododd rhai rhieni eu bod yn deall bod y rhaglen yn cael ei hanelu at eu cefnogi a'u hannog i gael mynediad i addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg.

3.6 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod gan swyddogion Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Cymraeg i Blant ddealltwriaeth gyson o nod ac amcanion y rhaglen fel yr amlinellwyd yn adran 3.2. Fodd bynnag, cydnabu'r cyfweleion hefyd fod amcanion y rhaglen yn eang ac yn agored i rywfaint o ddehongli.

[16] Grwpiau bach lleol yw Cylchoedd Ti a Fi a reolir gan bwyllgor o rieni neu wirfoddolwyr. Mae dros 500 o Gylchoedd Ti a Fi wedi'u cofrestru'n aelodau o'r Mudiad Meithrin ar draws Cymru ac mae dros 8,000 o blant yn eu mynychu. Mae llawer o gylchoedd Ti a Fi yn gysylltiedig â Chylchoedd Meithrin lleol (cylchoedd chwarae cyfrwng Cymraeg). Mae dros 500 o gylchoedd meithrin yng Nghymru, gyda thros 13,000 o blant yn eu mynychu. [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

Nododd y cyfweleion hefyd na chafodd y nod a'r amcanion eu dogfennu na'u diweddaru'n gyson er mwyn adlewyrchu dehongliad y contractwr o fanyleb y rhaglen.

### Y gynulleidfa darged

3.7 Fel y nodwyd yn adran 1.11 yr adroddiad hwn, datganodd manyleb Cymraeg i Blant fod y rhaglen yn targedu rhieni o bob cefndir ieithyddol ac ar wahanol gamau o ddatblygiad eu plant. Nododd y fanyleb hefyd fod disgwyl i'r contractwr ddarparu cefnogaeth i rieni plant hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed). Yn ymarferol, mae tystiolaeth o'r gwerthusiad yn dangos bod sesiynau grŵp Cymraeg i Blant wedi'u dylunio i apelio at holl rieni plant cyn ysgol. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod y contractwr, ar ôl trafod gyda Llywodraeth Cymru, wedi canolbwyntio ar y grwpiau oedran mae'n ystyried yn fwyaf priodol i gyflawni amcanion y rhaglen, sef plant cyn ysgol. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod y sesiynau grŵp wedi'u hanelu'n bennaf at rieni babanod sydd ryw 8 wythnos oed hyd at blant 3 blwydd oed, gyda swyddogion y rhaglen yn esbonio eu bod yn dymuno ymgysylltu â rhieni'n ddigon cynnar ym mywyd y plentyn i feithrin perthynas gyda'r rhiant cyn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfrwng yr addysg.

3.8 Tuedda'r dulliau marchnata, fel posteri mewn llyfrgelloedd a phostiadau'r cyfryngau cymdeithasol, ganolbwyntio ar hyrwyddo sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, ac fe'u hanelir at rieni plant cyn oed ysgol, ni waeth beth yw eu cefndir ieithyddol. Er bod y gweithgareddau grŵp yn agored i'r holl rieni gyda phlant cyn oed ysgol, esboniodd llawer o'r swyddogion Cymraeg i Blant eu bod wedi ceisio cyrraedd rhieni nad ydynt yn medru'r Gymraeg, neu'r rhai sy'n siarad ychydig iawn o Gymraeg neu â diffyg hyder mewn siarad Cymraeg yn benodol. Fodd bynnag, pwysleisiodd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant hefyd y gallai'r rhieni oedd yn siarad Cymraeg, neu oedd wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, elwa ar y rhaglen hefyd:

> *'[Rydw i'n targedu] rhieni nad ydynt yn medru'r Gymraeg neu lle nad yw'r Gymraeg yn gryf neu'n debygol o gael ei cholli, er enghraifft rhiant lle mae'r Gymraeg yn ail iaith iddo/iddi gyda phartner sy'n methu siarad Cymraeg.'* Cyfweliad swyddog rhanbarthol Cymraeg i Blant

*'Rwy'n ceisio targedu pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg, ond mae angen cefnogaeth ar y rhai sy'n medru'r Gymraeg hefyd – er enghraifft Cymraeg ail iaith neu'r rhai o gefndir teuluol di-Gymraeg. Mae cael cymysgedd yn y grŵp yn gweithio'n dda – siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg'.* Cyfweliad swyddog rhanbarthol Cymraeg i Blant

3.9 Nododd rhai swyddogion Cymraeg i Blant hefyd, er nad oeddent yn mynd ati'n fwriadol i recriwtio proffil penodol o rieni, eu bod yn ei gweld yn ddefnyddiol cael cymysgedd o rieni o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn y sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Nododd swyddogion Cymraeg i Blant ei bod hi'n ddefnyddiol cael rhieni oedd yn siarad Cymraeg, oedd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu yr oedd eu plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn sesiynau grŵp, oherwydd gallai'r rhieni hyn rannu eu profiadau gyda theuluoedd eraill nad oedd ganddynt sgiliau Cymraeg na phrofiad o droi at addysg cyfrwng Cymraeg. Yn wir, roedd ychydig o swyddogion Cymraeg i Blant yn ystyried bod helpu i greu rhwydweithiau cymorth anffurfiol o rieni o fantais bwysig i'r rhaglen o bosibl, gyda rhai rhieni'n gallu gweithredu fel hyrwyddwyr addysg cyfrwng Cymraeg.

*Ymgysylltu â rhieni*

3.10 Mae cyfweliadau gyda swyddogion Cymraeg i Blant yn dangos bod y broses o dargedu rhieni a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen yn dechrau yn y cyfnod cyn geni ac yn golygu cyfathrebu uniongyrchol rhwng Cymraeg i Blant a'r rhieni, yn ogystal â chyfathrebu trwy gyfryngwyr. Adroddodd y rhan fwyaf o swyddogion y rhaglen iddynt gysylltu â bydwragedd ac ymwelwyr iechyd i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen a gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth i rieni a darpar rieni ynghylch sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Mae data monitro'r rhaglen yn dangos bod swyddogion Cymraeg i Blant wedi darparu 11 cyflwyniad am y rhaglen Cymraeg i Blant i gyfanswm o 80 ymwelydd iechyd neu fydwraig yn 2017-18 (y flwyddyn lawn ddiweddaraf o ddata sydd ar gael) a mynychodd cyfanswm o 156 o fyfyrwyr gofal plant neu fydwreigiaeth un o'r 6 chyflwyniad gan staff Cymraeg i Blant. Roedd bron pob rhiant yr ymgynghorwyd ag ef fel rhan o'r gwerthusiad hwn, fodd

bynnag, wedi clywed am y rhaglen drwy eraill neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gyda nifer fach yn adrodd iddynt weld poster neu iddynt ddigwydd taro ar draws y sesiwn wrth fynychu gweithgareddau eraill yn y lleoliad lle'r oedd y sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn cael eu darparu (e.e. ymweld â'u llyfrgell leol neu ganolfan gymunedol).

3.11 Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod eu hymgysylltiad cychwynnol gyda rhieni wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth i rieni am y gweithgareddau a gynigir yn sesiynau grŵp y rhaglen (e.e. tylino babanod neu ioga). Esboniodd swyddogion Cymraeg i Blant iddynt dueddu i ganolbwyntio ar gyfleu'r prif negeseuon yn ymwneud â manteision caffael y Gymraeg i ddechrau ac yna troi at addysg cyfrwng Cymraeg yn nes ymlaen, wrth ddarparu sesiynau grŵp a sgyrsiau un-i-un, yn hytrach na fel rhan o'r ymgysylltiad cychwynnol. Disgrifiodd rhai swyddogion y gweithgareddau sesiwn grŵp Cymraeg i Blant fel 'bachyn' oedd yn hwyluso ymgysylltiad cychwynnol ac yn darparu cyfle i gael trafodaethau pellach (e.e. am addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg).

3.12 O ran marchnata sesiynau grŵp y rhaglen, defnyddia pob swyddog Cymraeg i Blant Facebook fel dull o hysbysebu a chyfathrebu gyda rhieni. Pwysleisia'r postiadau Facebook a hysbysebion print ar gyfer gweithgareddau'r rhaglen fod croeso i bob rhiant yn y sesiynau grŵp. Adroddodd bron pob un rhiant y cyfwelwyd â hwy, dim ots sut roeddent wedi dod i wybod am y rhaglen yn y lle cyntaf, eu bod wedi troi at eu tudalen Facebook Cymraeg i Blant lleol.

3.13 At ei gilydd, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch Cymraeg i Blant, dan faner ei hymgyrch marchnata 'Cymraeg'. Mae gwybodaeth am raglen Cymraeg i Blant, astudiaethau achos a fideos o rieni a dolenni cyswllt i safleoedd Facebook lleol Cymraeg i Blant ar gael ar wefan Cymraeg.gov.cymru. Cesglir rhywfaint o ddata ar ddefnydd y wefan, ond nid yw'r rhain yn darparu golwg glir i batrymau defnydd rhan Cymraeg i Blant y safle.

3.14 Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd trwy waith maes a'r adolygiad o'r data monitro, mae'r gynulleidfa wirioneddol a gyrhaeddwyd – o ran niferoedd ac o ran cefndir ieithyddol – yn amrywio o un ardal i'r llall, o fewn ardaloedd, ac yn gallu amrywio o wythnos i wythnos wrth i deuluoedd newydd ymuno a gadael. Mae'r swyddogion rhanbarthol yn gweithio gyda'r amrywiaeth hwn, a dros y sesiynau grŵp cyntaf maen nhw'n dod i adnabod y rhieni ac yna'n dechrau cyflwyno eu sgyrsiau a'u negeseuon yn briodol i'r gynulleidfa sydd ganddynt yn y sesiwn honno. Dywedodd swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant mewn rhai ardaloedd eu bod yn gynyddol yn gweld pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg o'r tu allan i'r DU.

3.15 Mae Tabl 3 isod yn dangos niferoedd y sesiynau grŵp a gynhaliwyd a'r rhieni a'r plant a fynychodd yn ôl data monitro diweddaraf Cymraeg i Blant a roddwyd at ei gilydd gan y contractwr. Mae'r dadansoddiad o ddata monitro'r rhaglen yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y sesiynau grŵp a'r mynychwyr rhwng 2016-17 a 2018-19.

3.16 Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf o ddarparu (o fis Ebrill 2016 i fis Mawrth 2017), cyflwynwyd 1,459 o sesiynau grŵp Cymraeg i Blant o gymharu â 2,946 yn yr ail flwyddyn (y cyfnod o un ar ddeg mis rhwng Ebrill 2017 a Chwefror 2018). Mae'r cynnydd hwn yn debygol o adlewyrchu ehangiad y rhaglen yn ystod yr ail flwyddyn o ddarparu. Mae'r data ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf hyd yma (y saith mis o fis Mawrth i fis Medi 2018) yn dangos bod 2,052 sesiwn grŵp wedi'u darparu yn ystod y cyfnod hwn. Gan dybio bod y cynnydd yn nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn ystod hanner cyntaf 2018-19 yn cael ei gynnal yn ystod gweddill y flwyddyn, mae cyfanswm nifer y sesiynau grŵp a gyflwynir yn 2018-19 yn debygol o fod yn fwy na'r nifer ar gyfer 2017-18.

3.17 Cafwyd cynnydd hefyd yn nifer yr oedolion a phlant oedd yn mynychu sesiynau grŵp rhwng 2016-17 a 2018-19. Mynychodd cyfanswm o 7,595 o oedolion ac 8,143 o blant sesiynau grŵp yn 2016-17. Yn ystod 2017-18, cynyddodd hyn i 13,187 o oedolion ac 13,720 o blant (ar sail y cyfnod o 11 mis o fis Ebrill 2017 i fis Chwefror 2018). Yn 2018-19 (y saith mis o fis Mawrth i fis Medi 2018), cafwyd cyfanswm o 14,927 o oedolion a 15,512 o blant yn mynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant.

**Tabl 3. Crynodeb o ddata monitro Cymraeg i Blant 2016-17 i 2018-19**

| | 2016-17 (D.S. Ebrill - Mawrth) | 2017-18 (D.S. Ebrill - Chwef) | Cyfanswm 2018-19 hyd yma (Mawrth i Fedi) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y sesiynau grŵp | 1,459 | 2,946 | 2,052 |
| Nifer y sesiynau grŵp – amser stori a chân | 906 | 1,533 | 970 |
| Nifer y sesiynau grŵp – tylino babanod | 535 | 804 | 547 |
| Nifer y sesiynau grŵp – ioga i fabanod | 78 | 595 | 533 |
| Nifer y sesiynau grŵp – sblasio i fabanod | 0 | 14 | 2 |
| Cyfanswm nifer y mynychwyr – oedolion | 7,595 | 20,926 | 14,927 |
| Cyfanswm nifer y mynychwyr – plant | 8,143 | 21,952 | 15,512 |
| Nifer y sgyrsiau un-i-un | 624 | 1,176 | 7,886 |

Ffynhonnell: Data monitro Cymraeg i Blant, Llywodraeth Cymru.

### Gweithgareddau'r rhaglen

3.18 Cynigir tri math o sesiynau grŵp trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant yn y rhan fwyaf o ardaloedd: tylino babanod, ioga i fabanod a grwpiau amser stori a chân. Mae'r gweithgareddau hyn yn elfen hanfodol ac yn wyneb cyhoeddus Cymraeg i Blant. Y grwpiau hyn yw'r brif ffordd o wneud a chynnal cyswllt gyda rhieni, a defnyddir y grwpiau gan swyddogion Cymraeg i Blant i rannu gwybodaeth am drosglwyddo, caffael, defnyddio a symud ymlaen i addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg. Ochr yn ochr â chyswllt trwy'r grwpiau, mae'r swyddogion yn rhannu negeseuon allweddol a gwybodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol, trwy daflenni print a thrwy gydweithredu â phartneriaid.

3.19 Mae'r sesiynau grŵp yn rhad ac am ddim, a chyflwynir bron pob sesiwn yn ystod dyddiau'r wythnos, yng nghanol y bore neu yng nghanol y prynhawn. Yn aml, cynhelir y sesiynau grŵp mewn llyfrgelloedd, ond defnyddir caffis, canolfannau cymunedol, neuaddau a safleoedd ysgol hefyd, gyda'r lleoliadau'n cael eu dewis oherwydd eu lleoliad cyfleus i rieni ac oherwydd eu bod ar gael am gost isel neu'n rhad ac am ddim. Roedd yr adborth a

gafwyd gan y rhieni y cyfwelwyd â hwy yn gadarnhaol gan mwyaf, o ran y lleoliad, amser a natur y sesiynau grŵp. Roedd y prif faterion a godwyd gan y rhieni’n ymwneud â phellter y lleoliad o gartref ymatebwr unigol neu oherwydd bod yr amser yn gwrthdaro â gwaith neu apwyntiadau cymdeithasol eraill. Nododd rhai rhieni a oedd wedi teithio yn y car i fynychu’r sesiynau grŵp yr hoffen nhw weld mwy yn cael eu darparu yn eu hardal nhw. Roedd y rhieni hyn eisiau i fwy o weithgareddau gael eu darparu’n agosach at eu cartrefi er mwyn osgoi gorfod teithio yn y car.

3.20 Nododd swyddogion Cymraeg i Blant fod gweithgareddau sesiwn grŵp y rhaglen (tylino, ioga ac amser stori a chân i fabanod) wedi’u dewis gan y contractwr i fod yn briodol i rieni plant ifanc iawn ac i gynnig llwybr dilyniant yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd plentyn. Caiff y ddewislen o weithgareddau eu teilwra gan swyddogion lleol er mwyn osgoi dyblygu’r ddarpariaeth sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan bobl eraill yn lleol. Adroddodd y rhieni y cyfwelwyd â hwy eu bod yn ystyried y gweithgareddau’n ddeniadol ac wedi’u targedu’n briodol ar eu cyfer.

3.21 Mae’r model darparu sesiynau grŵp a ddewiswyd gan y contractwr yn cynnwys darparu cyfres o sesiynau rheolaidd (bob wythnos yn nodweddiadol, gweler Ffigur 1) i rieni a phlant. Teimlai swyddogion y rhaglen fod y model hwn yn fwy tebygol na dulliau amgen (e.e. darparu mwy o sesiynau un-tro mewn nifer fwy o leoliadau) i arwain at gyswllt cynaledig ac ystyrlon gyda rhieni.  Yn ogystal, cynigiodd y model hwn fwy o gyfleoedd i'r rhaglen Cymraeg i Blant ddylanwadu ar rieni trwy sgyrsiau un-i-un a datblygu grwpiau o rieni i gefnogi ei gilydd. Er bod swyddogion Cymraeg i Blant yn cydnabod bod y model hwn yn cyfyngu ar nifer y lleoliadau y gallant ddarparu sesiynau grŵp ynddynt, teimlent ei bod hi’n fwy tebygol i gyflawni amcanion Cymraeg i Blant. Adroddodd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant, yn eu barn hwy, fod y galw i fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn fwy na’u gallu i ddarparu sesiynau grŵp. Rhoddodd swyddogion Cymraeg i Blant enghreifftiau o ofynion rhanddeiliaid, na fu modd iddynt eu diwallu, er mwyn darparu sesiynau grŵp mewn lleoliadau eraill. Crybwyllodd y rhan fwyaf o swyddogion ardaloedd daearyddol eraill y gallent ddarparu sesiynau grŵp ynddynt o bosibl, os

oedd ganddynt y capasiti i wneud hynny (gweler 3.41 hefyd). Esboniodd swyddogion Cymraeg i Blant hefyd eu bod nhw'n darparu sesiynau un-tro er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen (ymhlith rhieni a rhanddeiliaid) a chyrraedd cynulleidfa ehangach. Fodd bynnag, nid dyma'r prif ddull o gyrraedd rhieni.

**Ffigur 1: Prif Sesiynau Grŵp Cymraeg i Blant**

| Gweithgaredd | Ystod oedran a pharhad |
|---|---|
| **Tylino babanod**<br>Caiff rhieni eu cyfarch yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pob sesiwn yn dechrau gyda chân Gymraeg; a rhoddir cyfarwyddiadau syml sy'n enwi rhannau o'r corff yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer tylino babanod. | O 8 wythnos ymlaen<br>Yn nodweddiadol, cyfres o sesiynau grŵp bob 6 wythnos.<br>Fe'u cynhelir yn ystod y tymor ysgol. |
| **Ioga i fabanod**<br>Fel uchod, ond gyda chyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer ioga i fabanod | O 10 wythnos ymlaen<br>Yn nodweddiadol, cyfres o sesiynau grŵp bob chwe wythnos.<br>Fe'i cynhelir yn ystod y tymor ysgol. |
| **Amser stori a chân**<br>Mae'r sesiynau grŵp yn cynnwys gwrando ar stori yn y Gymraeg a dysgu caneuon syml. Mae rhai sesiynau grŵp yn cynnwys gweithgareddau crefft. | Plant 0-3 oed<br>Tuedda'r mynychwyr i fod yn rhieni plant o oddeutu 6-9 mis oed a hŷn.<br>Fe'i cynhelir yn ystod y tymor ysgol. |

3.22 Esboniodd swyddogion Cymraeg i Blant sut maen nhw'n defnyddio'r sesiynau grŵp cyntaf i feithrin perthynas gyda'r rhieni a sefydlu grŵp cyfeillgar wrth gyflwyno geiriau, ymadroddion, caneuon a straeon Cymraeg fel rhan o ddarparu'r gweithgareddau. Esboniodd swyddogion Cymraeg i Blant eu bod nhw wedyn yn defnyddio'u crebwyll wrth benderfynu pryd a sut i gyflwyno negeseuon ynghylch trosglwyddo, caffael, defnyddio a dilyniant iaith i addysg neu ofal plant cyfrwng Cymraeg. Disgrifiodd swyddogion y rhaglen eu dull fel un graddol lle maen nhw'n bwydo gwybodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg yn raddol i rieni. Awgryma'r canfyddiadau hyn bod gan swyddogion Cymraeg i Blant rywfaint o hyblygrwydd yn y ffordd y dewisant gyfleu negeseuon allweddol wrth ddarparu gweithgareddau grŵp y

rhaglen. Esboniodd swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn trafod dulliau o ymgysylltu â rhieni ac yn rhannu arfer da yn ystod cyfarfodydd rhanbarthol a chenedlaethol o swyddogion y rhaglen (gweler adran 3.44 hefyd).

*Adborth y rhieni ar weithgareddau'r rhaglen*

3.23 Gofynnwyd i'r rhieni sut clywson nhw am weithgareddau'r rhaglen, eu rhesymau am fynychu, eu barn ar y gweithgareddau a'u cynlluniau i'r dyfodol o ran iaith y cartref ac addysg. Mae enghreifftiau o adborth tri rhiant yn Ffigur 2 yn nes ymlaen yn yr adran hon.

3.24 Roedd y rhan fwyaf o'r rhieni y cyfwelwyd â hwy wedi clywed am weithgarwch y grŵp roeddent yn ei fynychu trwy argymhelliad ffrind neu berthynas neu roeddent wedi gweld dolen gyswllt i'r rhaglen Cymraeg i Blant ar dudalen Facebook lleol, yn benodol y tudalennau hynny a anelwyd at rieni'r ardal. Roedd y rhieni oedd yn bresennol yn ystyried fod hon yn ffordd effeithiol o gyrraedd rhieni oherwydd roedden nhw'n arfer dod i wybod am weithgareddau lleol trwy'r tudalennau hynny. Crybwyllodd rhai rhieni eu bod wedi gweld poster tra'r oeddent yn y llyfrgell, a chrybwyllodd nifer fach fod eu hymwelydd iechyd wedi rhoi gwybod iddynt am y sesiwn neu roeddent wedi clywed am y gweithgareddau trwy gyswllt cyn geni gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant neu drwy fynychu gweithgareddau eraill mewn llyfrgell neu ganolfan gymunedol.

3.25 Nododd y rhan fwyaf o'r rhieni y cyfwelwyd â hwy na allent gofio cael gwybodaeth gan eu hymwelydd iechyd ar weithgareddau Cymraeg i Blant (nid oedd rhai'n cofio cael unrhyw wybodaeth am weithgareddau cyfrwng Cymraeg na Saesneg gan eu hymwelydd iechyd). Nododd canfyddiadau'r ymwelwyr iechyd fod amrywiadau mewn lefelau ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant yn eu plith, gyda rhai ymwelwyr iechyd yn adrodd na allent gofio cael gwybodaeth am y rhaglen Cymraeg i Blant (gweler partneriaethau gyda sefydliadau eraill, adrannau 3.60 a 3.65).

3.26 Adroddodd y rhan fwyaf o rieni iddynt gael gwybodaeth am sesiynau lleol eraill (fel Cylchoedd Ti a Fi) a darpariaeth (fel Cylchoedd Meithrin) trwy fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Fodd bynnag, roedd rhai rhieni'n anymwybodol o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arall, sy'n awgrymu nad yw

pawb yn derbyn nac yn prosesu’r wybodaeth hon. Er enghraifft, amlygodd canfyddiadau gan rai rhieni mewn un grŵp Cymraeg i Blant yr heriau’n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth a chreu llwybr iaith rhwng Cymraeg i Blant a gweithgareddau blynyddoedd cynnar Cymraeg eraill. Esboniodd un rhiant y cyfwelwyd â hwy yn y sesiwn Cymraeg i Blant eu bod yn mynd i'r Cylch Ti a Fi yn gyson, yn agos iawn at leoliad y sesiwn Cymraeg i Blant. Fodd bynnag, esboniodd y rhiant iddo/i glywed am y grŵp Cymraeg i Blant trwy hap a damwain, trwy drafodaeth anffurfiol gyda rhiant arall, ac nad oeddent wedi cael unrhyw wybodaeth amdani trwy’r Cylch Ti a Fi. Crybwyllodd y rhiant hwn yr hoffen nhw fod wedi gwybod am y grŵp Cymraeg i Blant yn gynharach ym mywyd eu plentyn er mwyn iddynt allu cael mynediad at fwy o’r gweithgareddau. Yn y cyfamser, nid oedd rhieni eraill yn yr un grŵp Cymraeg i Blant yn ymwybodol o’r Cylch Ti a Fi gerllaw, gan grybwyll fod diffyg grwpiau addas ar gyfer eu plant bach oedd yn symud gormod i’r sesiwn Cymraeg i Blant. Felly, awgryma’r canfyddiadau er bod swyddogion Cymraeg i Blant wedi adrodd iddynt ddarparu taflenni i rieni’n rhoi manylion y ddarpariaeth Cylch Ti a Fi a’r Cylch Meithrin lleol, ymddengys nad yw pob rhiant yn derbyn nac yn prosesu’r wybodaeth hon. Awgryma hyn fod angen ystyried ymhellach sut gellir gwneud yr holl rieni sy’n mynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn fwy ymwybodol o sesiynau Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin lleol ac i’r gwrthwyneb.

3.27 Denwyd y rhan fwyaf o’r rhieni i fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant oherwydd natur y gweithgareddau a gynigiwyd (e.e. tylino babanod, ioga). Adroddodd rai rhieni mai’r gweithgareddau oedd y prif beth a’u denodd i fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, yn hytrach na chyfrwng iaith y ddarpariaeth (gweler Ffigur 2 hefyd). Yn wir, nid oedd rhai o’r rhieni y cyfwelwyd â hwy yn ymwybodol o ffocws cyfrwng Cymraeg y sesiynau grŵp Cymraeg i Blant cyn mynychu. Denwyd y rhieni hyn i’r grŵp dim ond oherwydd natur y gweithgaredd (e.e. tylino babanod), yn hytrach na chyfrwng y ddarpariaeth. Esboniodd rhai rhieni nad oedd bod yn ymwybodol o ffocws ieithyddol Cymraeg i Blant o fantais oherwydd bydden nhw wedi bod yn llai tebygol o fynychu pe byddent wedi bod yn ymwybodol o natur ieithyddol y sesiwn. Esboniodd un rhiant: ‘Rwy’n cofio gweld ambell i grŵp

gyda 'Cymraeg' mewn cromfachau ar eu hôl [mewn taflen i ymwelwyr iechyd] ond fyddwn i ddim yn mynd atynt'. Roedd y rhiant hwn yn rhywun nad oedd yn medru'r Gymraeg ac oedd wedi mynychu sawl sesiwn grŵp tylino babanod Cymraeg i Blant, roedd yn ei fwynhau ac yn dechrau ystyried cyfrwng addysg eu plentyn i'r dyfodol, rhywbeth nad oedd wedi bod yn ystyriaeth cyn hynny gan mai darpariaeth cyfrwng Saesneg oedd eu llwybr tybiedig.

3.28 Gofynnwyd i rieni oedd yn cymryd rhan mewn cyfweliadau am eu rhesymau am fynychu'r grwpiau Cymraeg i Blant. Ymhlith y prif ffactorau a grybwyllwyd gan rieni oedd cael y cyfle i gymdeithasu a chwrdd â rhieni eraill a'r cyfle i gymryd rhan yn y gweithgaredd (e.e. ioga i fabanod). Cafodd y ffaith bod y grŵp am ddim ei grybwyll yn ddigymell gan lond dwrn o rieni. Adroddodd y rhieni oedd yn medru'r Gymraeg iddynt chwilio'n weithgar am grwpiau Cymraeg eu hiaith. Datganodd sawl un o'r rhieni di-Gymraeg fod paratoi ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn brif reswm:

> *'Rydw i am iddi gael rhywfaint o Gymraeg cyn iddi ddechrau mewn ysgol Gymraeg...Rydw i am ei hamlygu i gymaint o Gymraeg â phosibl ac mae'r grŵp hwn yn dda'. Cyfweliad gyda rhiant*

3.29 Roedd mwyafrif y rhieni y cyfwelwyd â hwy mewn sesiynau grŵp eisoes wedi mynychu sesiwn flaenorol, a gofynnwyd iddynt ba agweddau ar y sesiwn grŵp a'u hanogodd i ddychwelyd. Yn bennaf ymhlith yr ymatebion gan y rhieni oedd eu bod wedi mwynhau'r sesiynau grŵp - roeddent yn mwynhau'r gweithgareddau a'r cwmni. Crybwyllodd sawl rhiant iddynt deimlo fod sesiynau grŵp Cymraeg i Blant wedi'u saernïo'n well na'r grwpiau eraill a fynychwyd ganddynt. Tueddodd y rhieni hyn i nodi bod rhai grwpiau eraill a fynychwyd ganddynt o strwythur rhy haearnaidd (e.e. roedd rhaid i rieni droi lan ar adeg benodol neu gadw lle ymlaen llaw), wrth i grwpiau eraill fod heb ddigon o strwythur (e.e. chwarae rhydd mewn rhai cylchoedd chwarae, gan gynnwys Cylch Ti a Fi). Crybwyllodd rai rhieni eu bod yn hoffi'r cyflwyniad i arwyddo i fabanod.

3.30 Cyfeiriodd nifer fawr o rieni, ar draws nifer fawr o'r grwpiau yr ymwelwyd â nhw, at natur gyfeillgar ac agos atoch swyddog Cymraeg i Blant. Cyfeiriodd

rai rhieni at yr ‘anogaeth ysgafn’ i ddefnyddio’r Gymraeg yn y sesiynau grŵp, gan nodi ‘na chewch eich beirniadu ar lefel eich Cymraeg’ ac ‘nid oes pwysau arnoch’. Aeth rhai ymhellach ac esbonion nhw eu bod yn falch nad oedd y swyddog Cymraeg i Blant yn ‘gwthio’r’ Gymraeg arnynt. Adleisiwyd hyn yn y sylwadau a wnaed gan rai rhanddeiliaid a deimlai fod y swyddogion Cymraeg i Blant wedi taro cydbwysedd priodol wrth gyflwyno’r Gymraeg i rieni di-Gymraeg. Disgrifiodd y rhanddeiliaid hyn fod gan swyddogion Cymraeg i Blant ffordd gadarnhaol ac anogol, heb roi pwysau ar rieni i wneud penderfyniadau penodol.

3.31 Roedd gan y rhan fwyaf o’r rhieni y cyfwelwyd â hwy farnau cadarnhaol ar y deunyddiau a welsant yn ystod sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, gan gynnwys llyfrau caneuon a thaflenni a ddarparwyd am y Gymraeg. Fodd bynnag, dywedodd rai rhieni yr hoffent gael mwy o ddeunyddiau, gan gynnwys amrywiadau ar y rhai yr oeddent eisoes wedi’u cael (e.e. amrywiadau ar y llyfrau caneuon yr oedden nhw eisoes wedi’u cael). Darparodd swyddogion Cymraeg i Blant sylwadau tebyg, gyda’r rhan fwyaf yn nodi yr hoffen nhw allu darparu deunyddiau newydd ac wedi’u diweddaru i rieni’n amlach. Roedd ychydig o swyddogion Cymraeg i Blant yn teimlo fod hyn yn bwysig i’w galluogi i gynnal diddordeb a brwdfrydedd ymhlith rhieni a’u hannog i barhau i gymryd rhan yng ngweithgareddau grŵp y rhaglen. Awgrymodd rai rhieni a swyddogion Cymraeg i Blant y gellid datblygu mwy o adnoddau digidol trwy’r rhaglen. Gofynnodd rai rhieni am fwy o gyfieithiadau i’r Saesneg ar lyfrau caneuon a thaflenni ‘er mwyn ichi allu gwybod beth mae geiriau’r gân yn eu golygu heb orfod troi at ‘Google Translate’.

3.32 Gofynnwyd i’r rhieni a oedd ganddynt unrhyw argymhellion am newid y ddarpariaeth Cymraeg i Blant a dywedodd y rhan fwyaf o’r rhieni eu bod yn hapus â’r ddarpariaeth a’r gefnogaeth a gynigir. Nododd rai rhieni yr hoffen nhw weld rhagor o sesiynau grŵp yn cael eu darparu yn eu hardal leol a gofynnodd eraill am sesiynau grŵp ar y penwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Crybwyllodd ychydig o rieni wersi nofio, chwarae awyr agored a gweithgareddau dawnsio. Crybwyllodd ychydig o rieni yr hoffen nhw gwrdd mewn caffi neu leoliad lle gallent aros a sgwrsio dros goffi.

3.33 Er nad yw'r rhaglen Cymraeg i Blant yn gosod targedau penodol ar gyfer ymgysylltu â rhieni o wahanol gefndiroedd, nododd rai swyddogion Cymraeg i Blant iddynt wynebu heriau wrth gyrraedd rhai grwpiau o rieni (e.e. tadau, rhieni ifanc, y rhai sy'n amharod i fynychu sesiynau grŵp). Adroddodd rai swyddogion Cymraeg i Blant iddynt geisio cyflwyno gweithgareddau newydd yn ystod y rhaglen mewn ymdrech i dargedu rhieni oedd heb fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn flaenorol. Roedd enghreifftiau o'r mathau hyn o weithgareddau a grybwyllwyd gan swyddogion Cymraeg i Blant yn cynnwys teithiau cerdded gyda bygis wedi'u hanelu at y rhai oedd yn amharod i fynychu sesiynau grŵp a sesiynau grŵp ar y penwythnosau wedi'u hanelu at dadau.

*Canfyddiadau'r rhieni o fanteision gweithgareddau Cymraeg i Blant: Hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg*

3.34 Yn ystod y cyfweliadau, cyfeiriodd rai rhieni at yr hyn roeddent yn ei amgyffred fel manteision mynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, a chrynhoir y rhain isod. Mae'n bwysig nodi nad yw'r gwerthusiad proses hwn wedi'i ddylunio i gipio tystiolaeth o effaith Cymraeg i Blant. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol o bosibl ystyried ydy'r mathau o fanteision a ganfuwyd gan rieni'n adlewyrchu canlyniadau bwriadedig y rhaglen. Mae'r mathau hyn o ganfyddiadau'n debygol o gael eu hystyried yn fanylach fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol. Wrth ddarllen yr adrannau sy'n dilyn felly, mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau'r math hwn o ddata (e.e. dibynadwyedd y data a hunanadroddir yn hytrach na data mesuradwy gwrthrychol) ac iddo gael ei gasglu yn ystod gwerthusiad proses yn hytrach na gwerthusiad o effaith.

3.35 Awgryma'r dystiolaeth fod Cymraeg i Blant yn cael effaith gadarnhaol ar hyder rhai rhieni wrth ddefnyddio'r Gymraeg (gweler Ffigur 2), a chefnogwyd y canfyddiad hwn gan arsylwadau staff Cymraeg i Blant. Mae'r effaith fwyaf ar agweddau a dealltwriaeth. Roedd llawer o'r rhieni y cyfwelwyd â hwy yn y sesiynau grŵp wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg eu hunain ond heb ddefnyddio'r iaith rhyw lawer, os o gwbl ers ysgol. Cafwyd tystiolaeth a hunan-adroddwyd o rai rhieni'n defnyddio mwy o Gymraeg y tu allan i'r sesiwn wrth i rai o'r rheiny heb fawr o Gymraeg, os o

gwbl, yn cael eu hannog gan swyddogion Cymraeg i Blant i ddechrau cyrsiau Cymraeg i Oedolion. Adroddodd rai rhieni eu bod yn llai nerfus wrth ddefnyddio'r hynny o Gymraeg oedd ganddynt ac adroddon nhw eu bod bellach yn defnyddio mwy o Gymraeg:

> *'Rwy'n gallu sgwrsio mewn Wenglish ond rydw i wedi magu tipyn o hyder yn yr amgylchedd hwn. Rwy'n deall mwy o Gymraeg ac yn fwy hyderus wrth siarad o gwmpas pobl eraill nawr. Rydw i hefyd wedi magu hyder o gwmpas y plant felly rwy'n llawer mwy hyderus pan fyddaf allan...roedd a wnelo'r Gymraeg â gwaith ysgol ond... mae'n dechrau dod'.* Cyfweliad gyda rhiant

> *'[yn y grŵp, rwy'n siarad] Saesneg yn bennaf gan nad yw'r hyder yno eto. Rydw i wedi cofrestru i wneud Cymraeg i'r teulu ym mis Medi a allai helpu o bosibl'* Cyfweliad gyda rhiant

> *'Dydw i ddim yn hyderus ond mae bod yn y sesiynau hyn wedi helpu llawer. Rwy'n canu'r caneuon ac yn siarad rhywfaint o Gymraeg adref nawr'* Cyfweliad gyda rhiant

> *'Mae hi wedi dysgu llawer, mae hi'n gwybod 1-10 a'r holl liwiau yn Gymraeg nawr, fel ag yr wyf innau – rwy'n credu bod hynny oherwydd y grŵp hwn.* Cyfweliad gyda rhiant

3.36 Fodd bynnag, gallai'r cynnydd mewn diddordeb yn y Gymraeg a gwella neu gaffael mwy o Gymraeg fod yn gysylltiedig â dod yn rhieni yn hytrach na dylanwad Cymraeg i Blant,

> *'Mae cael plant yn gwneud ichi ailfeddwl am y Gymraeg. Mae'n bwysig.'* Cyfweliad gyda rhiant

> *'Ers cael plant, rydw i wedi bod yn ailystyried yr iaith. Mae fy merch hynaf yn dod adref o'r ysgol ac yn dweud "Cymraeg rŵan mam!"'.* Cyfweliad gyda rhiant

Mae'r diddordeb mewn gwella neu gaffael y Gymraeg ymhlith y rhesymau am gymryd rhan yn y rhaglen Cymraeg i Blant a grynhoir yn yr enghreifftiau yn Ffigur 2.

**Ffigur 2: Enghreifftiau o Brofiadau'r Rhieni**

**Enghraifft A (Rhiant): Mam i ddau o blant – plentyn oed ysgol (nid yw'n bresennol) a phlentyn 18 mis oed. Di-Gymraeg. Cyfwelwyd yn ystod sesiwn amser stori a chân yn y llyfrgell**

Prif reswm Mam am fynychu yw er mwyn cefnogi'r llyfrgell, ac mae ei phlentyn wrth ei fodd â'r llyfrgell. Mae hi'n hoffi'r ffaith fod Cymraeg yno ac yn disgrifio'i hun fel rhywun 'brwdfrydig ond anobeithiol gydag ieithoedd'. Aeth hi i gylch Ti a Fi gyda'i phlentyn hynaf rai blynyddoedd yn ôl, a ddechreuodd mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn dilyn hynny. Mynychodd y plentyn am flwyddyn ond 'cafodd drafferth ac roedd eisiau symud, a chredai'r athrawon yno fod y Gymraeg yn ormod ar gyfer [enw] hefyd'. Mae'r plentyn hynaf bellach mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac yn cael cefnogaeth ar gyfer datblygiad iaith. Bydd y plentyn iau yn dilyn ei frawd/chwaer i'r ysgol cyfrwng Saesneg honno, ac mae Mam yn credu y bydd y 'sesiynau hyn yn ddechreuad defnyddiol i'r Gymraeg fyddan nhw'n ei chael yn yr ysgol Saesneg'.

Mae Mam yn hoffi'r sesiwn yn fawr; esbonia iddi 'fod i sawl grŵp rhiant a phlentyn dros y blynyddoedd ac mae hwn yn un o'r goreuon'. Yn ogystal, mae'r sesiwn wedi helpu mam i ddysgu rhywfaint o Gymraeg ac mae hi'n hoffi bod y swyddog yn 'cymysgu'r Gymraeg gydag iaith arwyddion Prydain, felly mae [enw'r plentyn] yn dysgu dwy iaith newydd – Cymraeg ac Iaith Arwyddion Prydain'. Ychwanega Mam fod y swyddog 'yn wych – nid yw'n nawddoglyd ac mae hi'n torri popeth i fyny, hyd yn oed caneuon fel Jac y Do lle'r ydych chi'n gwybod y gân ond erioed wedi gwybod beth rydych chi'n ei ganu'.

**Enghraifft B (Rhiant): Mam i un plentyn, 6 mis oed. Teulu di-Gymraeg. Cyfwelwyd yn ystod y sesiwn amser stori a chân**

Pan ymwelodd y gwerthuswyr, hwn oedd tro cyntaf Mam yn y sesiwn amser stori a chân, ond roedd hi wedi mynychu sesiwn tylino i fabanod y swyddog mewn tref gerllaw yn flaenorol.

Pan ofynnwyd iddi beth a'i denodd i fynychu, esboniodd y fam fod 'y Gymraeg yn elfen a werthodd y sesiwn oherwydd hoffwn anfon fy mhlentyn i ysgol cyfrwng Cymraeg, ond dydw i ddim yn siŵr eto'. Gwnaeth hi ei hun fynychu ysgol cyfrwng Saesneg yn yr ardal a rhoddodd orau i ddysgu'r Gymraeg yn 14 oed, rhywbeth y mae hi wedi edifarhau yn ei gylch byth ers hynny. Mae hi wedi caffael llawer o Gymraeg achlysurol trwy ei gwaith. Mae hi'n hoffi'r caneuon cyfarwydd sy'n cael eu canu yn y grŵp, yn enwedig y rhai y mae hi eisoes yn ei gwybod yn Saesneg 'er mwyn iddo fod yn haws ac yn fwy cyfarwydd ceisio canolbwyntio ar y geiriau Cymraeg'. Mae hi wedi bod ar y dudalen Facebook ac yn defnyddio'r caneuon Cymraeg i Blant sydd ar gael ar y fideos YouTube adref.

**Enghraifft C (Gwarchodwr plant). Yn mynychu gydag un plentyn yn ei gofal. Cyfwelwyd yn ystod sesiwn amser stori a chân**

Mae gan y gwarchodwr plant rywfaint o Gymraeg ond 'nid yw'n rhugl' ond mae ganddi rai cymwysterau Cymraeg. Nid yw'n defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ond mae'n defnyddio rhai ymadroddion a geiriau allweddol (gan gynnwys caneuon ac ati) gyda'r plant yn ei gofal. Mae hi wedi bod yn mynychu sesiynau Cymraeg i Blant ers y dechrau bron – arferai mynd i Ti a Fi ta beth a digwyddodd weld bod Cymraeg i Blant yn cynnal sesiwn yn y llyfrgell un diwrnod.

Esboniodd y gwarchodwr plant mai dim ond ychydig o Gymraeg mae'n ei siarad ac ei bod hi'n 'colli hyder i'w defnyddio yn y cartref gyda'r plant os nad yw hi'n ymarfer digon'. Daw mwyafrif y plant yn ei gofal o gefndiroedd uniaith Saesneg ond yn aml iawn, mae'r rhieni'n ceisio dysgu ychydig o Gymraeg. Mae hi'n dod i'r sesiwn i helpu magu ei hyder i ddefnyddio'r Gymraeg a'r 'hyder i gadw defnyddio fy Nghymraeg ac wrth reswm, rwy'n anghofio rhai pethau os nad ydw i'n dod.

Teimla bod dysgu caneuon a phenillion yn ddefnyddiol oherwydd mae'n gallu defnyddio'r rhain adref gyda'r plant. Mae'r sesiwn yn ei helpu i ddefnyddio ymadroddion a chyfarwyddiadau pob dydd gyda'r plant, gan gynnwys dysgu moesau iddynt. Teimla bod y mathau hyn o ymadroddion bellach yn haws eu defnyddio oherwydd ei bod hi'n mynychu'r sesiwn.

Nid yw'n defnyddio llawer o Gymraeg yn y sesiwn ar hyn o bryd, gan esbonio nad yw'r Gymraeg yn dod yn rhwydd iddi, mae'n rhaid iddi feddwl amdani, felly bydd hi'n defnyddio'r Gymraeg yn y sesiynau grŵp pan deimla'n ddigon parod i wneud hynny. Hoffai'r gwarchodwr plant petai cwrs Cymraeg anffurfiol i oedolion ar gael, 'lle caiff Cymraeg pob dydd ei dysgu mewn lleoliad anffurfiol fel un heddiw'.

*Canfyddiadau'r rhieni o fanteision gweithgareddau Cymraeg i Blant: trafodaeth am addysg cyfrwng Cymraeg*

3.37 I rai rhieni, roedd cymryd rhan yn y rhaglen Cymraeg i Blant yn blatfform i fynychu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg eraill ac er mwyn gwneud ymchwil bellach i addysg cyfrwng Cymraeg. Adroddodd rai rhieni eu bod nhw bellach yn gwybod mwy am y dewisiadau blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg. Gofynnodd y gwerthuswyr i'r rhieni yn y grwpiau am eu cynlluniau addysg i'r dyfodol a chafwyd cymysgedd o ymatebion. Roedd rhai eisoes wedi penderfynu ar ysgol cyfrwng Cymraeg, naill ai oherwydd eu bod yn chwilio am addysg cyfrwng Cymraeg, neu oherwydd mai dyna oedd yr unig ysgol neu'r ysgol fwyaf cyfleus iddynt yn lleol. Ar y cam hwn ym mywyd eu plentyn (babanod ychydig fisoedd oed), roedd rhai rhieni'n parhau i fod yn ansicr ynghylch y system addysg gyfan a beth oedd ar gael yn lleol, gan gynnwys mewn perthynas â'r cyfrwng iaith:

> *'Mae'n anodd cael gwybodaeth am yr hyn y mae'r ysgolion yn eu cynnig o ran faint o Gymraeg a sut i'w cymharu. Mae angen help i ddeall hyn a beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd.* Cyfweliad gyda rhiant

3.38 Roedd rhai heb feddwl rhyw lawer eto am addysg y dyfodol, gan esbonio 'y byddant yn gwneud dewis yn nes ymlaen yn dibynnu ar sut mae'r plentyn yn dod ymlaen â'r Gymraeg'. Roedd gan nifer fach o'r rhieni y cyfwelwyd â hwy blant hŷn sydd eisoes mewn addysg cyfrwng Saesneg ac yn bwriadu anfon y brawd neu'r chwaer iau i'r un ysgol. Esboniodd un rhiant eu bod nhw hefyd yn gweld gwerth mewn mynychu sesiwn Cymraeg i Blant oherwydd 'Rydw i am iddynt gael rhywfaint o Gymraeg hefyd', tra esboniodd un arall:

> *'Mae gennyf blentyn hŷn mewn ysgol Saesneg yn barod, felly byddan nhw i gyd yn mynd i'r un ysgol – mae'n rhy anodd fel arall. Os nad dyna oedd yr achos, byddwn yn dewis ysgol Gymraeg nawr*. Cyfweliad gyda rhiant

3.39 Mynegodd nifer fach o rieni (rhyw dri ar draws y grwpiau) farn negyddol o addysg cyfrwng Cymraeg, gan sôn am brofiadau personol ffrindiau oedd wedi mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu oherwydd eu bod yn 'ofni'r anghyfarwydd' neu'r gofid o fethu helpu gyda gwaith cartref. Roedd hi'n

amlwg hefyd mewn rhai teuluoedd, fod pwnc addysg i'r dyfodol yn gallu bod yn sensitif:

> *'Mae brwydr yn mynd i fod – mae ei dad am iddo fynd i ysgol Saesneg, ond mae ei fam eisiau iddo fynd i ysgol Gymraeg.'* Cyfweliad gyda gofalwr'

**Ardaloedd daearyddol**

3.40 Mae'r ehangu yn 2017 wedi arwain at ymestyn y rhaglen yn ehangach, gyda swyddogion yn gweithio ar draws Cymru. Fodd bynnag, cyfyngir ar ymestyniad daearyddol gweithgareddau Cymraeg i Blant ym mhob rhanbarth yn sgil capasiti pob swyddog rhaglen i gynllunio a darparu sesiynau grŵp. Adroddodd swyddogion a rhanddeiliaid y rhaglen y byddai galw am weithgareddau Cymraeg i Blant mewn ardaloedd lle nad oedd y rhaglen yn cynnig darpariaeth ar hyn o bryd oherwydd capasiti cyfyngedig. Cyfeiriodd swyddogion Cymraeg i Blant at ofynion a gawsant gan randdeiliaid i ddarparu sesiynau grŵp mewn lleoliadau ychwanegol, ac adroddodd rhai rhanddeiliaid, yn eu barn nhw, y byddai galw ymhlith rhieni am ragor o sesiynau grŵp. Mynegodd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant ddymuniad am gynnydd yng nghapasiti'r rhaglen:

> *'Yn ddelfrydol, byddai dau swyddog ym mhob rhanbarth i'n galluogi ni i ymestyn dros fwy o ardaloedd. Er enghraifft, nid yw [enw tref] yn cael unrhyw beth ar hyn o bryd ac mae [enw rhanbarth] yn rhy fawr i'w cwmpasu mewn tridiau – mae'n bell i deithio ac yn cymryd llawer o amser. Nid yw hyn yn caniatáu llawer o amser meddwl i ymchwilio a cheisio ehangu ar y marchnata wrth ddarparu 6 sesiwn mewn tridiau.'* Cyfweliad gyda swyddog rhanbarthol Cymraeg i Blant

3.41 Mae capasiti cyfyngedig swyddogion rhanbarthol yn golygu bod rhaid i swyddogion Cymraeg i Blant flaenoriaethu'r ardaloedd y byddant yn darparu gweithgareddau ynddynt. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant rhanbarthol fod ganddynt hyblygrwydd sylweddol wrth ddewis lleoliadau i ddarparu gweithgareddau. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod ardaloedd penodol wedi'u targedu ar sail nifer o ystyriaethau. Roedd y rhain yn cynnwys ystyriaeth o ba ddarpariaeth debyg (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg) oedd yn cael ei chynnig yn lleol, er mwyn osgoi dyblygu, yn ogystal ag addasrwydd y lleoliadau a'r galw tebygol gan rieni. Nododd

swyddogion Cymraeg i Blant hefyd fod ymdrechion ar lefel strategol i gynllunio darpariaeth Cymraeg i Blant i fodloni anghenion mewn gwahanol gyd-destunau lleol. Mewn rhai achosion, anelodd hyn at gysoni'r gwaith o sefydlu grwpiau Cymraeg i Blant gyda darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd arall (e.e. Cylchoedd Meithrin newydd) er mwyn creu llwybrau dilyniant newydd i addysg cyfrwng Cymraeg. Mewn achosion eraill, nododd swyddogion Cymraeg i Blant fod ardaloedd heb ddarpariaeth Cylch Ti a Fi wedi'u dewis, gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant yn ceisio pontio'r bwlch yn y ddarpariaeth Gymraeg cyn oed ysgol a'r daith iaith leol:

> *'Roeddem yn mynd i'r Cylch Ti a Fi yn [lle] ond cyfaddefodd yr arweinydd ei hun nad oedd hi'n medru'r Gymraeg ac ni allai gael neb arall i arwain. Stopion ni fynd yno – nid oeddwn am i'm merch ddysgu'n anghywir.*
> Cyfweliad gyda rhiant

3.42 Nododd cyfweliadau gyda swyddogion Cymraeg i Blant a swyddogion Mudiad Meithrin eraill eu bod yn gweithio ar y cyd i gynllunio lleoliadau ar gyfer gweithgareddau Cymraeg i Blant. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant a swyddogion eraill y Mudiad Meithrin eu bod wedi rhoi strwythurau ar waith a oedd yn galluogi uwch swyddogion Cymraeg i Blant i gyfrannu at benderfyniadau ynghylch cysoni'r ddarpariaeth Cymraeg i Blant gyda Chylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin newydd ac mewn bodolaeth lle bo'n bosibl. Yn ogystal, adroddodd Llywodraeth Cymru a staff y contractwr eu bod yn ystyried y math hwn o gynllunio strategol fel rhan o'u cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Cynigiwyd rhai enghreifftiau o'r math hwn o gysoni gan swyddogion Cymraeg i Blant ond roeddent yn cydnabod ei bod hi'n rhy fuan gallu mesur effaith y math hwn o gynllunio gweithgareddau. Cydnabu swyddogion Cymraeg i Blant hefyd nad oedd llwybrau dilyniant i Gylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin ar gael ym mhob ardal leol lle'r oedd gweithgareddau Cymraeg i Blant yn cael eu darparu.

### Strwythurau a phrosesau

3.43 Mae'r contractwr a Llywodraeth Cymru yn cael cyfarfodydd adolygu strategol bob tymor i drafod cynnydd wrth ddarparu contract Cymraeg i Blant ochr yn ochr â gweithgareddau eraill a ariennir gan grantiau a gyflwynir gan y Mudiad Meithrin ar ran Llywodraeth Cymru. Ceir cyfarfodydd is-grŵp rheoli Cymraeg i Blant amlach (a gynhelir bob tymor ac sy'n canolbwyntio ar faterion mwy gweithredol) rhwng Llywodraeth Cymru a rheolwyr rhaglen Cymraeg i Blant. Nododd swyddogion Llywodraeth Cymru a rheolwyr Cymraeg i Blant fod trafodaethau anffurfiol amlach yn cael eu cynnal rhwng y cyfarfodydd hyn. Adroddodd swyddogion Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Cymraeg i Blant fod perthynas weithio dda rhyngddynt gyda'r cyfarfodydd yn cynnig cyfle i drafod cynlluniau, trafod unrhyw heriau ac yn gyfrwng i gysylltu gydag adrannau Llywodraeth Cymru os oedd angen.

3.44 Rheolir y swyddogion rhanbarthol gan dri uwch swyddog Cymraeg i Blant. Adroddodd y swyddogion rhanbarthol fod amledd eu cyfarfodydd â'u huwch swyddog yn amrywio. Adroddodd rai swyddogion rhanbarthol iddynt gyfarfod â'u rheolwr llinell bob rhyw bythefnos i gynllunio darpariaeth a thrafod unrhyw faterion (gyda thrafodaethau ffôn yn cael eu cynnal bob wythnos o leiaf). Adroddodd eraill gyfarfodydd llai aml (ymddengys i hyn gael ei ddylanwadu'n bennaf oherwydd eu hagosrwydd yn ddaearyddol). Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod pob uwch swyddog yn galw cyfarfod tymhorol o bob swyddog rhanbarthol yn eu hardal, a bod cyfarfodydd cenedlaethol o bob swyddog rhaglen yn cael eu cynnal yn dymhorol i ganolbwyntio ar rannu arfer da a datblygiad proffesiynol parhaus. Ar y cyfan, adroddodd rheolwyr y rhaglen a'r staff rhanbarthol fod y trefniadau rheoli llinell wedi gweithio'n dda. Fodd bynnag, adroddodd rhai swyddogion rhanbarthol y byddent yn gwerthfawrogi cyswllt mwy cyson gyda'u huwch swyddog, y datganon nhw nad oedd yn bosibl ar hyn o bryd oherwydd y pellter daearyddol rhyngddynt. Ychwanegir at y strwythurau rheoli ffurfiol hyn trwy rannu arfer da yn anffurfiol yn gyson rhwng ardaloedd cyfagos.

3.45 Amlygodd swyddogion y rhaglen fod y gwaith o ddatblygu a diweddaru adnoddau Cymraeg i Blant i deuluoedd yn faes o'r rhaglen y gellid ei wella. Nododd rai swyddogion y rhaglen fod oedi rhwng adnabod yr angen am ddeunyddiau penodol a chomisiynu, cynhyrchu a dosbarthu'r deunyddiau hynny. Dywedodd rhoi o swyddogion y rhaglen yr hoffen nhw allu ymateb yn gynt i ofynion am adnoddau newydd, ac y byddent yn gwerthfawrogi cael mwy o rôl wrth ddatblygu deunyddiau ac adnoddau marchnata Cymraeg i Blant. Ystyriodd rhai o swyddogion Cymraeg i Blant y byddai o fantais cael mynediad i ddeunyddiau digidol y gallen nhw addasu eu hunain mewn ymateb i anghenion lleol.

**Monitro:**

3.46 Mae'r contractwr yn coladu ac yn darparu adroddiadau data monitro chwarterol i Lywodraeth Cymru. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys crynodebau data misol ar nifer y: sesiynau grŵp a gyflwynwyd; rhieni a phlant sy'n mynychu sesiynau grŵp, teuluoedd unigryw sy'n cymryd rhan yn y rhaglen (data amcanol); ymweliadau gan swyddogion y rhaglen â Chylchoedd Meithrin, Ti a Fi a meithrinfeydd preifat; cyflwyniadau i rieni mewn sesiynau rhianta; gweithgareddau ymgysylltu gyda phartneriaid; a gweithgarwch marchnata a chyfathrebu.

3.47 Mae swyddogion Cymraeg i Blant yn casglu adborth rheolaidd (bob chwe wythnos, ar ddiwedd cyfres o sesiynau Cymraeg i Blant) gan rieni sy'n mynychu sesiynau grŵp ac adroddwyd bod hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio gwaith darparu'r rhaglen. Datblygwyd ffurflen adborth gan y contractwr sy'n gofyn i rieni ydyn nhw'n ystyried gwneud y canlynol yn dilyn eu cyfranogiad mewn sesiynau Cymraeg i Blant:

- mynychu darpariaeth Cylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin lleol;
- dewis addysg cyfrwng Cymraeg;
- defnyddio mwy o Gymraeg yn y cartref.

Dangosodd y data adborth rhieni diweddaraf sydd ar gael (am y 12 mis hyd at fis Mawrth 2018) fod yr holl rieni a lenwodd ffurflen adborth (cyfanswm o

695) wedi nodi eu bod yn ystyried o leiaf un o'r tri opsiwn uchod. Oherwydd yr amrediad o amgylchiadau cyd-destunol a allai ddylanwadu ar fwriadau rhieni mewn perthynas â dewis darpariaeth neu arferion iaith yn y cartref, ac amseriad casglu adborth, mae yna gyfyngiadau wrth ddadansoddi'r cwestiwn ar y ffurflen adborth gyfredol. Mae'r posibilrwydd o adolygu'r offeryn a ddefnyddir i gasglu adborth gan rieni, gan gynnwys eu canfyddiadau o effaith y rhaglen, wedi'i gynnwys yn anghenion data ac argymhellion yn Adran 4 yn y dyfodol (gweler tabl 4.7). Cesglir adborth ansoddol gan rieni hefyd trwy'r sylwadau a wnaed gan rieni ar dudalennau Facebook rhanbarthol Cymraeg i Blant.

3.48 Yn ogystal, cesglir data proffil gan rieni sy'n mynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Yn ddiweddar, dechreuodd Llywodraeth Cymru gasglu data proffil ar-lein gan rieni sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg i Blant ac sy'n dewis cofrestru eu manylion ar-lein (gweler Ffigur 3). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir ar broffil ieithyddol y teulu. Mae staff Cymraeg i Blant yn annog rhieni i gofrestru ar-lein ond yn dibynnu ar rieni'n dewis gwneud hyn yn annibynnol ar ôl sesiynau grŵp. Dechreuodd y dull hwn ar gyfer casglu data proffil ym mis Hydref 2017 ac yn ystod y flwyddyn gyntaf, derbyniwyd 2,900 o ymatebion. Nid oedd canfyddiadau cryno ar gael ar gyfer y gwerthusiad proses hwn, ond bydd yn ffynhonnell wybodaeth am werthusiad i'r dyfodol.

**Ffigur 3: Holiadur Proffil Rhieni**

| |
|---|
| **Cwestiwn 1: Pa fath o grŵp yw hwn?**<br>Dewis atebion: Sesiwn cyn geni; Stori a chân; Sblasio a chân; Ioga i fabanod; Tylino babanod; Clwb Doti a Fi. |
| **Cwestiwn 2: Beth yw oedran y plentyn sydd gyda chi yma heddiw?**<br>Dewis atebion: Sesiwn cyn geni yw hon; 0-6 mis; 7-12 mis; 13-18 mis; 19-24 mis; 2 flwydd oed neu'n hŷn. |
| **Cwestiwn 3: Beth yw'ch perthynas chi â'r plentyn?**<br>Dewis atebion: Tad/gwarcheidwad; Mam/gwarcheidwad; Mam-gu/tad-cu; Perthynas arall yn y teulu; Gwarchodwr plant; Arall. |
| **Cwestiwn 4: Beth yw prif iaith cartref y plentyn?**<br>Dewis atebion: Cymraeg; Saesneg; Arall. |

### Partneriaethau

3.49 Mae gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn agwedd allweddol ar y rhaglen Cymraeg i Blant. Cyflwynir isod ganfyddiadau'r gwerthusiad ar sut mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn gweithio mewn partneriaeth â'r Mudiad Meithrin, yn ogystal â sut mae'r rhaglen yn gweithio gyda sefydliadau eraill. Wrth ystyried y canfyddiadau, mae'n bwysig cydnabod y gall gweithio mewn partneriaeth fod ar sawl ffurf, fel rhannu gwybodaeth, gwneud a derbyn atgyfeiriadau, cydgynllunio a chyd-ddarparu gweithgareddau, darparu cymorth mewn da a hyfforddiant.

### Mudiad Meithrin fel partner

3.50 Mae'r Mudiad Meithrin yn ymgymryd â dwy brif swyddogaeth yng nghyd-destun Cymraeg i Blant. I ddechrau, y Mudiad Meithrin yw'r contractwr sy'n gyfrifol am weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu Cymraeg i Blant. Yn ail, corff gwirfoddol yw'r Mudiad Meithrin sy'n cynrychioli mwyafrif mawr o ddarpariaeth gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys helpu sefydlu, cefnogi a goruchwylio darpariaeth megis Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin. Mae'r ail rôl hon yn golygu bod tîm ehangach y Mudiad Meithrin yn bartner pwysig i'r rhaglen Cymraeg i Blant o ran cyflawni nod y rhaglen o gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

3.51 Pwysleisiodd rheolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant, yn ogystal â'r rhanddeiliaid eraill y cyfwelwyd â hwy, bwysigrwydd sicrhau bod y ddarpariaeth Cymraeg i Blant yn cael ei chynllunio'n strategol, mewn rhai achosion i gysoni â darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg arall ac mewn eraill i lenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth. Crybwyllon nhw hefyd yr angen i reolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion y rhaglen Cymraeg i Blant i weithio'n agos gyda'r Mudiad Meithrin i gynllunio darpariaeth Cymraeg i Blant. Crybwyllwyd hyn fel rheol yng nghyd-destun ceisio sicrhau bod llwybrau dilyniant o weithgareddau Cymraeg i Blant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar arall, megis Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin a lleoliadau addysg cyfrwng Cymraeg. Ystyriwyd bod adnabod

‘bylchau’ gwirioneddol neu ganfyddedig yn y llwybr dilyniant o’r blynyddoedd cynnar i addysg cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd yn bwysig gan reolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill y cyfwelwyd â nhw er mwyn gallu dod â’r bylchau i sylw fforymau iaith a grwpiau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) awdurdodau lleol.

3.52 Adroddodd rheolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant eu bod wedi cyfrannu at brosesau cynllunio strategol y Mudiad Meithrin i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar ar lefel genedlaethol. Saif rheolwr cenedlaethol y rhaglen ar fwrdd cenedlaethol y Mudiad Meithrin ac mae’r uwch swyddogion yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio chwarterol gyda rheolwyr rhanbarthol y Mudiad Meithrin. Adroddodd y Mudiad Meithrin fod y prosesau cynllunio strategol hyn wedi arwain at grwpiau Cymraeg i Blant yn cael eu sefydlu a’u cyd-leoli mewn chwe lleoliad sy’n cyd-daro â’r ddarpariaeth Cylch Meithrin newydd. Nododd y cyfweleion o Lywodraeth Cymru a’r contractwr bod y cyfarfodydd adolygu strategol a chyfarfodydd is-grŵp rheoli (gweler adran 3.44) yn rhoi cyfle hefyd i drafod y Cylchoedd Ti a Fi, y Cylchoedd Meithrin a’r addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yng nghyd-destun cynllunio gweithgarwch Cymraeg i Blant.

3.53 Ar lefel ranbarthol, dywedodd y rhan fwyaf o swyddogion rhanbarthol y rhaglen iddynt ystyried y ddarpariaeth Mudiad Meithrin lleol sydd ar gael wrth gynllunio ble i sefydlu a darparu gweithgareddau Cymraeg i Blant newydd. Mae’r canfyddiadau’n dangos bod amrywiadau yn y dull a ddilynir ym mhob rhanbarth, yn dibynnu ar y graddau yr oedd y Cylchoedd Ti a Fi neu’r Cylchoedd Meithrin wedi’u sefydlu’n lleol:

- Crybwyllodd rai swyddogion rhanbarthol iddynt sefydlu gweithgareddau Cymraeg i Blant cyn i Gylchoedd Ti a Fi neu Gylchoedd Meithrin gael eu sefydlu mewn ardal benodol. Pwrpas y dull hwn oedd ceisio ysgogi’r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhlith rhieni newydd gyda’r bwriad o’u cyfeirio at ddarpariaeth Mudiad Meithrin newydd ei sefydlu.

- Crybwyllodd rai swyddogion rhanbarthol iddynt sefydlu gweithgareddau Cymraeg i Blant mewn ardaloedd heb Gylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin. Mewn rhai achosion, ystyriwyd bod Cymraeg i Blant yn ‘llenwi bwlch’ yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn nalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg. Mewn ardaloedd eraill, roedd Cymraeg i Blant yn cael ei defnyddio i geisio ysgogi’r galw am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg arall i’r dyfodol.
- Crybwyllodd rai swyddogion rhanbarthol fod gweithgareddau Cymraeg i Blant wedi’u sefydlu mewn ardaloedd lle’r oedd y galw am leoedd mewn Cylchoedd Ti a Fi neu Gylchoedd Meithrin wedi cwympo’n ddiweddar, neu lle’r oedd diffyg gwirfoddolwyr ar gael i redeg grwpiau neu gymryd rhan yng ngwaith y pwyllgor lleol.

3.54 Nododd swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant iddynt geisio creu cysylltiadau rhwng gweithgareddau’r rhaglen a darpariaeth arall y Mudiad Meithrin. Crybwyllodd y rhan fwyaf o swyddogion rhanbarthol iddynt ddarparu taflenni i rieni gydag amserau a lleoliadau’r sesiynau Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin agosaf. Fodd bynnag, cydnabu swyddogion rhanbarthol hefyd, gan nad oedd Cylch Ti a Fi na Chylch Meithrin ym mhob ardal leol lle’r oedd gweithgareddau Cymraeg i Blant yn cael eu darparu, nid oedd llwybrau dilyniant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg arall ar gael bob amser. Nododd rai swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn gweithio’n fwyfwy mewn partneriaeth â chynrychiolwyr y ddarpariaeth Cylch Meithrin a Chylch Ti a Fi lleol er mwyn gwella’r cysoni a’r dilyniant rhwng y gweithgareddau hyn a gweithgareddau Cymraeg i Blant. Dywedodd rai swyddogion ac uwch reolwyr Cymraeg i Blant fod y math hwn o wybodaeth leol yn cael ei ddefnyddio i lywio’r gwaith gwneud penderfyniadau ynghylch ble i sefydlu grwpiau Cymraeg i Blant newydd. Fodd bynnag, dylid nodi bod profiadau rhai o’r rhieni y cyfwelwyd â hwy yn awgrymu nad oedd rhieni bob amser yn ymwybodol o’r llwybrau dilyniant o’r rhaglen Cymraeg i Blant i ddarpariaeth arall (Gweler adran 3.26).

3.55 Mae'r Mudiad Meithrin hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddarparu Clwb Cwtsh ar ran Llywodraeth Cymru.[17] Adroddodd rhai o aelodau staff y Mudiad Meithrin oedd ynghlwm â darparu Clwb Cwtsh eu bod yn gweithio'n agos gyda swyddogion Cymraeg i Blant i adnabod lleoedd addas i gyflwyno sesiynau, gan gysoni'r rhain gyda lleoliadau a ddefnyddir gan y rhaglen Cymraeg i Blant lle bo'n bosibl. Adroddodd y cyfweleion hyn fod y broses o sefydlu grwpiau Clwb Cwtsh wedi bod yn fwy effeithlon o ganlyniad i gyngor swyddogion Cymraeg i Blant ac adroddodd rhai hefyd eu bod yn derbyn atgyfeiriadau gan swyddogion Cymraeg i Blant.

**Partneriaethau: sefydliadau eraill**

3.56 Un o amcanion penodol y rhaglen yw sefydlu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau a sefydliadau perthnasol eraill. Dywedodd rheolwr cenedlaethol ac uwch reolwyr Cymraeg i Blant fod yr agwedd hon ar y rhaglen heb ei datblygu cyn llawned â'r broses o gyflwyno gweithgareddau, a fu'n brif ffocws datblygu Cymraeg i Blant yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o gyflwyno'r rhaglen. Fodd bynnag, nododd rheolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant hefyd fod un o uwch swyddogion y rhaglen wedi'i benodi'n rheolwr partneriaethau i ganolbwyntio ar yr haen hon o'r rhaglen.

3.57 Adroddodd pob swyddog Cymraeg i Blant iddynt geisio datblygu partneriaeth gyda sefydliadau eraill, naill ai ar lefel ranbarthol neu genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys y sefydliadau a restrwyd yn Nhabl 2 (gweler adran 2.14 yr adroddiad hwn): darparwyr hyfforddiant i ymwelwyr iechyd a bydwreigiaeth, GIG Cymru, timau Dechrau'n Deg yr awdurdodau lleol a staff arall sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, Mentrau Iaith, llyfrgelloedd a staff arall sy'n gweithio yn sector y blynyddoedd cynnar

[17] Rhaglen flasu wyth wythnos o hyd yw Clwb Cwtsh sy'n canolbwyntio ar siarad Cymraeg gyda phlant ifanc. Mae wedi'i hanelu at ddarpar rieni, rhieni/gofalwyr. Mae Clwb Cwtsh hefyd yn darparu cyfleusterau meithrinfa i blant wrth i rieni/gofalwyr fynychu'r sesiynau.

(elusennau, sefydliadau trydydd sector ac ysgolion). Mae’r isadrannau isod yn cyflwyno canfyddiadau’n ymwneud ag:

- Ymwybyddiaeth y rhanddeiliaid o’r rhaglen Cymraeg i Blant;
- Ymgysylltiad cychwynnol y rhanddeiliaid gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant;
- Natur y cydweithredu rhwng Cymraeg i Blant a rhanddeiliaid;
- Barn y rhanddeiliaid ar weithio mewn partneriaeth gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant;
- Manteision gweithio mewn partneriaeth;
- Ffactorau sy’n dylanwadu ar weithio mewn partneriaeth.

3.58 Dylid nodi bod natur ymgysylltiad y partneriaid â’r rhaglen Cymraeg i Blant yn amrywio a bod hyn i ddisgwyl o gofio’r gwahanol rolau sy’n cael eu chwarae gan bob math o randdeiliaid wrth ymgysylltu â rhieni. Er enghraifft, gallai sefydliadau dan gontract i gyflwyno’r rhaglenni magu plant fod yn fwy tebygol o feddu ar ddealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa darged o ran cymorth magu plant, o gymharu â llyfrgellwyr sy’n debygol o gael llai o ymgysylltiad dwys gyda rhieni. Yn ogystal, nododd swyddogion Cymraeg i Blant bod y graddau y gall rhanddeiliaid ddylanwadu ar rieni yn debygol o amrywio yn dibynnu ar amledd a natur eu cysylltiad.

*Ymwybyddiaeth y rhanddeiliaid o’r rhaglen Cymraeg i Blant*

3.59 Roedd bron pob un o’r rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy yn ymwybodol o’r rhaglen Cymraeg i Blant ac roedd y rhan fwyaf yn ymwybodol o rai o amcanion y rhaglen o leiaf. Fel rheol, roedd gan y cyfweleion oedd yn rhanddeiliaid a oedd wedi’u hadnabod gan swyddogion Cymraeg i Blant lefelau ymwybyddiaeth mwy o’r rhaglen na’r rhai oedd wedi’u hadnabod yn annibynnol gan y gwerthuswyr. Roedd y rhai oedd wedi cydweithredu’n gyson gyda swyddogion Cymraeg i Blant (e.e. trwy gyd-gyflwyno neu gynnal grwpiau, cyfarfod â swyddogion mewn fforymau lleol) yn ymddangos i fod â mwy o ymwybyddiaeth o’r rhaglen na’r rhai oedd â chyswllt mwy

cyfyngedig gyda swyddogion y rhaglen (e.e. cyfarfodydd un-tro neu oedd ond wedi cael gwybodaeth wedi'i hanfon atynt am y rhaglen Cymraeg i Blant).

3.60 Roedd gan rai rhanddeiliaid ymwybyddiaeth isel o'r rhaglen Cymraeg i Blant ac roedd ychydig ohonynt yn methu cofio cael gwybodaeth am y rhaglen. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweleion hyn yn rhanddeiliaid oedd wedi'u hadnabod yn annibynnol gan y gwerthuswyr. Nododd ychydig o'r rhanddeiliaid hyn nad oeddent yn siŵr a oedd y rhaglen wedi ei hanelu at blant cyn oed ysgol neu oed ysgol.

3.61 Adroddodd y rhan fwyaf o gyfweleion oedd yn rhanddeiliaid eu bod yn deall pa fathau o weithgareddau (e.e. tylino/ioga i fabanod, amser stori a chân) oedd yn cael eu darparu trwy'r rhaglen. Sonion nhw am dylino i fabanod, amser stori a chân neu cyfeiriwyd yn fwy cyffredinol at grwpiau rhieni a phlentyn fel enghreifftiau o'r math o weithgareddau yr oeddent ar ddeall eu bod yn cael eu darparu gan y rhaglen Cymraeg i Blant. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn llai ymwybodol o fanylion y gweithgareddau oedd yn cael eu darparu yn eu hardaloedd (e.e. lleoliadau, amserau) a theimlai rhai yr hoffent gael gwybodaeth fwy cyson am y gweithgareddau oedd yn cael eu darparu trwy'r rhaglen. Soniodd ychydig o'r cyfweleion oedd yn rhanddeiliaid, er iddynt gyfarfod â swyddogion Cymraeg i Blant, na chawsant wybodaeth dilyn i fyny. Dywedodd y cyfweleion hyn yr hoffen nhw gael amserlenni lleol o weithgareddau wedi'u hanfon atynt yn rheolaidd.

3.62 Er bod y rhan fwyaf o randdeiliaid wedi mynegi barn gefnogol ar nod y rhaglen Cymraeg i Blant, nid oedd y rhan fwyaf yn mynegi barn benodol ar briodoldeb nod ac amcanion y rhaglen. Tueddai'r cyfweleion oedd yn rhanddeiliaid oedd â barn ar nod ac amcanion y rhaglen fod yn rhai oedd mewn cysylltiad aml â swyddogion Cymraeg i Blant neu oedd yn ymwneud â fforymau iaith Gymraeg lleol (grwpiau yn yr awdurdod lleol gan gynnwys cynrychiolwyr sefydliadau sy'n ymwneud â gweithgareddau neu wasanaethau Cymraeg sy'n cwrdd yn rheolaidd i helpu cefnogi strategaethau Cymraeg yr awdurdodau lleol). Teimlai ychydig o'r cyfweleion hyn, er eu bod yn gefnogol o nod y rhaglen, fod cylch gwaith Cymraeg i Blant yn rhy eang. Teimlai'r cyfweleion hyn fod cynllunio a darparu

gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn lleol yn gyflawniad sylweddol ac, yn eu barn nhw, dylai'r rhaglen ganolbwyntio'n fwy ar yr haen gyflwyno hon, yn hytrach nag ar y dasg fwy strategol o ddatblygu llwybrau i addysg cyfrwng Cymraeg. Teimlai'r rhanddeiliaid hyn fod hyrwyddo llwybrau i addysg cyfrwng Cymraeg yn gyfrifoldeb oedd yn gofyn am ymwneud grŵp ehangach o randdeiliaid.

*Ymgysylltiad cyntaf y rhanddeiliaid gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant*

3.63 Adroddodd y cyfweleion oedd yn rhanddeiliaid fod eu hymgysylltiad cyntaf gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant wedi'i sefydlu yn un o'r ffyrdd canlynol:

- Nododd rhai bod eu partneriaeth gyda swyddogion rhanbarthol wedi'i sefydlu cyn cychwyn y rhaglen Cymraeg i Blant. Fel rheol, roedd hyn trwy randdeiliaid yn cydweithredu'n flaenorol gyda rhaglen Twf neu ar ôl gweithio gyda swyddogion Cymraeg i Blant mewn rolau blaenorol.
- Nododd rhai rhanddeiliaid (fel rheol *Mentrau Iaith* a rhai cysylltiadau awdurdodau lleol) iddynt sefydlu cysylltiadau gyda swyddogion Cymraeg i Blant yn y lle cyntaf trwy fynychu eu fforwm iaith Gymraeg lleol.
- Nododd rhai bod swyddogion Cymraeg i Blant wedi troi atynt yn uniongyrchol i ofyn am gyfarfod neu gynnig darparu gwybodaeth am y rhaglen.
- Nododd ychydig iddynt gysylltu gyda swyddogion Cymraeg i Blant yn y lle cyntaf trwy fynychu fforymau lleol eraill (e.e. fforymau blynyddoedd cynnar yr awdurdodau lleol).
- Nododd ychydig bod swyddogion Cymraeg i Blant wedi dod atynt er mwyn gofyn am eu cefnogaeth neu i gynnig cyfle i gydweithredu (e.e. gofyn i swyddogion Cymraeg i Blant gyflwyno sesiwn iddynt neu i ofyn iddynt am gyngor ar faterion y Gymraeg).

3.64 Adroddodd y cyfweleion oedd yn rhanddeiliaid fod cyswllt parhaus rhyngddynt eu hunain a swyddogion Cymraeg i Blant yn amrywio o ran pwy fyddai'n cychwyn y cysylltiad fel rheol. Adroddodd rhai rhanddeiliaid berthnasoedd gweithio agos, fel rheol o gwmpas cyswllt rheolaidd gyda swyddogion Cymraeg i Blant mewn fforymau lleol neu drwy gyd-gyflwyno gweithgareddau. Adroddodd rai cyfweleion oedd yn rhanddeiliaid y bu eu cyswllt yn weddol anaml ac roeddent yn tueddu i gael eu cychwyn os oedd ganddynt hwy neu'r swyddog Cymraeg i Blant ymholiad neu ofyniad penodol.

3.65 Adroddodd rai cyfweleion fod eu cysylltiad gyda swyddogion Cymraeg i Blant wedi bod yn gyfyngedig (e.e. cawsant drafodaeth un-tro neu darparwyd rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig iddynt). Ni allai ychydig o'r rhanddeiliaid gofio cael cyswllt gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant.

*Natur y cydweithredu rhwng Cymraeg i Blant a rhanddeiliaid*

3.66 Adroddodd swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant iddynt geisio gweithio ar y cyd ag ystod o sefydliadau i gyflwyno'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys ysgolion lleol, ymwelwyr iechyd (fel rheol trwy glinigau neu bractisiau meddygon teulu), rhianta, staff Dechrau'n Deg, Mentrau Iaith, staff Cymraeg i Oedolion, gwasanaethau blynyddoedd cynnar awdurdodau lleol, llyfrgelloedd a'r trydydd sector (fel elusennau plant). Dangosodd y cyfweliadau gyda swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant fod natur y cydweithredu rhyngddynt eu hunain a swyddogion y rhaglen yn tueddu i gwympo i un neu'n fwy o'r categorïau canlynol:

- cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth;
- cyd-gyflwyno gweithgareddau Cymraeg i Blant;
- darparu gweithgareddau Cymraeg i Blant mewn lleoliadau a reolir neu a gynhelir gan bartneriaid;
- rhoi cyngor a chefnogaeth.

Archwilir pob un o’r categorïau cydweithredu hyn yn fanylach isod.

3.67 Wrth drafod natur gweithio mewn partneriaeth, cyfeiriodd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant yn gyffredin at wahanol fathau o gyfathrebu rhyngddynt hwy a’r staff mewn sefydliadau allanol. Fel rheol, roedd hyn ar ffurf cyfarfodydd, galwadau ffôn neu gyfathrebu electronig mewn perthynas â’r rhaglen. Pwrpas cychwynnol y cyfathrebu hwn fel rheol oedd codi ymwybyddiaeth o’r rhaglen Cymraeg i Blant ac esbonio natur a phwrpas y gweithgareddau a gynigir trwy’r rhaglen gyda’r bwriad o geisio’u cefnogaeth wrth gyfeirio rhieni at sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Nododd swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn tueddu i geisio cymorth wrth gyrraedd grwpiau yr oeddent yn ei chael hi’n heriol ymgysylltu â nhw neu nad oeddent wedi gallu eu cyrraedd eto. Ar ôl i’r cyswllt cyntaf gael ei wneud, fel rheol roedd y cyfathrebu parhaus yn golygu darparu diweddariadau i randdeiliaid ar weithgareddau lleol. O gael eu gofyn i ddisgrifio sut oedden nhw wedi cydweithredu â swyddogion Cymraeg i Blant, crybwyllodd y rhanddeiliaid cyfathrebu a rhannu gwybodaeth gan amlaf, gyda rhai’n nodi iddynt gyfeirio rhieni at grwpiau Cymraeg i Blant. Mae enghreifftiau o’r math hwn o gydweithredu wedi cynnwys cynnal cyfarfodydd dwyochrog gyda sefydliadau (e.e. *Mentrau Iaith*, Dechrau’n Deg) er mwyn trosglwyddo gwybodaeth am weithgareddau Cymraeg i Blant lleol yn ogystal â mynychu fforymau Cymraeg a fforymau’r Gymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

3.68 Er bod y cyfathrebu wedi’i gychwyn fel rheol gan swyddogion Cymraeg i Blant, crybwyllodd ychydig o’r rhanddeiliaid iddynt gysylltu â swyddogion rhanbarthol i ofyn am eu cefnogaeth wrth gyfeirio rhieni at weithgareddau a drefnwyd ganddynt hwy eu hunain fel partner (e.e. sesiynau Cymraeg i Oedolion). Roedd gan y rhanddeiliaid hyn safbwyntiau cadarnhaol ar y rhaglen a nodwyd ganddynt fod swyddogion Cymraeg i Blant wedi bod o gymorth wrth drosglwyddo gwybodaeth ac annog rhieni i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg eraill.

3.69 Adroddodd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant iddynt gyflwyno gweithgareddau Cymraeg i Blant mewn lleoliadau a gynhelir neu ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan sefydliadau partner. Roedd yr enghreifftiau a grybwyllwyd gan swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i

Blant yn cynnwys darparu gweithgareddau Cymraeg i Blant rheolaidd mewn llyfrgelloedd lleol a sesiynau grŵp Cymraeg i Blant un-tro mewn digwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau eraill (fel gwyliau Cymraeg lleol a redir gan Fentrau Iaith ac eraill).

3.70 Cyfeiriodd rai swyddogion Cymraeg i Blant at y ffaith iddynt gyd-gyflwyno gweithgareddau Cymraeg i Blant (tylino babanod, ioga ac amser stori a chân) gyda staff o sefydliadau eraill, naill ar sail 'un-tro' neu gyson. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys swyddogion Cymraeg i Blant yn darparu gweithgareddau'n gyson mewn clinigau 'galw heibio' i ymwelwyr iechyd neu'n darparu sesiynau grŵp fel rhan o gyrsiau magu plant a gynhelir gan bobl eraill (e.e. Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf neu elusennau).

3.71 Dywedodd rhai swyddogion Cymraeg i Blant iddynt ddarparu cyngor a chefnogaeth neu hyfforddiant i staff mewn sefydliadau eraill, er mwyn i'r sefydliadau hynny yn eu tro allu trosglwyddo gwybodaeth am ddarpariaeth cyn ysgol ac addysg cyfrwng Cymraeg i deuluoedd. Cyfeiriodd y rhanddeiliaid hefyd at achosion lle cawsant wybodaeth neu gyngor gan staff Cymraeg i Blant, a nododd ychydig iddynt werthfawrogi gallu cael ymatebion anffurfiol i ymholiadau am addysg a darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

3.72 Adroddodd rheolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant iddynt weithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau ar lefel fwy strategol. Adroddodd y rheolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant iddynt weithio mewn partneriaeth gydag awdurdodau lleol trwy fynychu cyfarfodydd CSGA ac/neu fforymau iaith Gymraeg cyson mewn rhai awdurdodau lleol. Pwrpas hyn oedd ceisio sicrhau bod swyddogion Cymraeg i Blant yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau'n ymwneud â darpariaeth cyn-ysgol ac addysg cyfrwng Cymraeg yn lleol ac unrhyw newidiadau ar ddod i'r ddarpariaeth (e.e. ysgolion newydd yn agor). Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod y math hwn o wybodaeth yn werthfawr i lywio cynllunio strategol y rhaglen Cymraeg i Blant. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod y rhaglen wedi'i chyfeirnodi yn CSGAau pob awdurdod lleol.

3.73 Ar lefel genedlaethol, adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn gweithio mewn partneriaeth ag Urdd Gobaith Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bookstart, S4C a Chyngor Llyfrau Cymru ar rai mentrau cenedlaethol. Tueddodd hyn i gynnwys y gwaith o gyd-hyrwyddo mentrau ac ymgyrchoedd. Yn ogystal, darparodd rheolwr cenedlaethol ac uwch swyddogion Cymraeg i Blant gyflwyniadau hyfforddiant am y rhaglen Cymraeg i Blant i fydwragedd dan hyfforddiant yn adrannau hyfforddiant Bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd mewn Prifysgolion. Pwrpas y math hwn o ymgysylltu oedd gwneud bydwragedd dan hyfforddiant yn fwy ymwybodol o'r gefnogaeth oedd ar gael trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant a'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael. Mae data monitro ar gyfer 2017-18 (y flwyddyn lawn ddiweddaraf sydd ar gael) yn dangos bod 5 cyflwyniad wedi'u darparu i gyfanswm o 106 o ymwelwyr iechyd a bydwragedd dan hyfforddiant ar draws Cymru.

*Barn y rhanddeiliaid ar weithio mewn partneriaeth â'r rhaglen Cymraeg i Blant*

3.74 Roedd gan y rhan fwyaf o gyfweleion oedd yn rhanddeiliaid a fu'n cydweithredu gyda'r rhaglen mewn rhyw ffordd farn gadarnhaol ar eu profiadau o weithio gyda swyddogion Cymraeg i Blant. Roedd gan y rhan fwyaf farnau cadarnhaol ar eu cyfathrebiadau gyda swyddogion Cymraeg i Blant ac ar y dull a gymerwyd gan staff Cymraeg i Blant o ymgysylltu â rhieni. Tueddai'r rhanddeiliaid a ddynodwyd gan swyddogion Cymraeg i Blant gael lefelau ymgysylltu uwch a safbwyntiau mwy cadarnhaol ar y rhaglen na'r rhai a ddynodwyd yn annibynnol gan y gwerthuswyr.

3.75 Adroddodd rhai rhanddeiliaid, mewn nifer o wahanol ardaloedd ledled Cymru, iddynt gyfarfod â swyddogion rhaglen ond, yn dilyn trafodaethau, nododd swyddogion Cymraeg i Blant nad oedd hi'n bosibl iddynt gyflwyno gweithgareddau yn eu hardal leol oherwydd diffyg capasiti. Mewn ychydig o achosion, cyflwynwyd gweithgareddau Cymraeg i Blant ond fe'u terfynwyd, unwaith eto oherwydd diffyg capasiti. Dywedodd y rhanddeiliaid hyn, yn eu barn nhw, y byddai galw ymhlith rhieni am ragor o weithgareddau os oedd mwy o gapasiti ar gael i'w darparu. Ymddengys bod y dystiolaeth hon gan

randdeiliaid yn atgyfnerthu safbwyntiau swyddogion Cymraeg i Blant a ddatganodd y gallen nhw o bosibl gyflwyno mewn rhagor o leoliadau petai ganddynt y capasiti i wneud hynny. Fel y nodwyd yn adran 3.21, mae'r model darparu a ddewiswyd gan y contractwr yn cyfyngu ar nifer y lleoliadau y gellir darparu grwpiau ynddynt.

3.76 Teimlai ychydig o'r rhanddeiliaid nad oeddent wedi cael cymaint o gyfathrebu cyson ag yr hoffen nhw fod wedi'i gael gan y rhaglen Cymraeg i Blant. Yn benodol, teimlai'r rhanddeiliaid hyn yr hoffent gael amserlen reolaidd o weithgareddau Cymraeg i Blant yn eu hardal leol er mwyn iddynt allu ei hyrwyddo i'r teuluoedd y gweithiant gyda nhw. O ganlyniad, teimlai'r rhanddeiliaid hyn oedd yn gweithio gyda rhieni nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth i gyfeirio rhieni at weithgareddau Cymraeg i Blant ac roeddent o'r farn fod cyfleoedd posibl i gysoni eu darpariaeth gyda darpariaeth y rhaglen yn cael eu colli. Roedd y rhanddeiliaid oedd ynghlwm wrth hyfforddi bydwragedd hefyd am gael amserlen o weithgareddau ar draws sawl rhanbarth er mwyn i'r bydwragedd dan hyfforddiant ac wrth eu gwaith allu cyfeirio rhieni'n hawdd at y gweithgareddau.

3.77 Crybwyllodd ychydig o'r rhanddeiliaid yr hoffen nhw weld gweithgareddau Cymraeg i Blant yn cael eu darparu mewn ffordd fwy hyblyg, wedi'i theilwra. Er enghraifft, nododd rhai y byddai'n well ganddynt weld mwy o sesiynau grŵp un-tro yn cael eu darparu gan staff Cymraeg i Blant mewn gwahanol leoliadau (e.e. mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol). Fodd bynnag, crybwyllodd swyddogion Cymraeg i Blant fod cyflwyno cyfres o sesiynau grŵp mewn un lleoliad i grŵp o rieni cyson fawr wedi rhoi mwy o gyfleoedd iddynt feithrin perthnasoedd gyda rhieni a chael sgyrsiau am addysg cyfrwng Cymraeg a gweithgareddau'r blynyddoedd cynnar. Roedd swyddogion Cymraeg i Blant o'r farn fod y dull hwn wedi'u galluogi i gyflawni amcanion y rhaglen a chael mwy o effaith ar y rhieni hynny.

*Manteision canfyddedig gweithio mewn partneriaeth*

3.78 Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod cyd-gyflwyno gweithgareddau gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant wedi'u helpu i ymgysylltu â nifer fwy o rieni, neu wedi eu helpu i ymgysylltu â rhieni mewn ffordd fwy effeithlon. Un enghraifft o hyn oedd sesiwn Cymraeg i Blant wythnosol a gyflwynwyd i rieni gyda babanod ifanc mewn ysbyty cymunedol a amserlennwyd ar yr un pryd â chlinig ymwelwyd iechyd:

> *'[Ar gyd-gyflwyno Cymraeg i Blant mewn clinig ymwelwyr iechyd] Mae o fantais fawr i ni oherwydd mae'n dod â mwy [o deuluoedd] i mewn a gallwn weld llawer o famau mewn un lle mewn un bore.'* Cyfweliad gyda rhanddeiliaid

3.79 Mynegodd rhai rhanddeiliaid safbwyntiau cadarnhaol am nifer yr atgyfeiriadau a gawsant gan swyddogion Cymraeg i Blant. Er enghraifft, amcangyfrifodd un swyddog Cymraeg i Oedolion fod 15 rhiant oedd yn mynychu eu dosbarthiadau wedi'u cyfeirio atynt gan y swyddog Cymraeg i Blant. Esboniodd dau lyfrgellydd y cyfwelwyd â hwy fod mwy o lyfrau plant cyfrwng Cymraeg yn cael eu benthyca a'u bod yn credu bod hwn o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw gan rieni oedd yn cymryd rhan mewn sesiynau Cymraeg i Blant.

3.80 Crybwyllodd rai sefydliadau oedd wedi cael gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant gan swyddogion Cymraeg i Blant fod y rhaglen wedi cynyddu ymwybyddiaeth eu staff o ddarpariaeth ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai bod hyder eu staff wedi cynyddu o ganlyniad i'r gweithio mewn partneriaeth hwn:

> *'I bobl ddi-Gymraeg, mae'r trafodaethau wedi gwaredu'r ofn o geisio dweud ambell i air [o Gymraeg] mewn practis clinigol.'* Cyfweliad gyda rhanddeiliaid

3.81 Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn fod cynyddu nifer y gweithgareddau blynyddoedd cynnar sydd ar gael yn eu hardal leol o fantais i'r rhaglen. Ystyriodd rhai o'r rhanddeiliaid hyn fod diffyg gweithgareddau blynyddoedd cynnar yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac felly roeddent yn teimlo bod y rhaglen wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at gynyddu'r ddarpariaeth hon. Dyma

oedd yr achos yn benodol i'r rhanddeiliaid oedd ynghlwm wrth gefnogi teuluoedd ac yn eu cyfeirio at weithgareddau (e.e. ymwelwyr iechyd a staff awdurdodau lleol).

3.82 Cyfeiriodd ychydig o'r rhanddeiliaid at gynyddu proffil y Gymraeg fel mantais o'r rhaglen. Crybwyllwyd hyn yn benodol gan ambell i aelod o staff llyfrgell a gyfeiriodd at yr hyn a welsant fel manteision cynnal grwpiau cyfrwng Cymraeg mewn lle cyhoeddus lle byddai'r iaith yn cael ei chlywed gan ymwelwyr.

3.83 Teimlai rhai rhanddeiliaid iddynt gael gwybodaeth werthfawr am faterion Cymraeg o ganlyniad i'r cyngor a ddarperir gan swyddogion Cymraeg i Blant. Nododd rhai hefyd iddynt gyfeirio rhieni a oedd wedi dod atynt gydag ymholiad am y Gymraeg i swyddogion Cymraeg i Blant. Ystyriwyd bod hyn yn fanteisiol o safbwynt rhanddeiliaid:

> *'Mae diddordeb gan rieni [yn y Gymraeg], ond maen nhw'n poeni am yr ynganu a'r gwaith cartref, felly mae hyn [Cymraeg i Blant] yn helpu.*
> Cyfweliad gyda rhanddeiliaid

3.84 Cafodd enghreifftiau o effeithiau posibl penderfyniadau'r rhieni ar ddarpariaeth addysg a chyn ysgol eu plentyn eu hamlygu gan ychydig o'r rhanddeiliaid hefyd. Er enghraifft, adroddodd un gweithiwr iechyd proffesiynol, yn eu barn nhw, fod Cymraeg i Blant wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai teuluoedd y maen nhw'n gweithio gyda nhw i fynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

*Ffactorau sy'n dylanwadu ar weithio mewn partneriaeth*

3.85 Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod cryfder gweithio mewn partneriaeth rhwng Cymraeg i Blant a sefydliadau allanol yn amrywio yn ôl sector ac ardal, ac y gallai sawl ffactor ddylanwadu ar ddatblygiad y partneriaethau. Nododd rai swyddogion Cymraeg i Blant fod y partneriaethau'n tueddu i fod yn gryfach yn yr ardaloedd hynny lle'r oedd swyddogion wedi bod yn gweithio'n flaenorol fel swyddogion Twf. Teimlai rheolwyr y rhaglen fod angen i swyddogion rhanbarthol oedd heb weithio ar

raglen Twf yn flaenorol ganolbwyntio ar sefydlu a datblygu darpariaeth leol cyn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth.

3.86 Bu rhai rhanddeiliaid yn cymharu rhwng lefelau'r gweithio mewn partneriaeth rhyngddynt eu hunain a'r rhaglen Cymraeg i Blant a'r cydweithrediad blaenorol gyda chynllun Twf. Nododd rhai rhanddeiliaid lle sefydlwyd eu perthynas waith gyda swyddogion Cymraeg i Blant yn ystod rhaglen Twf fod y cydweithredu wedi parhau i fod yn effeithiol (e.e. trwy gyd-gyflwyno sesiynau grŵp). Fodd bynnag, adroddodd ychydig o'r rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy fod y cyfathrebu rhwng Cymraeg i Blant a nhw eu hunain wedi bod yn llai aml nag y bu o dan raglen Twf. Yn ogystal, teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd 'brand' Cymraeg i Blant yn cael ei adnabod cystal ag yr oedd Twf, ac nid oedd swyddogion Cymraeg i Blant mor amlwg mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol.

3.87 Nododd swyddogion Cymraeg i Blant fod eu gallu i gyfarfod a chydweithredu gyda sefydliadau partner wedi'i gyfyngu gan yr amser ar gael iddynt gynllunio a darparu gweithgareddau Cymraeg i Blant. Soniodd swyddogion rhanbarthol fod gweithio'n rhan-amser yn benodol, yn golygu ei bod hi'n heriol dod o hyd i amser i gynllunio a darparu sesiynau grŵp, yn ogystal â gwneud a chynnal cyswllt gyda phartneriaid. Pwysleision nhw y gallai meithrin cysylltiadau newydd fod yn feichus o ran amser a bod rhaid rheoli hyn yn ofalus er mwyn sicrhau nad oedd ansawdd y ddarpariaeth gyfredol a'r perthnasoedd yn cael eu heffeithio.

3.88 Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod amrywiadau yng ngallu a chapasiti partneriaid i weithio mewn partneriaeth â nhw. Adroddodd rhai swyddogion rhaglen ei bod yn gallu bod yn anodd trefnu cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid oherwydd diffyg amser ymhlith rhanddeiliaid i gynllunio a gweithio ar y cyd. Adroddwyd bod trosiant staff mewn rhai sefydliadau partner yn her hefyd, gyda rhai swyddogion Cymraeg i Blant yn nodi iddynt feithrin perthynas gydag unigolion allweddol mewn sefydliadau partner a oedd yn gadael eu swydd yn nes ymlaen. Adroddwyd bod hyn wedi golygu y bu rhaid i swyddogion Cymraeg i Blant dreulio amser yn meithrin cysylltiadau o'r newydd â'r sefydliadau hyn.

3.89 Yn ogystal, adroddwyd bod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r rhaglen gan swyddogion Cymraeg i Blant hefyd yn ffactor oedd yn dylanwadu ar i ba raddau y sefydlwyd partneriaethau. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod gan rai rhanddeiliaid ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r rhaglen a bod hyn wedi gwneud yr ymgysylltiad cychwynnol yn fwy heriol. Ymddengys bod hyn yn cefnogi barn, a fynegwyd gan swyddogion a rhanddeiliaid y rhaglen, bod lefelau cydweithredu wedi'u heffeithio gan ba mor dda oedd y perthnasoedd a sefydlwyd ganddynt.

3.90 Gwelodd swyddogion Cymraeg i Blant fod amrywiadau ym mharodrwydd sefydliadau partner i ymgysylltu. Teimlai rhai swyddogion rhaglen fod hyn oherwydd canfyddiad ymhlith rhai sefydliadau partner fod Cymraeg i Blant yn cystadlu gyda'u gwasanaethau i ymgysylltu â rhieni. Fodd bynnag, nid ymddangosodd fod tystiolaeth y rhanddeiliaid yn cefnogi'r farn hon, gyda rhanddeiliaid yn adrodd yr hoffen nhw gydweithredu mwy gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant, yn amodol ar gael y capasiti i wneud hynny. Tueddai rhanddeiliaid i gyfeirio at rwystrau mwy ymarferol at gydweithredu, fel capasiti staff, argaeledd lle (e.e. i gyd-gyflwyno mewn canolfannau lleol) ac amseru cyflwyniad y sesiwn. Awgryma hyn y gallai'r lefelau cydweithredu gael eu heffeithio'n fwy gan gapasiti swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant na'u parodrwydd i gydweithio.

# 4. Theori Newid

4.1 Amlinella’r bennod hon Theori Newid ar gyfer y rhaglen Cymraeg i Blant. Mae’r Theori’n cyflwyno dilyniant rhesymegol o amryw elfennau’r rhaglen Cymraeg i Blant a sut y maent yn cyfrannu at y nod y mae’r rhaglen yn bwriadu ei gyflawni, sef cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff y y dilyniant hwn ei gyflwyno yn y Theori Newid Cymraeg i Blant drosfwaol (gweler Ffigur 9) ond bydd yn cael ei fireinio ymhellach dros gyfnod darparu’r rhaglen.

4.2 Fel y nodwyd yn Adran 1, un o amcanion y gwerthusiad hwn oedd datblygu a phrofi Theori Newid y rhaglen. Gwnaed hyn ochr yn ochr â thasgau ymchwil eraill a gynhaliwyd yn ystod y gwerthusiad. Fel cam cyntaf, cynhaliwyd gweithdy Theori Newid yn ystod y cyfnod cwmpasu (gweler Adran 2), a alluogodd y gwerthuswyr i osod mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau Cymraeg i Blant trwy fodel rhesymeg ochr yn ochr â rhai o’r tybiaethau, dibyniaethau a ffactorau allanol sy’n dylanwadu ar y rhaglen.

4.3 Ystyriodd y gwerthuswyr y model rhesymeg drafft, arf defnyddiol yn ystod y cyfnod cwmpasu i adnabod a darlunio cydrannau’r rhaglen, a defnyddiwyd hyn i lywio gwaith maes y gwerthusiad. Ar ei lefel fwyaf sylfaenol, gosododd y model rhesymeg y blociau adeiladu y gellid eu defnyddio i ddatblygu Theori Newid ar gyfer Cymraeg i Blant. Fodd bynnag, nid oedd y model rhesymeg yn esbonio sut a pham y disgwyliwyd i’r canlyniadau a fwriadwyd gael eu cyflawni ar sail y mewnbynnau a’r gweithgareddau. Felly, cynhaliwyd gwaith pellach i ddatblygu’r Theori Newid yn ystod y camau gwaith maes a dadansoddi. Mae’r model rhesymeg drafft a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod cwmpasu wedi’i amlinellu isod fel ag y mae’r Theori Newid ddrafft.

### Model rhesymeg rhagarweiniol

4.4 Paratowyd model rhesymeg rhagarweiniol oedd yn gosod y rhesymeg ar gyfer Cymraeg i Blant ac yn darparu crynodeb bras o fewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau’r rhaglen fel y’i deallwyd gan gyfranogwyr y gweithdy.

4.5 Cyflwynir y model rhesymeg rhagarweiniol yn Ffigur 4 isod ac mae'n gosod y materion y mae'r rhaglen yn dibynnu arnynt ar gyfer llwyddiant, ynghyd â ffactorau allanol a allai ddylanwadu ar i ba raddau y mae'r rhaglen yn llwyddiannus. Yn olaf, cyflwynir y tybiaethau sy'n sail i'r dolenni cysylltiedig rhwng elfennau'r model rhesymeg.

## Ffigur 4. Model rhesymeg drafft ar gyfer Cymraeg i Blant

**Rhesymeg:** Nod Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Ei amcanion yw cefnogi:

- rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill y teulu wrth gyflwyno a defnyddio’r Gymraeg yn y cartref a throsglwyddo’r Gymraeg i’w plant;
- datblygiad ieithyddol y plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

Trwy ei nod a’i hamcanion, ceisia’r rhaglen gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

<table>
<tr><th>Mewnbynnau</th><th>Gweithgareddau</th><th>Allbynnau</th><th>Canlyniadau</th><th>Effeithiau tymor hir</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Cyllid (gan gynnwys amser) ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, y contractwr ac adnoddau.<br><br>Amser staff heb fod yn staff Cymraeg i Blant (Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner).<br><br>Cyfraniadau mewn da gan bartneriaid strategol (e.e. darparu lleoliadau).</td><td>Cyflwynwyd gweithgareddau i deuluoedd mewn sesiynau grŵp Cymraeg i Blant.</td><td>Mae mwy o rieni a’u plant yn mynychu gweithgareddau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.</td><td>Rhieni a’u plant yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y cartref a’r gymuned.<br>Rhieni a’u plant yn fwy hyderus yn defnyddio’r Gymraeg.<br>Sgiliau Cymraeg y plant yn gwella.</td><td rowspan="4">Cynnydd yn nifer (a chanran) y plant:<br>• sy’n troi at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg;<br>• dechrau addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cynnydd yn y defnydd o’r Gymraeg yn y cartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned.<br><br>Cynnydd yn nifer (a chanran) y rhieni sy’n trosglwyddo’r iaith i’w plant.<br><br>Cynnydd yn y galw am ddarpariaeth ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.<br><br>Cynnydd yn nifer yr oedolion sy’n dysgu Cymraeg.</td></tr>
<tr><td>Sgyrsiau rhwng swyddogion a rhieni Cymraeg i Blant am: addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg: dysgu a defnyddio’r Gymraeg.</td><td>Rhieni’n cael mwy o gyngor a chefnogaeth gan swyddogion Cymraeg i Blant mewn perthynas ag: addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg: dysgu a defnyddio’r Gymraeg.</td><td>Rhieni’n fwy tebygol o:<br>• fynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar arall a gyflwynir yn y Gymraeg;<br>• gwneud cais am le ar gyfer eu plentyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg;<br>• defnyddio darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg;<br>• trosglwyddo’r iaith i’w plant;<br>• dysgu Cymraeg.</td></tr>
<tr><td>Rhannwyd gwybodaeth mewn amryw fformatau (ysgrifenedig a digidol) gyda rhieni a phartneriaid gan swyddogion Cymraeg i Blant am: Cymraeg i Blant, addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio’r Gymraeg.</td><td>Rhieni a phartneriaid yn cael mwy o wybodaeth am: Cymraeg i Blant, addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg: dysgu a defnyddio’r Gymraeg.</td><td>Bod gan rieni fwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am: Cymraeg i Blant, addysg cyfrwng Cymraeg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, dysgu a defnyddio’r Gymraeg.</td></tr>
<tr><td>Gweithio mewn partneriaeth rhwng swyddogion Cymraeg i Blant a sefydliadau partner fel awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, staff ysgol a thrydydd sector (e.e. cyd-gyflwyno sesiynau grŵp, mynychu digwyddiadau, fforymau).</td><td>Mwy o gydweithredu rhwng Cymraeg i Blant a sefydliadau partner. Mwy o gynnwys Cymraeg mewn sesiynau sefydliadau partner. Ystod ehangach o deuluoedd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</td><td>Cyfeirio mwy o deuluoedd gan sefydliadau partner i addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.<br>Gwell dealltwriaeth ar y galw am ddarpariaeth ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.<br>Partneriaid yn darparu mwy o sesiynau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.<br>Teuluoedd yn defnyddio’r Gymraeg mewn nifer fwy o leoliadau.</td></tr>
</table>

4.6 Mae Ffigur 5 isod yn gosod cyfres o ddibyniaethau, ffactorau allanol a thybiaethau sy’n rhan allweddol o theori’r rhaglen, ochr yn ochr â’r model rhesymeg. Y dibyniaethau yw’r amodau y mae cyflawniad llwyddiannus y rhaglen yn dibynnu arnynt, ac maent yn cynnwys argaeledd a gallu staff, isadeiledd sefydliadau partner, a chyllid. Mae’r ffactorau allanol y mae llwyddiant y rhaglen yn dibynnu arnynt yn cynnwys argaeledd a dylanwad darpariaeth ac addysg cyfrwng Cymraeg arall, yn ogystal â dwyster y boblogaeth sy’n medru’r Gymraeg (a allai effeithio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ddysgu a defnyddio’r Gymraeg). Yn ogystal, cyflwynir cyfres o dybiaethau isod am y llif rhesymegol rhwng pob un o’r mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau. Mae’r rhain yn seiliedig ar ymddygiadau tybiedig rhieni a phartneriaid, a’u hymatebion i weithgareddau’r rhaglen.

**Ffigur 5. Dibyniaethau, ffactorau allanol a thybiaethau’n ymwneud â Theori Newid Cymraeg i Blant**

| **Dibyniaethau** | **Ffactorau allanol** |
| --- | --- |
| • Argaeledd staff gyda’r gallu i gyflwyno’r rhaglen;<br>• Capasiti, gallu a pharodrwydd sefydliadau partner i gefnogi’r rhaglen;<br>• Argaeledd isadeiledd lleol (e.e. lleoliadau, cludiant);<br>• Cyllid ac adnoddau parhaus i gyflwyno sesiynau grŵp Cymraeg i Blant;<br>• Marchnata gweithgareddau’n effeithiol wrth wneud rhieni a rhanddeiliaid yn ymwybodol o’r rhaglen;<br>• Mae gweithgareddau mewn sesiynau grŵp yn apelio at rieni ac maen nhw am gymryd rhan ynddynt;<br>• Argaeledd darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg arall, fel Cylchoedd Meithrin a Ti a Fi, yn ogystal ag addysg. | • Argaeledd sesiynau grŵp tebyg i’r rhai a gynigir trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant i rieni a phlant (cyfrwng Cymraeg a Saesneg) a allai effeithio ar y galw am sesiynau grŵp y rhaglen;<br>• Argaeledd y llwybrau i ddarpariaeth ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, a allai effeithio ar benderfyniadau’r rhieni ar fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant a dewis addysg cyfrwng Cymraeg;<br>• Dwyster y boblogaeth sy’n medru’r Gymraeg, a allai effeithio ar argaeledd darpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg arall yn ogystal â’r cyfleoedd i ddysgu a defnyddio’r Gymraeg;<br>• Y canfyddiad o’r Gymraeg ymhlith y boblogaeth, a allai effeithio ar debygolrwydd rhieni sy’n rhoi gwerth ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>• Effaith darpariaeth a gwasanaethau eraill yn ymwneud â’r Gymraeg yn cael eu darparu trwy strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru. |

**Tybiaethau**

Mae'r model yn tybio bod:

- Rhieni'n dod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd i ddefnyddio, dysgu a throsglwyddo'r Gymraeg trwy gymryd rhan mewn sesiynau grŵp Cymraeg i Blant;
- Rhieni'n dod yn fwy ymwybodol o fanteision defnyddio, dysgu a throsglwyddo'r Gymraeg trwy gymryd rhan mewn sesiynau grŵp Cymraeg i Blant;
- Rhieni'n fwy tebygol o gael barn ffafriol o'r defnydd, darpariaeth, gwasanaethau ac addysg Cymraeg o gael rhagor o wybodaeth am y Gymraeg;
- Rhieni am gymryd rhan mewn sesiynau grŵp Cymraeg i Blant;
- Rhieni am fwy o weithgareddau cyfrwng Cymraeg;
- Y contractwr yn hyrwyddo cynnig sy'n ddeniadol i'r gynulleidfa darged;
- Rhieni'n deall manteision addysg cyfrwng Cymraeg a defnyddio'r Gymraeg;
- Rhoi mwy o wybodaeth i rieni sy'n arwain at fwy o ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant, addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, dysgu a defnyddio'r Gymraeg.
- Rhieni a phartneriaid yn barod i dderbyn y wybodaeth;
- Partneriaid yn fodlon, yn gallu ac yn meddu ar y capasiti i ymgysylltu â staff Cymraeg i Blant;
- Partneriaid yn trosglwyddo gwybodaeth am y rhaglen Cymraeg i Blant i rieni;
- Cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg ar gael i oedolion;
- Bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned;
- Bod y cyflenwad lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg a darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn cyfateb i'r galw.


### *Symud tuag at Theori Newid*

4.7 Ar ôl datblygu'r model rhesymeg drafft, gwnaed gwaith pellach i ddatblygu Theori Newid ar gyfer Cymraeg i Blant. Roedd hyn yn cynnwys ystyriaeth fanylach o'r camau rhwng y mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau na wnaed yn amlwg yn y model rhesymeg. Yn ogystal, gosododd yn fanylach ba dybiaethau am benderfyniadau ac ymddygiadau sy'n berthnasol ar wahanol gamau'r Theori Newid.


4.8 Wrth ddatblygu'r Theori Newid, daeth i'r amlwg fod sawl 'haen' neu 'lwybr' trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant, ond roedd cysylltiadau clir rhyngddynt hefyd. Cyflwynir cyfres o Theorïau Newid yn Ffigurau 6-9, sy'n gosod yr hyn y mae'r gwerthuswyr yn eu hystyried yw tair prif 'haen' Cymraeg i Blant, sef darparu sesiynau grŵp i rieni, gweithio mewn partneriaeth, a rôl Llywodraeth Cymru yn y rhaglen. Cyflwyna Ffigur 6 y Theori Newid ar gyfer darparu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, Ffigur 7 yr haen partneriaethau, a Ffigur 8 rôl Llywodraeth Cymru. Yn olaf, mae Ffigur 9 yn dangos sut mae'r tair haen yn gydgysylltiedig fel rhan o raglen gyfan Cymraeg i Blant.

4.9 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad yn dangos nad yw 'taith' teuluoedd trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant yn llinellol a'i bod yn gallu dechrau (a dod i ben) ar wahanol gamau'r Theori Newid yn dibynnu ar nifer o ffactorau (trafodir hyn ymhellach yn adran 4.39). Mae'r canfyddiadau'n dangos hefyd y gall teuluoedd hepgor un neu'n fwy o'r camau a esbonnir yn y Theori Newid yn dibynnu ar eu hamgylchiadau. Yn ogystal, gall lefelau cyswllt rhieni a rhanddeiliaid gyda'r rhaglen amrywio. Er enghraifft, mae'n bosibl mai dim ond un sesiwn Cymraeg i Blant fydd rhai rhieni'n cael profiad ohoni wrth fynychu gŵyl gyda'u plentyn. Felly, gallai'r rhieni hyn fod yn llai tebygol o ddatblygu perthynas gyda'r swyddog Cymraeg i Blant a chael sgyrsiau manwl am addysg cyfrwng Cymraeg na rhiant oedd wedi cael cyfle i fynychu cyfres o sesiynau grŵp tylino babanod, ioga ac amser stori o enedigaeth ymlaen. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd rhai sefydliadau partner ond yn derbyn rhywfaint o wybodaeth ysgrifenedig am raglen Cymraeg i Blant tra bod eraill yn cael mwy o gyfleoedd i gwrdd â swyddogion, arsylwi sesiynau grŵp neu gyd-gyflwyno sesiynau.

4.10 Mae pob un o'r diagramau Theori Newid canlynol yn defnyddio'r allwedd ganlynol ar gyfer mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, tybiaethau, canlyniadau ac effeithiau tymor hir.



**Ffigur 6: Theori Newid: Darparu Sesiynau Grŵp Cymraeg i Blant**



4.11 Mae Ffigur 6 yn nodi'r holl gamau o dan haen y rhaglen sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r sesiynau grŵp. Dechreua'r camau gyda'r mewnbynnau ac mae'r rhain yn arwain at yr effaith tymor hirach disgwyliedig o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg adref, yn yr ysgol ac yn y gymuned. Ar y lefel gyntaf (yn cysylltu'r blychau mewnbwn â'r blychau gweithgareddau), mae'r Theori Newid yn datgan bod y cyllid, yr amser a chyfraniadau mewn da gan Llywodraeth Cymru ac eraill yn galluogi'r contractwr i hyrwyddo a darparu sesiynau grŵp. Tybiaeth allweddol sy'n sail i'r Theori Newid hon yw bod rhieni am gymryd rhan yn y mathau hyn o sesiynau grŵp a bod y contractwr yn hyrwyddo cynnig sy'n ddeniadol i'r gynulleidfa darged.

4.12 Mae lefel nesaf y Theori Newid yn dangos allbynnau, sef canlyniadau uniongyrchol darparu sesiynau grŵp. Fan hyn, yn ôl y Theori Newid, pan fo rhieni'n mynychu sesiwn grŵp, cynhelir sgyrsiau rhyngddynt a'r swyddogion Cymraeg i Blant, a rhennir gwybodaeth er mwyn iddynt gael cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth. Y theori yw bod cael cefnogaeth a chyngor yn arwain at rieni'n dod yn fwy ymwybodol o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg, a hefyd yn fwy tueddol o ganfod drostynt eu hunain y dewisiadau addysg a'r ddarpariaeth arall sydd ar gael iddynt. Tybiaeth allweddol yn y rhan hon o'r Theori Newid yw bod darparu gwybodaeth - trwy sgyrsiau a thrwy ddeunyddiau mewn amryw fformatau - yn arwain at fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r Theori Newid yn tybio hefyd bod rhieni'n agored i ystyried y wybodaeth a ddarperir iddynt.


4.13 Mae'r lefel nesaf yn disgrifio'r canlyniadau a ddamcaniaethir i fod yn rhagflaenydd i'r effaith tymor hirach. Mae'r canlyniadau disgwyliedig hyn yn cynnwys rhieni'n cael mwy o wybodaeth am weithgareddau cyfrwng Cymraeg, y maent wedyn yn dewis eu defnyddio. Wedyn, wrth i blant gyrraedd oedran ysgol, rhagwelir bod rhieni'n fwy tebygol o wneud cais am le cyfrwng Cymraeg. Rhagwelir hefyd bod rhieni sy'n medru'r Gymraeg yn fwy tebygol o ddefnyddio a throsglwyddo'r iaith i'w plentyn. Er mwyn i'r canlyniadau hyn arwain at effaith tymor hirach, mae angen i nifer o ffactorau eraill fod yn eu lle, a thybir fan hyn bod y cyfleoedd dysgu ar gael, bod yna gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned, ac yn hollbwysig, bod cyflenwad o leoedd ysgol cyfrwng Cymraeg.

4.14 Mae Ffigur 7 yn gosod y gwahanol gamau dan haen y rhaglen sy'n canolbwyntio ar waith partneriaeth Cymraeg i Blant, ac unwaith eto'n arwain at effaith tymor hirach disgwyliedig, sef cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg adref, yn yr ysgol ac yn y gymuned.

4.15 Ar y lefel gyntaf (gan gysylltu'r blychau mewnbwn â'r blychau gweithgareddau), mae'r Theori Newid ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn datgan bod y cyllid, yr amser a chyfraniadau mewn da Llywodraeth Cymru ac eraill, yn galluogi'r contractwr i gysylltu â phartneriaid, cwrdd â nhw a/neu ddarparu gwybodaeth am sesiynau grŵp Cymraeg i Blant ac am y ddarpariaeth a'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn fwy cyffredinol. Tybiaeth allweddol sy'n sail i'r Theori Newid hon yw bod partneriaid yn fodlon ac yn gallu ymgysylltu â'r rhaglen ac yn barod i dderbyn y wybodaeth a gânt. Os ydynt yn barod i dderbyn y wybodaeth yna gallai'r camau sy'n dilyn gynnwys partneriaid a swyddogion Cymraeg i Blant yn cyd-gyflwyno i'r gynulleidfa darged, bod y partneriaid yn hysbysu'r rhieni ynghylch sesiynau grŵp Cymraeg i Blant neu ynghylch y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac/neu swyddogion Cymraeg i Blant yn dylanwadu ar y gwaith o gyflwyno sesiynau grŵp i bartneriaid.

4.16 Ar lefel nesaf y Theori Newid mae'r allbynnau, sef canlyniadau uniongyrchol cydweithio rhwng swyddogion a phartneriaid Cymraeg i Blant a chanlyniadau unrhyw sesiynau grŵp a ddarperir ar y cyd. Fan hyn, mae'r Theori Newid yn cynnig, pan fydd perthynas waith rhwng swyddogion a phartneriaid Cymraeg i Blant, mae'r partneriaid yn rhoi gwybod i'w cleientiaid am sesiynau grŵp Cymraeg i Blant a sesiynau cyfrwng Cymraeg eraill, a bo'r rhieni hynny'n mynd ati i fynychu. Dyma lle mae'r Theori Newid Partneriaeth yn cydgyfeirio gyda'r Theori Newid ar gyfer sesiynau grŵp.

**Ffigur 7: Theori Newid: Partneriaethau**





4.17 Mae Ffigur 8 yn cyflwyno’r holl gamau sy’n ymwneud â rheolaeth Llywodraeth Cymru o’r rhaglen. Y tro hwn, mae’r camau’n dechrau gyda mewnbynnau amser staff ac adnoddau sy’n galluogi tair set gydgysylltiedig o weithgareddau: ymgysylltu â’r cyhoedd, arweiniad a chynllunio, a monitro. Ni fanylir ar rôl strategol Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno gweithgareddau eraill sy’n cyfrannu at nodau trosfwaol strategaeth *Cymraeg 2050* yn y Theori Newid. Fodd bynnag, mae rhai o’r canlyniadau a’r effeithiau tymor hir a drafodir yn adran 4.37 yn ymwneud â thargedau trosfwaol y Strategaeth, sef:

- nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050;

- canran y boblogaeth sy’n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy’n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.

Mae’r Theori Newid yn dangos bod Llywodraeth Cymru’n chwarae rôl alluogi gyda gweithgareddau ymgysylltu â’r cyhoedd yn arwain at bartneriaid a rhieni’n dod yn fwy ymwybodol o’r rhaglen Cymraeg i Blant a darpariaeth a gwasanaethau Cymraeg eraill. Mae’r arweiniad a’r llywio (a’r monitro cysylltiedig) yn galluogi’r contractwr i gyflwyno gweithgareddau a chyflawni ei weithio mewn partneriaeth. Mae’r Theori Newid hon yn ymgorffori llawer o’r un tybiaethau â’r ddwy Theori Newid flaenorol, sef bod y partneriaid a’r rhieni’n barod i dderbyn y wybodaeth a ddaw i law o’r rhaglen. Mae lefel nesaf y Theori Newid yn cydgyfeirio â’r ddwy Theori Newid flaenorol gan fod yr allbynnau ac yna’r canlyniadau’n deillio o’r contractwr yn darparu sesiynau grŵp a gweithio mewn partneriaeth.

## Ffigur 8: Theori Newid: Rôl Llywodraeth Cymru




**Ffigur 9: Theori Newid Drosfwaol Cymraeg i Blant**

**Rhesymeg:** Nod Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg trwy gefnogi:

- rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill y teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a throsglwyddo'r Gymraeg i'w plant;
- datblygiad ieithyddol y plant mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.

Trwy'r nodau a'r amcanion hyn, ceisia'r rhaglen gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

- **Cyllid ac amser** staff Llywodraeth Cymru, contractwyr ac adnoddau Cymraeg i Blant
- **Cyfraniadau mewn da** gan bartneriaid strategol
- **Amser staff** heb fod yn staff Cymraeg i Blant (Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner)




Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg adref, yn yr ysgol ac yn y gymuned

4.18 Mae Ffigur 9 yn dangos nad yw tair Theori Newid elfennau unigol y rhaglen yn sefyll ar eu pen eu hunain a'u bod, yn hytrach, yn gydgysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol. Mae gan y tair Theori Newid yr un mewnbynnau o ran cyllid ac amser staff. Mae Ffigur 9 yn dangos y dybiaeth bod rhai o'r gweithgareddau a'r allbynnau o'r Theori Newid partneriaeth a Theori Newid Llywodraeth Cymru yn arwain at yr un canlyniadau â Theori Newid y sesiynau grŵp. Yn ogystal, tybir bod rhai o'r gweithgareddau a'r allbynnau o'r Theori Newid partneriaeth a Theori Newid rôl Llywodraeth Cymru yn arwain yn uniongyrchol at effaith tymor hir dymunol cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned, effaith tymor hir a rennir ar draws y tair Theori Newid.

### *Argaeledd data ac anghenion data i'r dyfodol*

4.19 Mae tair haen y Theori Newid a ddangosir uchod, ochr yn ochr â'r model trosfwaol a gyflwynir yn Ffigur 9, yn gosod y camau sy'n sail i'r rhaglen Cymraeg i Blant fel y'i deellir gan y gwerthuswyr. Ystyrir isod y data y byddai angen ei gasglu a'i ddadansoddi mewn perthynas â'r camau a ddynodwyd. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r data sydd ar gael ar hyn o bryd, adnabod anghenion data pellach, ac amlygu rhai o'r ystyriaethau a fydd angen sylw pellach wrth i'r Theori Newid gael ei mireinio ymhellach.

### *Data'n ymwneud â Mewnbynnau (pob Theori Newid)*

4.20 Dyma'r mewnbynnau a ddynodwyd ar gyfer pob rhan o'r rhaglen:

- Cyllid ac amser staff Llywodraeth Cymru, y contractwr a'r adnoddau.
- Amser staff heb fod yn rhai Cymraeg i Blant (Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner).
- Cyfraniadau mewn da gan bartneriaid strategol (e.e. darparu lleoliadau).

4.21 Gwyddwn y mewnbwn cyllid, gyda gwerth contract cyfredol o £725,000 y flwyddyn (gweler paragraff 1.4). Nid yw mewnbwn amser staff Llywodraeth Cymru a mewnbynnau ychwanegol Llywodraeth Cymru a staff contractwyr eraill nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol dan y rhaglen Cymraeg i Blant yn cael eu mesur yn y gwerthusiad proses hwn. Fodd bynnag, dynodwyd bod y mewnbwn hwn yn chwarae rôl allweddol. Mae rhai o'r rhanddeiliaid y cyfwelwyd â hwy yn

cydweithredu’n gyson gyda swyddogion Cymraeg i Blant (e.e. trwy gyd-gyflwyno neu gynnal grwpiau, cwrdd â swyddogion mewn fforymau lleol) ac unwaith eto er nad oedd hi’n bosibl mesur eu cyfraniad, maen nhw’n chwarae rôl glir wrth gyrraedd y canlyniadau. Er enghraifft, mae rhanddeiliaid fel ymwelwyr iechyd, cydlynwyr rhaglenni magu plant yn dweud wrth eu rhieni am sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, felly maen nhw’n chwarae rôl allweddol wrth farchnata grwpiau Cymraeg i Blant ac yn dylanwadu ar benderfyniadau’r rhieni i fynychu. Gall lefel y cyfraniad fan hyn amrywio o gynnwys gweithgareddau Cymraeg i Blant ar restr gryno mewn cylchlythyr sefydliad arall neu dudalen Facebook i gyflwyniad manylach lle gwahoddir swyddog Cymraeg i Blant i gyflwyno mewn sesiwn cyn-geni neu fagu plant wedi’i threfnu gan fudiad partner. Mae adran 3.49 yn nodi’r amrywiaeth o lefelau cyswllt sy’n bodoli, a bydd angen i werthusiad deilliannau i’r dyfodol amcangyfrif graddfa’r cysylltiad.

4.22 Mae Tabl 4.1 yn dangos y ffynonellau data sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer mewnbynnau’r rhaglen (gan gynnwys eu hamledd casglu a’r data diweddaraf sydd ar gael) ochr yn ochr â’r data angenrheidiol ar gyfer gwerthusiad deilliannau i’r dyfodol ac unrhyw argymhellion, materion ac ystyriaethau cysylltiedig.

**Tabl 4.1: Argaeledd data ac anghenion yn ymwneud â mewnbynnau (pob rhan o’r rhaglen)**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion data i’r dyfodol ac argymhellion | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Cyllid ac amser staff Llywodraeth Cymru, contractwr ac adnoddau | Data Llywodraeth Cymru ar gyllid Cymraeg i Blant. Data contractwr ar nifer y staff cyfwerth ag amser llawn. | Data blynyddol a gesglir gan Lywodraeth Cymru. Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn a ddelir gan y contractwr. | Cyllid Cymraeg i Blant blynyddol; a ddylai nifer y staff cyfwerth ag amser llawn dan gontract Cymraeg i Blant gael eu coladu’n flynyddol | Ydy data ar nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn cael ei gofnodi’n systematig yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru? |
| Amser staff heb fod yn rhai Cymraeg i Blant (Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner) | Heb ei gofnodi ar hyn o bryd. Byddai angen casglu data ychwanegol. | Heb ei gofnodi ar hyn o bryd. | Data ar amser staff Llywodraeth Cymru a dreulir yn gweithio ar raglen Cymraeg i Blant | Mae’n bosibl nad yw’n realistig nac yn gymesur casglu data ar fewnbwn sefydliadau eraill. |
| Cyfraniadau mewn da gan bartneriaid strategol (e.e. darparu lleoliadau) | Heb ei gofnodi ar hyn o bryd. Byddai angen casglu data ychwanegol. | Heb ei gofnodi ar hyn o bryd. Mae’n bosibl fod swyddogion Cymraeg i Blant yn dal rhywfaint o’r wybodaeth. | Mae Llywodraeth Cymru a’r contractwr yn ystyried ymarferoldeb y data cofnodi ar gyfraniadau mewn da hysbys a'u gwerth. | Mae’n bosibl nad yw’n realistig nac yn gymesur casglu data ar gyfraniadau mewn da. |

### ***Data'n ymwneud â Gweithgareddau'r Rhaglen***

4.23 Mae gwybodaeth am argaeledd a ffynonellau cyfredol data, anghenion data i'r dyfodol ac argymhellion yn ogystal â materion ac ystyriaethau'n ymwneud â gweithgareddau'r rhaglen wedi'u hamlinellu isod.

*Data gweithgareddau: sesiynau grŵp*

4.24 Gwneir rhieni'n ymwybodol o sesiynau grŵp Cymraeg i Blant trwy amryw gyfryngau, fel yr amlinellir yng nghanfyddiadau'r gwerthusiad ac yn y Theori Newid yn Ffigur 6. Caiff y sesiynau grŵp hyn eu marchnata i rieni sydd wedyn yn penderfynu p'un ai i fynychu. Yna, yn ystod sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, cynhelir sgyrsiau rhwng swyddogion Cymraeg i Blant a rhieni am addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, ac am ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Rhennir gwybodaeth mewn amryw fformatau gyda rhieni a sefydliadau partner gan swyddogion Cymraeg i Blant am y rhaglen Cymraeg i Blant, addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae Tabl 4.2 yn gosod argaeledd y data a'r anghenion ar gyfer gweithgareddau'r rhaglen, sy'n ymwneud yn benodol â darparu'r sesiynau grŵp.

*Data gweithgareddau: partneriaethau*

4.25 Mae Tabl 4.3 yn nodi pa ddata sydd ar gael a pha ddata fyddai ei angen fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol ar gyfer gweithgareddau'r rhaglen sy'n ymwneud yn benodol â darparu sesiynau grŵp.

**Tabl 4.2: Argaeledd data ac anghenion yn ymwneud â gweithgareddau wrth gyflwyno sesiynau grŵp**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Gweithgareddau Cymraeg i Blant sy'n cael eu marchnata i rieni | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys niferoedd y digwyddiadau a drefnir gan swyddogion Cymraeg i Blant a thystiolaeth ansoddol o weithgarwch marchnata a hyrwyddo arall. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro cyfredol. Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu gwybodaeth am weithgarwch marchnata arall. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried pa ddata sydd ar gael ar weithgarwch marchnata (e.e. cyrhaeddiad deunyddiau Cymraeg i Blant ar wefan Llywodraeth Cymru). |
| Rhieni'n penderfynu mynychu'r sesiwn | Bydd adroddiadau monitro'r contractwr yn cynnwys niferoedd y rhieni a'r plant sy'n mynychu pob sesiwn | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro cyfredol. Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu gwybodaeth am sut clywodd rhieni am y rhaglen Cymraeg i Blant. | Mae'r data ar fynychwyr unigryw yn seiliedig ar amcangyfrif staff Cymraeg i Blant. Ydy data monitro Llywodraeth Cymru'n casglu gwybodaeth am sut clywodd y rhieni am y rhaglen Cymraeg i Blant? |
| Darparu gweithgareddau i deuluoedd mewn sesiynau grŵp Cymraeg i Blant | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys niferoedd y sesiynau grŵp a gyflwynwyd. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro cyfredol. | Mae'r data cyfredol yn ddigonol. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Sgyrsiau rhwng staff a rhieni Cymraeg i Blant am: addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys data ar nifer y sgyrsiau un-i-un. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro cyfredol. Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu hatgofion o sgyrsiau gyda swyddogion Cymraeg i Blant ynghylch: addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Gallai hyn helpu dilysu'r data cyfredol. | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb a chymesuredd casglu gwybodaeth fanylach gan y Contractwr a'r rhieni am natur y sgyrsiau rhwng swyddogion Cymraeg i Blant a rhieni. |
| Rhennir gwybodaeth mewn amryw fformatau gyda rhieni a phartneriaid gan staff Cymraeg i Blant am: Cymraeg i Blant, addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg | Adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru (mae deunyddiau ysgrifenedig ar gael ym mhob sesiwn grŵp Cymraeg i Blant) | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymarferoldeb casglu gwybodaeth am sut clywodd rhieni am y rhaglen Cymraeg i Blant. | A gofnodir data ar gyrhaeddiad gwybodaeth Cymraeg i Blant mewn fformat electronig (e.e. gwefan Llywodraeth Cymru, cyfathrebu trwy e-bost, dadansoddeg y cyfryngau cymdeithasol?) |

**Tabl 4.3 Argaeledd ac anghenion data yn ymwneud â gweithgareddau mewn gweithio mewn partneriaeth**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaid cyswllt staff Cymraeg i Blant | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys data ar gyfarfodydd, cyflwyniadau a digwyddiadau a fynychwyd gyda phartneriaid | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data ar gyfarfodydd, cyflwyniadau a digwyddiadau a fynychwyd gyda phartneriaid. | Nid yw data monitro'n cofnodi cysylltiadau aflwyddiannus gyda phartneriaid (h.y. cysylltiadau nad arweiniodd at gyfarfodydd neu gyflwyniadau) |
| Staff Cymraeg i Blant yn darparu gwybodaeth i bartneriaid | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys data ar gyfarfodydd gyda sefydliadau partner a chyflwyniadau a roddwyd iddynt | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro ar niferoedd y cyfarfodydd a chyflwyniadau i sefydliadau partner. Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried a ellir casglu data ar wybodaeth arall a ddarperir (e.e. dosbarthiad electronig amserlenni sesiwn y grŵp). | Mae angen ystyried ydy hi'n ymarferol ac yn gymesur casglu data ar wybodaeth a ddarperir, yn ogystal â chyfarfodydd a chyflwyniadau i sefydliadau partner. |
| Staff Cymraeg i Blant yn cwrdd â phartneriaid | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys data ar gyfarfodydd gyda sefydliadau partner a chyflwyniadau a roddwyd iddynt | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro ar niferoedd y cyfarfodydd a chyflwyniadau i sefydliadau partner. | Mae categorïau'r sefydliadau partner a restrwyd mewn adroddiadau monitro'n amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn. Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried a ddylid defnyddio categorïau cyson yn yr adroddiadau monitro. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i’r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaid yn fwy ymwybodol o weithgareddau Cymraeg i Blant | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy’r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Bydd angen casglu rhagor o ddata gan bartneriaid ar eu hymwybyddiaeth o’r rhaglen Cymraeg i Blant fel rhan o werthusiad i’r dyfodol (e.e. trwy ymchwil ansoddol neu drwy arolwg). | Bydd angen i werthusiad i’r dyfodol ystyried sut i gasglu data gan bartneriaid sydd heb gymryd rhan yn uniongyrchol trwy’r rhaglen Cymraeg i Blant. |
| Partneriaid yn rhoi gwybod i rieni am weithgareddau Cymraeg i Blant | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy’r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Bydd angen casglu rhagor o ddata gan rieni ar sut daethon nhw’n ymwybodol o’r rhaglen Cymraeg i Blant fel rhan o werthusiad i’r dyfodol (e.e. trwy ymchwil ansoddol neu drwy arolwg). | Dylai Llywodraeth Cymru a’r contractwr ystyried casglu data monitro gan rieni ar sut clywson nhw am y rhaglen Cymraeg i Blant. |
| Partneriaid yn rhoi gwybod i rieni am weithgareddau ac addysg cyfrwng Cymraeg eraill | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy’r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Bydd angen casglu rhagor o ddata gan bartneriaid ar y wybodaeth maen nhw’n cofio’i chael gan y rhaglen Cymraeg i Blant fel rhan o werthusiad i’r dyfodol (e.e. trwy ymchwil ansoddol neu drwy arolwg). | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol i gasglu’r data hwn. |
| Partneriaid yn fwy ymwybodol o weithgareddau, darpariaeth ac addysg Gymraeg | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy’r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Bydd angen casglu rhagor o ddata gan bartneriaid ar y wybodaeth y maen nhw’n cofio’i chael gan y rhaglen Cymraeg i Blant fel rhan o werthusiad i’r dyfodol (e.e. trwy ymchwil ansoddol neu drwy arolwg). | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol i gasglu’r data hwn. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaid yn cytuno cydweithredu gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys data ar gydweithredu ond nid ar y niferoedd sy'n cytuno i gydweithredu. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ychwanegu categori at y data monitro ar nifer y partneriaid sy'n cytuno cydweithredu, yn ogystal â chydweithredu gwirioneddol. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ydy hi'n realistig ac yn gymesur casglu data ar niferoedd y partneriaid sy'n cytuno cydweithredu. |
| Staff Cymraeg i Blant yn darparu sesiynau grŵp yn sesiynau digwyddiadau/grŵp y partneriaid | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o sesiynau a gyflwynwyd mewn rhianta, cyn geni, Cylch Ti a Fi a sesiynau digwyddiadau/grŵp i bartneriaid. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Dylai'r contractwr barhau i gasglu data monitro ar sesiynau yn sesiynau digwyddiadau/grŵp y partneriaid. | Ystyried y categorïau o sefydliadau partner i geisio cynnal cysondeb dros amser. |
| Mae staff Cymraeg i Blant yn cyd-gyflwyno sesiynau grŵp gyda phartneriaid | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o sesiynau a gyflwynwyd mewn grwpiau rhianta, cyn geni, Cylch Ti a Fi a sesiynau digwyddiadau/grŵp y partneriaid. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried a ddylai data monitro bennu cyd-gyflwyno fel categori ar wahân i gyflwyno mewn sesiwn partner. | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ydy hi'n ymarferol ac yn gymesur gwneud y gwahaniaeth hwn. |

| **Eitem** | **Ffynhonnell ddata gyfredol** | **Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf)** | **Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol** | **Materion ac ystyriaethau** |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Staff Cymraeg i Blant yn cynghori ynghylch, neu'n dylanwadu ar gyflwyno gweithgareddau'r partneriaid (e.e. hyfforddiant) | Mae adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru'n cynnwys nifer o gyflwyniadau i ymwelwyr iechyd a sesiynau hyfforddiant i fyfyrwyr bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro ar nifer o gyflwyniadau i ymwelwyr iechyd a sesiynau hyfforddiant i fyfyrwyr bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd. | Ystyried a oes categorïau cyngor eraill y gellir eu dal trwy'r data monitro. |

*Data gweithgareddau: rôl Llywodraeth Cymru*

4.26 Mae Tabl 4.4 yn nodi pa ddata sydd ar gael a pha ddata fyddai ei angen fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol ar gyfer y gweithgareddau'n ymwneud â rôl Llywodraeth Cymru.

**Tabl 4.4 Argaeledd ac anghenion data yn ymwneud â gweithgareddau yn rôl Llywodraeth Cymru**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Deunyddiau gwefan a phrint | Traffig ar y we i rannau perthnasol safle Cymraeg.gov<br><br>Nid yw data ar gylchrediad deunyddiau print yn hysbys. | Cesglir data ar draffig y we yn rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried a ddylid monitro data ystyrlon ar gyrhaeddiad deunyddiau Cymraeg i Blant. | Mae'n bosibl nad yw data ar gyrhaeddiad a thraffig y we yn ystyrlon. |
| Arweiniad a llywio | Nifer y cysylltiadau a chyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r contractwr. | Ni chesglir data'n systematig. | Dylai Llywodraeth Cymru gofnodi nifer y cyfarfodydd gyda'r contractwr. | Ystyried ydy hi'n ymarferol ac yn gymesur i gofnodi nifer y cysylltiadau eraill rhwng y contractwr a Llywodraeth Cymru. |
| Monitro | Adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Dylai Llywodraeth Cymru barhau gyda threfniadau monitro cyfredol. | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr adolygu cynnwys adroddiadau monitro ar ddechrau'r cyfnod contractio nesaf. |
| Mwy o wybodaeth ar gael i rieni | Swm y wybodaeth i rieni a luniwyd trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant | Nifer y dogfennau neu ffynonellau gwybodaeth newydd a ddatblygwyd gan y rhaglen Cymraeg i Blant. | Dylai Llywodraeth Cymru gofnodi'r wybodaeth hon yn flynyddol. | Ystyried p'un ai i gynnwys gwybodaeth a gyd-luniwyd gan y rhaglen Cymraeg i Blant a mentrau eraill Llywodraeth Cymru. |

### ***Data'n ymwneud ag Allbynnau'r Rhaglen***

*Data allbynnau: sesiynau grŵp*

4.27 Amlinella Ffigur 6 (Theori Newid y sesiynau grŵp) fod sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn cael eu marchnata i rieni, mae rhieni'n penderfynu mynychu'r sesiynau a gyflwynir, ac yna yn ystod sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, cynhelir sgyrsiau rhwng staff a rhieni Cymraeg i Blant, a rhennir gwybodaeth am addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae Tabl 4.5 yn nodi pa ddata sydd ar gael a pha ddata fyddai ei angen fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol ar gyfer allbynnau rhaglen Cymraeg i Blant sy'n ymwneud yn benodol â darparu sesiynau grŵp.

**Tabl 4.5: Argaeledd ac anghenion data yn ymwneud ag allbynnau wrth gyflwyno sesiynau grŵp**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Mwy o rieni a'u plant yn mynychu gweithgareddau Cymraeg i Blant. | Adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys niferoedd y rhieni sy'n mynychu pob sesiwn | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro ar rieni a'u plant sy'n mynychu gweithgareddau Cymraeg i Blant. | Data ar fynychwyr unigryw yn seiliedig ar amcangyfrif staff Cymraeg i Blant. |
| Rhieni'n cael rhagor o gyngor a chefnogaeth gan swyddogion Cymraeg i Blant mewn perthynas ag addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg, dysgu a defnyddio'r Gymraeg. | Adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys data ar nifer o sgyrsiau un-i-un. | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro cyfredol. Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu safbwyntiau ar swm y cyngor a'r wybodaeth a gânt ynghylch: addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Gallai hyn helpu i ddilysu'r data cyfredol. | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb a chymesuredd casglu gwybodaeth fanylach am natur y sgyrsiau gan y contractwr a'r rhieni. |
| Rhieni a phartneriaid yn cael rhagor o wybodaeth am: Cymraeg i Blant, addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni am y wybodaeth a gânt ynghylch: addysg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu'r data hwn. |

*Data allbynnau: partneriaethau*

4.28 Mae Tabl 4.6 yn nodi pa ddata sydd ar gael a pha ddata fyddai ei angen fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol ar gyfer allbynnau'r rhaglen sy'n ymwneud yn benodol â'r gwaith partneriaeth.

**Tabl 4.6: Argaeledd ac anghenion data'n ymwneud ag allbynnau mewn gwaith partneriaeth**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Mwy o rieni a'u plant yn mynychu gweithgareddau Cymraeg i Blant | Adroddiadau monitro'r contractwr i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys niferoedd y rhieni sy'n mynychu pob sesiwn | Adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru gan gynnwys data misol (diweddaraf ym mis Medi 2018) | Parhau i gasglu data monitro ar rieni a'u plant sy'n mynychu gweithgareddau Cymraeg i Blant. | Mae data ar fynychwyr unigryw yn seiliedig ar amcangyfrif staff Cymraeg i Blant. |
| Mwy o rieni a'u plant yn mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg arall | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu barn ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arall a fynychwyd, a dylanwad Cymraeg i Blant ar hyn. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol i gasglu'r data hwn. |
| Partneriaid yn cynyddu cynnwys Cymraeg eu sesiynau | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan bartneriaid ar gynnwys Cymraeg eu sesiynau eu hunain a dylanwad Cymraeg i Blant ar hyn. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol i gasglu'r data hwn. |
| Partneriaid yn fwy hyderus/yn gallu cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad proses | Ciplun un-tro 2018 | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan bartneriaid ar eu hyder wrth gyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dylanwad Cymraeg i Blant ar hyn. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol i gasglu'r data hwn. |
| Partneriaid yn cyflwyno mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd trwy'r gwerthusiad proses.<br>CSGAau Awdurdodau Lleol | Ciplun un-tro 2018<br>Bob tair blynedd | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan bartneriaid ar gynnwys Cymraeg eu sesiynau eu hunain a dylanwad Cymraeg i Blant ar hyn. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol i gasglu'r data hwn. |

*Data allbynnau: Llywodraeth Cymru*

4.29 Mae allbynnau'r haen hon, ac felly'r ffynonellau a'r gofynion data perthnasol ar gyfer casglu tystiolaeth ar gyflawniad yr allbynnau hyn, yr un fath â'r rhai yn yr haen bartneriaethau (gweler adran 4.28 uchod).

***Data'n ymwneud â Chanlyniadau'r Rhaglen***

4.30 Amlinellir isod wybodaeth am argaeledd a ffynonellau data cyfredol, anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol, yn ogystal â materion ac ystyriaethau yn ymwneud â chanlyniadau'r rhaglen.

*Data canlyniadau: sesiynau grŵp*

4.31 Mae Tabl 4.7 yn nodi'r data sydd ar gael a pha ddata fyddai ei angen fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol ar gyfer gweithgareddau'r rhaglen yn ymwneud yn benodol â darparu'r sesiynau grŵp.

**Tabl 4.7 Argaeledd ac anghenion data yn ymwneud ag allbynnau wrth gyflwyno sesiynau grŵp**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Mae rhieni'n fwy tebygol o: | | | | |
| Fynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar arall a gyflwynir yn y Gymraeg. | (i) Data Mudiad Meithrin ar gyfranogiad mewn Cylchoedd Ti a Fi<br><br>(ii) Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant (CSA) - adroddiadau awdurdodau lleol ar y galw a'r cyflenwad am ofal plant cyfrwng Cymraeg<br><br>(iii) Defnydd o ofal plant cyfrwng Cymraeg a gesglir yn Arolwg Cenedlaethol Cymru<br><br>(iv) Datganiad Hunanasesu Gwasanaethau Arolygiaeth Gofal Cymru (SASS) 2016 SASS<br><br>(v) Data ffurflenni adborth rhieni'r contractwr ar y tebygolrwydd o ddewis Cylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin | (i) Ar hyn o bryd, caiff data ei gasglu ar lefel Ti a Fi a Chylch unigol a'i goladu mewn trosolwg cenedlaethol a ddarperir i Lywodraeth Cymru.<br><br>(ii) Mae CSAau yn adrodd pob pum mlynedd, ond gyda rhai diweddariadau blynyddol. Mae'r CSAau cyfredol yn cynnwys rhai manylion ar y defnydd o ofal plant cyfrwng Cymraeg, ond amrywiadau ar hyn o bryd yn y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn adrodd ar leoedd gwag ac wedi'u llenwi.<br><br>(iii) Crynhoir y llun cyfredol yn y Bwletin Gofal Plant a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2018. Casglwyd y data ym mis Ebrill 2016 – Mawrth 2017. Fodd bynnag, ni chrynhoir y data sydd ar gael yn gyhoeddus yn ôl ALl/oedran plant/math o ofal plant. Mae'r canlyniadau'n seiliedig ar sampl o'r boblogaeth a ymatebodd i'r arolwg. Roedd maint y sampl ar gyfer y cwestiwn ar ofal plant Cymraeg yn gymharol fach gydad 500 o rieni plant 0-14 oed oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol.<br><br>(iv) Mae data ar gael o'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) ar gyfer 2016, mae'r SASSnesaf wedi'i gynllunio ar gyfer yr Hydref 2019.<br><br>(v) Data diweddaraf hyd at fis Mawrth 2018. Fe'i coladir bob chwarter. | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu canfyddiad o'r effaith y mae Cymraeg i Blant wedi'i chael ar eu penderfyniadau i fynychu gweithgareddau darpariaeth blynyddoedd cynnar eraill a gyflwynir yn y Gymraeg.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ddefnyddio'r erfyn a ddefnyddir i gasglu adborth gan rieni a'r data deilliannol ac ystyried a allai hwn gael ei ddefnyddio (neu ei fireinio at ddefnydd) fel rhan o werthusiad effaith i'r dyfodol.<br><br>Gallai data proffil gwaelodlin manylach gael ei gasglu gan rieni ar ddechrau'u hymgysylltiad (e.e. bwriadau mewn perthynas â mynychu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg arall), gan adeiladu ar y data proffil a gesglir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu data gan rieni.<br><br>Bydd angen i werthusiad deilliannau i'r dyfodol ystyried bod rhai o'r ffynonellau data eilaidd yn cael eu rhestru fel rhai un-tro neu nad oes modd eu hailadrodd. Gallai hyn effeithio ar ymarferoldeb defnyddio'r ffynonellau hyn fel rhan o werthusiad i'r dyfodol. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud cais am le i'w plentyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg | (i) Data awdurdodau lleol ar niferoedd y ceisiadau am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg<br>(ii) Cyfraddau pontio o Gylchoedd Meithrin i ysgolion cyfrwng Cymraeg<br>(iii) Arolygon awdurdodau lleol o'r galw gan rieni<br>(iv) Data gan ffurflenni adborth rhieni'r contractwr ar y tebygolrwydd o ddewis Cylch Ti a Fi neu Gylch Meithrin | (i) Nid yw amledd ac argaeledd y ffynhonnell yn hysbys.<br>(ii) Darperir cyfraddau pontio o Gylchoedd Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r adroddiad data blynyddol. Rhennir y rhain hefyd gydag awdurdodau lleol i'w cynnwys mewn CSGAau.<br>(iii) Mae rheoliadau Llywodraeth Cymru'n gofyn i awdurdodau lleol fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg bob tair blynedd o leiaf. Mae amleddau a methodolegau'n amrywio ar draws ardaloedd.<br>(v) Data diweddaraf hyd at fis Mawrth 2018. Coladir bob chwarter. | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu canfyddiad o'r effaith y mae Cymraeg i Blant wedi'i chael ar eu penderfyniadau i wneud cais am le mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plentyn.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr adolygu'r erfyn a ddefnyddir i gasglu adborth gan rieni a'r data deilliannol ac ystyried a allai hyn gael ei ddefnyddio (neu ei fireinio i ddefnyddio) fel rhan o werthusiad o ddeilliannau i'r dyfodol.<br><br>Gallai data proffil gwaelodlin manylach gael ei gasglu gan rieni ar ddechrau eu hymgysylltiad (e.e. bwriadau'n ymwneud â chyfrwng addysg eu plentyn), adeiladu ar y data proffil sy'n cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu data gan rieni. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Defnyddio darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg | Data ALI ar gyfranogiad mewn addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. (SASS, CSGA, arolygon Nifer ar y Gofrestr dymhorol yr Awdurdodau Lleol, CYBLD) | CSGA bob tair blynedd<br><br>SASS yn flynyddol o Hydref/Gaeaf 2019<br><br>Data ALI – yn dymhorol mewn rhai ardaloedd<br><br>CYBLD – yn flynyddol | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu canfyddiad o'r effaith y mae Cymraeg i Blant wedi'i chael ar eu penderfyniadau i wneud cais am le mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.<br><br>Gallai mwy o ddata proffil gwaelodlin manylach gael ei gasglu gan rieni ar ddechrau eu hymgysylltiad (e.e. bwriadau mewn perthynas â chyfrwng darpariaeth blynyddoedd cynnar eu plentyn), adeiladu ar y data proffil sy'n cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu data gan rieni.<br><br>Bydd angen i werthusiad deilliannau i'r dyfodol ystyried bod rhywfaint o'r ffynonellau data eilaidd a restrwyd (e.e. SASS) yn rhai un-tro neu na fyddant yn cael eu hailadrodd. Gallai hyn effeithio ar ymarferoldeb defnyddio'r ffynonellau hyn fel rhan o werthusiad i'r dyfodol. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Trosglwyddo'r iaith i'w plant | Data'r cyfrifiad ar gyfraddau trosglwyddo | Bob 10 mlynedd. Y data diweddaraf yw 2011. | Dylai'r gwerthusiad deilliannau i'r dyfodol adolygu argaeledd data'r cyfrifiad.<br><br>Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar eu canfyddiad ar yr effaith y mae Cymraeg i Blant wedi'i chael ar eu penderfyniadau i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plentyn.<br><br>Gallai mwy o ddata proffil gwaelodlin manylach gael ei gasglu gan rieni ar ddechrau eu hymgysylltiad (e.e. bwriadau'n ymwneud â throsglwyddo iaith ymhlith siaradwyr Cymraeg), gan adeiladu ar y data proffil sy'n cael ei gasglu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. | Mae'n bosibl na fyddai data'r Cyfrifiad ar gael adeg gwneud y gwerthusiad. |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Dysgu Cymraeg | Mae data wrthi'n cael ei gasglu ar broffil dysgwyr Cymraeg i Oedolion, y rhesymau am ymrestru ar gwrs. | Mae dulliau casglu data wedi'u mireinio ar waith er 2017. Mae'r rhyddhad cyntaf yn debygol tuag at ddiwedd 2019. | Mae'r ffynhonnell hon yn ddefnyddiol o bosibl ar gyfer gwerthusiad i'r dyfodol, yn enwedig y data ar resymau'r oedolion ar fynychu cwrs. Mae'r dewisiadau i ymateb i hyn yn cynnwys 'addysg Plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg' | Heb fod ar gael eto felly nid yw'r union fanylion yn hysbys. |
| Mae gan rieni fwy o ymwybyddiaeth a gwybodaeth am: Cymraeg i Blant, addysg cyfrwng Cymraeg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. | Nid oes data'n cael ei gasglu gan rieni cyfrannog ar hyn o bryd. | Ddim ar gael ar hyn o bryd. | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar y dylanwad y mae Cymraeg i Blant wedi'i gael ar eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth am: Cymraeg i Blant, addysg cyfrwng Cymraeg, darpariaeth a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg; dysgu a defnyddio'r Gymraeg. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu data gan rieni. |

| **Eitem** | **Ffynhonnell ddata gyfredol** | **Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf)** | **Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol** | **Materion ac ystyriaethau** |
|---|---|---|---|---|
| Mae rhieni a'u plant yn defnyddio mwy o Gymraeg adref yn y gymuned. | (i) Arolwg defnydd o'r Gymraeg / Arolwg Cenedlaethol Cymru<br><br>(ii) Nid oes data'n cael ei gasglu gan rieni cyfrannog ar hyn o bryd. | (i) 2013-15 / cipluniau ad-hoc<br><br>(ii) Ddim ar gael ar hyn o bryd | Dylai gwerthusiadau i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar y dylanwad y mae Cymraeg i Blant wedi'i chael ar eu defnydd o'r Gymraeg.<br><br>Gallai data proffil gwaelodlin manylach gael ei gasglu gan rieni ar ddechrau eu hymgysylltiad (e.e. bwriadau mewn perthynas â'r defnydd o'r iaith), adeiladu ar y data proffil a gesglir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu data gan rieni. |
| Mae rhieni a'u plant yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg. | Nid oes data'n cael ei gasglu gan rieni cyfrannog ar hyn o bryd. | Ddim ar gael ar hyn o bryd. | Dylai gwerthusiad i'r dyfodol gasglu data gan rieni ar y dylanwad y mae Cymraeg i Blant wedi'i chael ar eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. | Bydd angen ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer casglu data gan rieni. |

*Data canlyniadau: partneriaethau*

4.32 Mae’r canlyniadau ar gyfer yr haen hon, ac felly’r ffynonellau data a’r gofynion perthnasol ar gyfer casglu tystiolaeth o gyflawniad y canlyniadau hyn, yr un fath â’r rhai yn y Theori Newid sy’n canolbwyntio ar sesiynau grŵp.

*Data canlyniadau: Llywodraeth Cymru*

4.33 Mae’r canlyniadau ar gyfer yr haen hon, ac felly’r ffynonellau data a’r gofynion perthnasol ar gyfer casglu tystiolaeth o gyflawni'r canlyniadau hyn, yr un fath â’r rhai yn y Theori Newid sy’n canolbwyntio ar sesiynau grŵp.

***Data’n ymwneud ag effeithiau tymor hirach***

4.34 Amlinellir isod wybodaeth am argaeledd a ffynonellau data cyfredol, anghenion data ac argymhellion i’r dyfodol, yn ogystal â materion ac ystyriaethau’n ymwneud ag effeithiau tymor hirach y rhaglen. Mae’r effeithiau tymor hirach a osodwyd yn y Theori Newid yn gysylltiedig â’r nodau trosfwaol (gweler adran 4.17) a’r newidiadau trawsnewidiol canlynol yn strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru.

- Gwneud cynnydd cyflym i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar i 150 yn fwy o grwpiau meithrin dros y degawd nesaf er mwyn hwyluso dilyniant i addysg cyfrwng Cymraeg;
- Cynyddu’r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy’n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o 22 y cant (sy’n seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30 y cant (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031, ac yna i 40 y cant (tua 14,000 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2050.

*Data effaith tymor hwy: sesiynau grŵp*

4.35 Mae Tabl 4.8 yn rhestru’r data sydd ar gael ar gyfer effeithiau tymor hirach wrth gyflwyno sesiynau grŵp.

**Tabl 4.8: Argaeledd ac anghenion data yn ymwneud ag effeithiau tymor hirach wrth gyflwyno sesiynau grŵp**

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg | Data Cymraeg i Oedolion | Ddim yn hysbys | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried datblygu arf asesu gwaelodlin i'w ddefnyddio yn gynnar yn ymgysylltiad y rhieni â'r rhaglen a bod arf crynodol yn galluogi ar gyfer casglu data tebyg ar ôl cyfnod o gyfranogiad yn y rhaglen. Gallai'r math hwn o ddata gael ei gasglu trwy gynyddu swm y data proffil gwaelodlin a gasglwyd wrth rieni gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau eu hymgysylltiad a chasglu data dilyn-i-fyny ar ôl cyfnod o gymryd rhan mewn Cymraeg i Blant. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu data gwaelodlin a dilyn i fyny gan yr un rhieni. Byddai angen dull o gysylltu'r waelodlin ac asesiad dilyn i fyny (e.e. dynodwr unigryw). |
| Cynnydd yn nifer (a chanran) y rhieni sy'n trosglwyddo'r iaith i'w plant | Data'r cyfrifiad ar gyfraddau trosglwyddo | Bob 10 mlynedd. Data diweddaraf yw 2011 | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried datblygu arf asesu gwaelodlin i'w ddefnyddio'n gynnar yn ymgysylltiad y rhieni â'r rhaglen ac arf crynodol sy'n galluogi ar gyfer casglu data tebyg ar ôl cyfnod o gyfranogiad yn y rhaglen. Gallai'r math hwn o ddata gael ei gasglu trwy gynyddu swm y data proffil gwaelodlin a gesglir wrth rieni gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau eu hymgysylltiad a chasglu data dilyn i fyny ar ôl cyfnod o gyfranogiad mewn Cymraeg i Blant. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu data gwaelodlin a dilyn i fyny gan yr un rhieni. Byddai angen dull o gysylltu'r waelodlin ac asesiad dilyn i fyny (e.e. dynodwr unigryw). |

| **Eitem** | **Ffynhonnell ddata gyfredol** | **Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf)** | **Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol** | **Materion ac ystyriaethau** |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer (canran) y plant sy'n troi at ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg | Data ALI ar gyfranogiad mewn addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (SASS, CSGA)<br>Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynd i mewn i ddosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Data CYBLD, Llywodraeth Cymru; data gan y Mudiad Meithrin ar nifer a % y plant sy'n trosglwyddo o'r Cylch Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg | Bob 3 blynedd<br><br>Yn flynyddol | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried datblygu arf asesu gwaelodlin i'w ddefnyddio'n gynnar yn ymgysylltiad y rhieni â'r rhaglen ac arf crynodol sy'n galluogi ar gyfer casglu data tebyg ar ôl cyfnod o gyfranogiad yn y rhaglen. Gallai'r math hwn o ddata gael ei gasglu trwy gynyddu swm y data proffil gwaelodlin a gesglir wrth rieni gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau eu hymgysylltiad a chasglu data dilyn i fyny ar ôl cyfnod o gyfranogiad mewn Cymraeg i Blant. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu data gwaelodlin a dilyn i fyny gan yr un rhieni. Byddai angen dull o gysylltu'r waelodlin ac asesiad dilyn i fyny (e.e. dynodwr unigryw). |
| Cynnydd yn nifer (canran) y plant sy'n mynd i mewn i addysg cyfrwng Cymraeg | Nifer a chanran y disgyblion sy'n mynd i mewn i ddosbarthiadau meithrin a derbyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Data CYBLD, Llywodraeth Cymru | Blynyddol | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried datblygu arf asesu gwaelodlin i'w ddefnyddio'n gynnar yn ymgysylltiad y rhieni â'r rhaglen ac arf crynodol sy'n galluogi ar gyfer casglu data tebyg ar ôl cyfnod o gyfranogiad yn y rhaglen.<br><br>Gallai'r math hwn o ddata gael ei gasglu trwy gynyddu swm y data proffil gwaelodlin a gesglir wrth rieni gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau eu hymgysylltiad a chasglu data dilyn i fyny ar ôl cyfnod o gyfranogiad mewn Cymraeg i Blant. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a chontractwr ystyried ymarferoldeb casglu data gwaelodlin a dilyn i fyny wrth yr un rhieni. Byddai angen dull o gysylltu'r waelodlin ac asesiad dilyn i fyny (e.e. dynodwr unigryw). |

| Eitem | Ffynhonnell ddata gyfredol | Argaeledd data cyfredol (amledd, data diweddaraf) | Anghenion ac argymhellion data i'r dyfodol | Materion ac ystyriaethau |
|---|---|---|---|---|
| Cynnydd yn y galw am ddarpariaeth ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg | Data awdurdod lleol ar niferoedd y ceisiadau am leoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg. | Data ALI, blynyddol. Ni wyddys a gasglwyd ar raddfa genedlaethol | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried datblygu arf asesu gwaelodlin i'w ddefnyddio'n gynnar yn ymgysylltiad y rhieni â'r rhaglen ac arf crynodol sy'n galluogi ar gyfer casglu data tebyg ar ôl cyfnod o gyfranogiad yn y rhaglen.<br><br>Gallai'r math hwn o ddata gael ei gasglu trwy gynyddu swm y data proffil gwaelodlin a gesglir wrth rieni gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau eu hymgysylltiad a chasglu data dilyn i fyny ar ôl cyfnod o gyfranogiad mewn Cymraeg i Blant. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu data gwaelodlin a dilyn i fyny gan yr un rhieni. Byddai angen dull o gysylltu'r waelodlin ac asesiad dilyn i fyny (e.e. dynodwr unigryw). |
| Cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref, yn yr ysgol a'r gymuned | Arolwg defnydd o'r Gymraeg / Arolwg Cenedlaethol Cymru | 2013-15 / Blynyddol | Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried datblygu arf asesu gwaelodlin i'w ddefnyddio'n gynnar yn ymgysylltiad y rhieni â'r rhaglen ac arf crynodol sy'n galluogi ar gyfer casglu data tebyg ar ôl cyfnod o gyfranogiad yn y rhaglen. Gallai'r math hwn o ddata gael ei gasglu trwy gynyddu swm y data proffil gwaelodlin a gesglir wrth rieni gan Lywodraeth Cymru ar ddechrau eu hymgysylltiad a chasglu data dilyn i fyny ar ôl cyfnod o gyfranogiad mewn Cymraeg i Blant. | Bydd angen i Lywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried ymarferoldeb casglu data gwaelodlin a dilyn i fyny gan yr un rhieni. Byddai angen dull o gysylltu'r waelodlin ac asesiad dilyn i fyny (e.e. dynodwr unigryw). |

*Data effaith tymor hirach: partneriaethau*

4.36 Mae'r effeithiau tymor hirach ar gyfer yr haen hon, ac felly'r ffynonellau data perthnasol ar gyfer casglu tystiolaeth o gyflawniad yr effeithiau hyn, yr un fath â'r rhai sy'n canolbwyntio ar gyflwyno sesiynau grŵp.

*Data effaith tymor hirach: Rôl Llywodraeth Cymru*

4.37 Mae'r effeithiau tymor hir ar gyfer yr haen hon, ac felly'r ffynonellau data perthnasol ar gyfer casglu tystiolaeth o gyflawniad yr effeithiau hyn, yr un fath â'r rhai sy'n canolbwyntio ar gyflwyno sesiynau grŵp. Mae targedau trosfwaol strategaeth *Cymraeg 2050* (gweler adran 4.17) yn berthnasol hefyd i rôl Llywodraeth Cymru yn y rhaglen Cymraeg i Blant.

**Gwerthusiad y rhaglen i'r dyfodol**

4.38 Bydd mireinio'r Theori Newid yn gam allweddol mewn unrhyw werthusiad o ddeilliannau'r rhaglen i'r dyfodol. Datblygwyd y Theori Newid a gyflwynir uchod gan y tîm gwerthuso trwy drafod gyda Llywodraeth Cymru a thynnu oddi ar waith maes y gwerthusiad. Nid yw'n cynnwys mewnbwn y contractwyr na'r rhieni, a bydd angen ei brofi a'i ddatblygu ymhellach gyda'r rhanddeiliaid hyn. Yn hynny o beth, mae'r Theori Newid a gyflwynir fan hyn yn ddrafft a bwriedir iddo fod yn sail i fireinio pellach.

4.39 Efallai bod angen haenau pellach i'r Theori Newid, neu angen egluro'r gwahanol lwybrau y gallai gwahanol grwpiau o rieni eu dilyn trwy'r rhaglen: er enghraifft, y rhai heb unrhyw sgiliau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg rhugl, neu rieni gyda gwahanol lefelau hyder mewn perthynas â defnyddio'u sgiliau. Mae'r theori (theorïau) newid posibl yn debygol o wahaniaethu ar gyfer y gwahanol grwpiau hyn o rieni. Nid yw'r Theorïau Newid drafft cyfredol yn tyrchu i'r gwahanol deithiau a gwahanol fannau cychwyn hyn, a byddai angen iddynt gael eu harchwilio ar gyfer unrhyw werthusiad deilliannau i'r dyfodol (e.e. trwy ystyried gwahanol ddulliau o gasglu data gwaelodlin a chrynodol gan rieni a phartneriaid i asesu'r pellter a deithiwyd). Yn yr un modd, mae'r Theori Newid yn ei drafft cyfredol wedi'i hynysu i raddau helaeth o ystyriaethau polisi ehangach ac o drefniadau rhaglenni ac ariannu eraill. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad wedi dangos yn glir bod y rhaglen Cymraeg i Blant yn

un rhan o ddarlun llawer yn fwy o ddull Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050, a bydd angen i unrhyw fireinio pellach ar y Theori Newid ystyried hyn.

4.40 Bydd angen i werthusiad deilliannau i'r dyfodol fynd i'r afael â nifer o ystyriaethau sy'n ymwneud â sbectrwm eang nodweddion rheini sy'n elwa o'r rhaglen, gan reoli ar gyfer gweithgareddau ac amodau ehangach a allai hefyd ddylanwadu ar ymddygiadau a chanlyniadau, a phriodoli newid i'r rhaglen ei hun . Gallai'r gwerthuswyr ystyried dull lled arbrofol, trwy sefydlu grŵp cymaryddion o rieni a phlant (gyda nodweddion tebyg i deuluoedd sy'n cymryd rhan mewn Cymraeg i Blant) sydd heb elwa neu heb gael eu heffeithio gan weithgareddau'r rhaglen. Gallai hyn o bosibl alluogi gwerthuswr i astudio unrhyw wahaniaethau a arsylwyd rhwng teuluoedd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Cymraeg i Blant a'r grŵp cymaryddion. Fodd bynnag, byddai heriau'n gysylltiedig â'r dull hwn, o gofio cyrhaeddiad y rhaglen a'r ffactorau allanol mewn gwahanol gyd-destunau daearyddol a chymdeithasol-ieithyddol. Byddai angen i'r dull ystyried y ffactorau hyn.

4.41 Gallai casglu data 'cyn ac wedyn' hefyd ffurfio rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol. Byddai sefydlu data gwaelodlin (cyn cyfranogiad Cymraeg i Blant) ar gyfer mesuryddion allweddol (fel y rhai a ddynodwyd yn Nhablau 4.1- 4.8) ac yna asesu'r 'pellter a deithiwyd' yn darparu mesur o gynnydd yn erbyn y safle gwaelodlin (ar ôl cyfranogiad Cymraeg i Blant). Er na fyddai'r dull hwn yn galluogi'r gwerthusiad i briodoli'r 'canlyniadau gros' hyn i'r rhaglen, gallai ddarparu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad pellach trwy ymchwil cynradd. Mae'n bwysig cydnabod nad ystyrir bod y dull hwn mor gadarn â dulliau lled-arbrofol neu ddadansoddiad o dueddiadau, gyda nifer o gyfyngiadau wedi'u hamlygu, megis methu profi achosiaeth uniongyrchol a risg o duedd (Nesta a'r *Alliance for Useful Evidence*, 2016).[18] Yn wir, mae'r *Magenta Book* yn nodi bod y dull hwn '*only really has any credibility when the system being studied is so simple that the policy is the only thing that could reasonably be expected to influence the result'* (Trysorlys EM, 2011).[19]

4.42 Gallai gwerthusiad deilliannau i'r dyfodol ystyried dadansoddi tueddiadau mewn data eilaidd hefyd (e.e. mewn cyfraddau trosglwyddo, ceisiadau am ysgolion a

---

[18] Nesta a'r *Alliance for Useful Evidence* (2016), [Using research evidence: a practice guide](). [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].
[19] Trysorlys EM (2011) *[The Magenta Book: Guidance for evaluation]()*. [Cyrchwyd: 17 Ionawr 2019].

meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg) er mwyn ceisio cadarnhau a arsylwir gwahaniaethau arwyddocaol (ar wahanol lefelau daearyddol) yn dilyn gweithrediad Cymraeg i Blant. Gellid defnyddio data o'r adeg cyn cyflwyno Cymraeg i Blant fel gwaelodlin i sefydlu tuedd y byddid wedi ei ragweld yn parhau, a allai gael ei gymharu wedyn â data a arsylwyd. Er y byddai gan y dull hwn gyfyngiadau sylweddol o ran priodoli unrhyw newidiadau i'r rhaglen Cymraeg i Blant, gallai ddarparu tystiolaeth a fyddai'n deilwng o ymchwiliad pellach trwy ymchwil cynradd. Fel gyda dulliau lled-arbrofol, byddai angen i'r dull hwn ystyried dylanwad ffactorau allanol.

4.43 Byddai hefyd angen ystyried yr amser mwyaf priodol i gasglu data fel rhan o werthusiad deilliannau i'r dyfodol. Mae'n bosibl na fyddai rhai o'r ffynonellau data eilaidd (e.e. data'r cyfrifiad) a nodir yn Nhablau 4.1- 4.8 uchod ar gael yn ystod cyfnod y gwerthusiad. At hynny, byddai angen i'r gwerthusiad ystyried yr adegau mwyaf priodol y dylid casglu data cynradd (e.e. oddi wrth rieni neu bartneriaid), gan ystyried y cyfnod amser rhwng ymyrraeth a'r canlyniadau disgwyliedig.

4.44 Oherwydd natur gymhleth ac aml-haenog y rhaglen, a'r heriau sy'n gysylltiedig â phriodoli achosoldeb, mae'n debygol y bydd angen i werthusiad yn y dyfodol ddefnyddio cyfuniad o ddulliau gwerthuso. Bydd dulliau o asesu ychwanegolrwydd y rhaglen (h.y. pa ganlyniadau sy'n ychwanegol at y rhai a gyflawnwyd yn absenoldeb yr ymyriad) yn ddimensiwn allweddol, ond dylid hefyd archwilio sut y gellid ystyried y cysyniad o ychwanegolrwydd ar y cyd gyda dadansoddiad cyfraniadau i ddeall effaith y rhaglen.[20]

[20] Gweler Mayne, J. (2001) 'Addressing attribution through contribution analysis: using performance measures sensibly', *Canadian Journal of Programme Evaluation*, 16: 1-24. [Cyrchwyd: 17 Ionawr 2019].

## 5. Casgliadau

5.1 Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd uchod, mae casgliadau'r gwerthusiad wedi'u cyflwyno isod.

### Nod ac amcanion y rhaglen

5.2 Dengys canfyddiadau'r gwerthusiad fod nod ac amcanion y rhaglen wedi'u llywio gan brofiad blaenorol Llywodraeth Cymru o ddarparu rhaglen Twf. Mae'r canfyddiadau'n dangos hefyd bod nod ac amcanion y rhaglen wedi'u datblygu i gefnogi nodau strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru (bryd hynny) (Llywodraeth Cymru, 2012). Roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried fod nod ac amcanion y rhaglen yn gyson â'r strategaeth iaith Gymraeg bresennol, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr* (Llywodraeth Cymru, 2017a).[21]

5.3 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod gan Lywodraeth Cymru a swyddogion Cymraeg i Blant ddealltwriaeth gyson o nod ac amcanion allweddol y rhaglen. Fodd bynnag, cydnabu swyddogion Llywodraeth Cymru a'r rhaglen Cymraeg i Blant fod y nod a'r amcanion yn eang, ac yn agored i rywfaint o ddehongli, a bod y ffordd y maen nhw wedi'u mynegi wedi ei fireinio, yn bennaf seiliedig ar ddehongliad y contractwr ohonynt. Mae hyn, er enghraifft, wedi arwain at ddatblygu'r cysyniad o 'daith iaith', a ddefnyddiwyd yn gyffredin gan swyddogion Cymraeg i Blant i grynhoi nod y rhaglen. Dylai'r broses o brofi a mireinio'r Theori Newid ddrafft roi cyfle i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a'r contractwr gyd-ddealltwriaeth o'r nod a'r amcanion a sut byddant yn cael eu mynegi yn ystod y cyfnod darparu nesaf.

5.4 Roedd y rhan fwyaf o randdeiliaid a rhieni'n deall nod ac amcanion y rhaglen hefyd. Tueddai rhieni a rhanddeiliaid i fynegi hyn o ran teuluoedd sy'n cael eu hamlygu i fwy o Gymraeg trwy sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, gyda rhai'n nodi eu bod yn deall bod y rhaglen wedi'i hanelu at eu cefnogi a'u hannog i droi at addysg a gofal plant cyfrwng Cymraeg neu i ddysgu Cymraeg.

[21] *Iaith fyw: iaith byw - Strategaeth y Gymraeg 2012 i 2017* (Llywodraeth Cymru, 2012). [Cyrchwyd 17 Ionawr 2019].

### Y gynulleidfa darged

5.5 Mae cynulleidfa darged y rhaglen yn eang ac yn cynnwys pob teulu, beth bynnag yw eu cefndir ieithyddol, defnydd, gallu a bwriad mewn perthynas â throsglwyddo iaith neu gefnogi eu plentyn i ddysgu'r Gymraeg. Yn ymarferol, roedd swyddogion Cymraeg i Blant a'r rhan fwyaf o randdeiliaid yn deall mai rhieni gyda phlant cyn oed ysgol oedd y gynulleidfa darged, ond ni ddogfennir hyn yn ffurfiol fel yr ystod oedran darged (nodwyd yn y fanyleb Cymraeg i Blant mai hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen oedd hyn). Mae'r canfyddiadau'n dangos hefyd bod gan swyddogion Cymraeg i Blant ddealltwriaeth glir fod pob un o sesiynau grŵp y rhaglen wedi'u targedu at rieni gyda phlant o oedrannau penodol. Adlewyrcha hyn y cysyniad o 'daith iaith', gyda swyddogion yn targedu tylino babanod at rieni plant ifanc iawn gyda'r bwriad o'u symud ymlaen at ioga i fabanod a sesiynau grŵp amser stori a chân.

5.6 Ni phennodd manyleb y rhaglen Cymraeg i Blant broffil ieithyddol y rhieni i'w targedu. Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant eu bod yn targedu rhieni di-Gymraeg neu oedd â diffyg hyder i siarad Cymraeg wrth gynllunio sesiynau grŵp, gan annog rhieni gyda sgiliau Cymraeg i fynychu hefyd os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu hefyd bod swyddogion Cymraeg i Blant a rhieni, at ei gilydd, yn gwerthfawrogi cael cymysgedd o rieni o wahanol gefndiroedd ieithyddol yn y sesiynau grŵp. Ystyria swyddogion Cymraeg i Blant fod hyn o fantais i rieni oherwydd bod y rhwydweithiau cymorth anffurfiol a grëir trwy'r rhaglen yn galluogi rhieni i ddysgu o brofiadau ei gilydd ac o'u gwybodaeth am y Gymraeg. Yn hyn o beth, mae siaradwyr Cymraeg ac/neu rieni gyda phlant hŷn sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ymddwyn yn achlysurol fel hyrwyddwyr anffurfiol sy'n cefnogi gwaith swyddogion Cymraeg i Blant.

5.7 Defnyddiwyd ystod o ddulliau gan Lywodraeth Cymru a swyddogion Cymraeg i Blant i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen ac i rannu gwybodaeth gyda rhieni a rhanddeiliaid. Mae'r canfyddiadau'n dangos y bu'r dulliau hyn yn llwyddiannus o ran recriwtio niferoedd digonol o rieni i sicrhau bod nifer dda'n bresennol yn y sesiynau grŵp. Adroddodd y swyddogion Cymraeg i Blant, rhieni a rhanddeiliaid fod y sesiynau grŵp yn boblogaidd ar y cyfan ac, mewn rhai achosion, wedi'u gordanysgrifio. Yn ogystal, mae data monitro'r rhaglen yn dangos bod nifer y rhieni a phlant sy'n mynychu sesiynau wedi cynyddu rhwng 2016/17 a 2018/19.

Dywedodd y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant fod y galw am fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant wedi rhagori ar eu capasiti i'w darparu.

5.8 Mynegodd y rhieni safbwyntiau cadarnhaol ar y dulliau a gymerwyd i rannu gwybodaeth am y rhaglen Cymraeg i Blant ac i godi ymwybyddiaeth ohoni. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai y cyfwelwyd â hwy wedi troi at wybodaeth am y rhaglen Cymraeg i Blant trwy'r cyfryngau cymdeithasol a theimlwyd bod hwn yn gyfrwng priodol ac effeithiol i ledaenu gwybodaeth i rieni. Fodd bynnag, dylid cydnabod nad wnaeth y gwerthusiad geisio safbwyntiau rhieni oedd heb ymgysylltu â'r rhaglen Cymraeg i Blant, ac y gallai fod gan y rhain farn wahanol. Mae canfyddiadau o gyfweliadau gyda rhieni'n dangos mai dim ond ychydig a allai gofio cael gwybodaeth am y rhaglen Cymraeg i Blant gan eu hymwelydd iechyd neu fydwraig. Er bod rhai rhieni wedi gweld gwybodaeth ar bosteri neu drwy atgyfeiriadau gan grwpiau eraill, mae'r canfyddiadau'n dangos bod yr ymwybyddiaeth o'r rhaglen yn dibynnu i raddau helaeth ar y rhaglen Cymraeg i Blant yn hyrwyddo'i hun yn uniongyrchol trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

5.9 Roedd gan randdeiliaid farn llai cadarnhaol na rhieni ar y dulliau a gymerwyd i rannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant. Ar lefel strategol, teimlai rhai rhanddeiliaid nad oedd brand Cymraeg i Blant yn cael ei hyrwyddo mor eang ag yr hoffen nhw (e.e. trwy ddigwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol) a soniodd rhai ei fod yn 'llai amlwg' na rhaglen flaenorol Twf. Ar lefel weithredol, roedd y rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth gan swyddogion rhanbarthol Cymraeg i Blant, ond teimlai rhai nad oeddent yn cael gwybod yn gyson am y sesiynau grŵp oedd yn cael eu darparu'n lleol. Nododd y rhanddeiliaid hyn yr hoffen nhw gael amserlenni cyson o ddigwyddiadau Cymraeg i Blant.

5.10 Ar hyn o bryd, cyfyngedig yw'r wybodaeth sydd ar gael am broffil cymdeithasol-demograffig ac ieithyddol y teuluoedd sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau Cymraeg i Blant (gweler Ffigur 3). Mae Llywodraeth Cymru newydd sefydlu dull newydd o gasglu data monitro gan rieni sy'n mynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Fodd bynnag, nid oedd y data o'r broses fonitro hon ar gael yn ystod y gwerthusiad. Golyga'r sail dystiolaeth gyfyngedig hon nad yw hi'n bosibl dod i gasgliadau am gyrhaeddiad y rhaglen ar hyn o bryd. Byddai casglu'r math hwn o

ddata gan rieni sy'n cymryd rhan yn ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer gwerthusiad o deilliannau i'r dyfodol.

**Gweithgareddau'r rhaglen**

5.11 Mae'r mathau o weithgareddau a gyflwynir mewn sesiynau grŵp (tylino babanod, ioga, amser stori/cân ac arwyddo) wedi'u dewis gan y contractwr gyda'r bwriad o ddarparu llwybr dilyniant i deuluoedd gyda phlant ifanc iawn. Dewiswyd y gweithgareddau i apelio i rieni gyda phlant ifanc, gan ystyried y math o weithgareddau oedd yn cael eu darparu'n lleol. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant eu bod wedi ystyried darpariaeth debyg sydd ar gael yn eu hardal leol a bod rhai rhanddeiliaid wedi cadarnhau hefyd eu bod wedi cyfathrebu gyda swyddogion Cymraeg i Blant er mwyn osgoi dyblygu.

5.12 Adroddodd rhai rhieni bod y gweithgareddau a gynigir trwy'r rhaglen yn ddeniadol, ac adroddodd llawer iddynt symud ymlaen o un set o sesiynau grŵp i'r un nesaf. Adroddodd rhai rheini mai'r gweithgareddau penodol oedd y prif beth a'u denodd i fynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant, yn hytrach na chyfrwng iaith y ddarpariaeth. Mewn rhai achosion, nid oedd y rhieni'n ymwybodol o ffocws Cymraeg y gweithgaredd hyd nes iddynt fynychu eu sesiwn gyntaf. Awgryma hyn fod y gweithgareddau'n ddeniadol i'r rhieni y cyfwelwyd â hwy ac yn ffordd effeithiol o ddenu teuluoedd sy'n medru'r Gymraeg a'r teuluoedd di-Gymraeg.

5.13 Mae'r cyfweliadau gyda rhieni'n awgrymu bod gan y rhan fwyaf safbwyntiau cadarnhaol ar y ffordd y darparwyd y gweithgareddau gan staff Cymraeg i Blant, y lleoliadau a ddefnyddiwyd ac amser y gweithgareddau. Er bod y rhan fwyaf o'r rhieni'n hapus â'r lleoliadau lle darparwyd gweithgareddau Cymraeg i Blant ynddynt, nododd rhai rhieni a oedd wedi teithio yn y car i fynychu'r gweithgareddau yr hoffen nhw weld mwy yn cael eu darparu yn eu hardal hwy. Atgyfnerthwyd hyn gan rai rhanddeiliaid a gyfeiriodd at ddiffyg gweithgareddau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg mewn rhai ardaloedd.

5.14 Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod y galw am weithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u hanelu at rieni gyda phlant cyn oed ysgol yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael. Mynegodd swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant eu barn nhw, sef y

gallai Cymraeg i Blant drefnu gweithgareddau mewn lleoliadau eraill petai ganddynt fwy o gapasiti i wneud hynny ac y byddai'r rhain yn debygol o gael eu defnyddio.

5.15 Dywedodd swyddogion Cymraeg i Blant hefyd iddynt dreialu gweithgareddau newydd yn ystod y rhaglen mewn ymgais i adnewyddu 'arlwy' Cymraeg i Blant a thargedu rhieni oedd heb fynychu'n flaenorol. Adroddodd rhai swyddogion Cymraeg i Blant iddynt dreialu gweithgareddau newydd (e.e. cerdded â bygi, sesiynau grŵp ar y penwythnos wedi'u hanelu at dadau) fel ffordd o dargedu gwahanol grwpiau o rieni. Lle bu hyn yn llwyddiannus, nododd swyddogion Cymraeg i Blant y byddent yn ceisio cyflwyno hyn ar draws Cymru. Un enghraifft o'r fath yw'r sesiynau arwyddo i fabanod sydd newydd ei chyflwyno yn dilyn hyfforddiant i swyddogion y rhaglen.

5.16 Mae canfyddiadau'r cyfweliadau gyda rhieni, swyddogion a rhanddeiliaid y rhaglen yn awgrymu bod gweithgareddau Cymraeg i Blant yn ffordd effeithiol o gyfleu negeseuon y rhaglen i rieni. Dywedodd y swyddogion Cymraeg i Blant iddynt deimlo bod y gweithgareddau wedi'u helpu i gyflwyno'r Gymraeg yn raddol i sesiynau grŵp ac yna wedi hwyluso cyfleoedd i gael sgyrsiau manylach gyda rhieni am eu dewisiadau'n ymwneud ag addysg a gofal plant. Ymddengys bod cyfweliadau gyda rhieni a rhanddeiliaid yn cefnogi'r farn hon, gyda rhai'n adrodd eu bod yn gwerthfawrogi natur anffurfiol, hyblyg a gwirfoddol y sesiynau grŵp.

5.17 Mae canfyddiadau'r cyfweliadau gyda rhieni'n dangos nad ydynt bob amser yn ymwybodol o lwybrau dilyniant o'r rhaglen Cymraeg i Blant i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg arall. Awgryma hyn fod angen ystyried ymhellach sut gellir gwneud yr holl rieni sy'n mynychu sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn ymwybodol o sesiynau Cylch Ti a Fi a Chylch Meithrin lleol ac i'r gwrthwyneb, er mwyn i rieni gael eu cefnogi'n well i bontio o un i'r llall.

**Ardaloedd daearyddol**

5.18 Mae ehangu'r rhaglen yn 2017 wedi arwain ati'n cael cyrhaeddiad daearyddol ehangach ar draws Cymru. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad y rhaglen ym mhob rhanbarth yn dibynnu ar gapasiti swyddogion Cymraeg i Blant i ddarparu gweithgareddau. Mae'r model sydd wedi ei ddewis gan y contractwr, o ddarparu cyfres o sesiynau grŵp cyson i rieni, yn golygu bod rhaid i swyddogion Cymraeg i Blant benderfynu pa ardaloedd y byddant yn eu targedu, gyda hynny'n dibynnu ar nifer o ffactorau lleol, ac felly mae ardaloedd ym mhob rhanbarth lle nad yw

sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn cael eu darparu ar hyn o bryd. Dywedodd swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant y byddai galw am weithgareddau Cymraeg i Blant mewn ardaloedd daearyddol lle nad oedd darpariaeth Cymraeg i Blant ar hyn o bryd, gyda swyddogion Cymraeg i Blant yn cyfeirio at enghreifftiau o ofynion gan randdeiliaid i ddarparu sesiynau ychwanegol, yr oeddent yn methu eu cyflawni. Mae'r dystiolaeth o alw ychwanegol posibl am weithgareddau Cymraeg i Blant ymhlith rhieni'n seiliedig ar brofiadau swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant. Felly, nid yw canfyddiadau'r gwerthusiad yn ddigon cadarn i allu gwneud casgliadau cadarn ar faint y galw ychwanegol posibl hwn. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y gellid casglu tystiolaeth fwy systematig i asesu'r galw posibl i gynyddu graddfa a chwmpas y rhaglen i'r dyfodol.

5.19 Adroddodd swyddogion y rhaglen iddynt dargedu lleoliadau penodol ac iddynt geisio cysoni'r gwaith o sefydlu grwpiau Cymraeg i Blant gyda darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg newydd arall (e.e. Cylchoedd Meithrin newydd) er mwyn creu llwybrau dilyniant newydd i addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, adroddodd swyddogion rhanbarthol hefyd bod ganddynt hyblygrwydd sylweddol wrth ddewis lleoliadau ar gyfer gweithgareddau, sy'n ystyried amrywiaeth o ffactorau lleol fel argaeledd darpariaeth debyg arall (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg), addasrwydd y lleoliadau a'r galw tebygol ar gyfer y mathau o weithgareddau a ddarperir gan y rhaglen Cymraeg i Blant.

5.20 Mae'r canfyddiadau'n dangos bod swyddogion Cymraeg i Blant yn gweithio mewn partneriaeth â staff Mudiad Meithrin arall (a rhanddeiliaid eraill fel grwpiau CSGA awdurdodau lleol a fforymau iaith lleol lle bo'n briodol) wrth gynllunio ble i ddarparu gweithgareddau Cymraeg i Blant. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant a swyddogion eraill y Mudiad Meithrin fod ganddynt strwythurau ar waith sy'n galluogi uwch swyddogion Cymraeg i Blant i ddarparu mewnbwn i benderfyniadau ar sefydlu darpariaeth blynyddoedd cynnar arall (Cylchoedd Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin). Cydnabu swyddogion Cymraeg i Blant fod y proffil a'r cyd-destun ieithyddol yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarthau a bod swyddogion Cymraeg i Blant yn cynllunio gweithgareddau'n seiliedig ar yr amrywiadau hyn mewn anghenion lleol. Yn ogystal, adroddodd Llywodraeth Cymru a staff y contractwr eu bod yn ystyried y math hwn o gynllunio strategol fel rhan o'u cyfarfodydd adolygu rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar dod i gasgliadau ar effeithiolrwydd y prosesau hyn ar

gyfer cynllunio a blaenoriaethu ardaloedd. Bydd gofyn am ystyriaeth bellach ar yr agwedd hon fel rhan o unrhyw werthusiad o'r rhaglen Cymraeg i Blant i'r dyfodol.

**Strwythurau a phrosesau**

5.21 Adroddodd Llywodraeth Cymru a staff y contractwr fod y strwythurau rheoli a sefydlwyd (cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd a chyfathrebu dydd-i-ddydd mwy anffurfiol) yn gweithio'n effeithiol. Adroddodd swyddogion y rhaglen hefyd fod y trefniadau rheoli a roddwyd ar waith gan y contractwr yn gweithio'n dda ar y cyfan. Adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod y gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru'n effeithiol ar y cyfan.

5.22 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n arwain ar farchnata'r rhaglen yn genedlaethol a datblygu adnoddau ar gyfer y rhaglen. Roedd gan y rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant, rhieni a rhanddeiliaid farn gadarnhaol ar ansawdd y deunyddiau a gawsant. Fodd bynnag, dangosodd y cyfweliadau gyda'r rhan fwyaf o swyddogion Cymraeg i Blant, yn ogystal â rhai rhanddeiliaid a rhieni, awch am fwy o ddeunyddiau, gan gynnwys amrywiadau ar y deunyddiau presennol (e.e. llyfrau caneuon) maent wedi eu derbyn a deunyddiau mewn fformatau digidol. Byddai swyddogion Cymraeg i Blant yn croesawu mwy o rôl wrth ddatblygu adnoddau Cymraeg i Blant i deuluoedd, elfen a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

5.23 Mynegodd swyddogion Cymraeg i Blant ddymuniad i allu adnewyddu'r deunyddiau a ddefnyddir gyda'r rhieni'n amlach er mwyn cynnal diddordeb a brwdfrydedd ymhlith rhieni. I'r perwyl hwn, adroddodd swyddogion Cymraeg i Blant fod oedi mewn amser rhwng adnabod yr angen am ddeunyddiau penodol a chomisiynu, cynhyrchu a dosbarthu'r deunyddiau hynny. Dywedodd swyddogion y rhaglen yr hoffen nhw allu ymateb yn gynt i'r ceisiadau hynny ac y bydden nhw'n gwerthfawrogi cael mwy o rôl wrth ddatblygu deunyddiau ac adnoddau marchnata Cymraeg i Blant. Yn gysylltiedig â hyn, adroddodd swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant yr hoffen nhw weld y rhaglen yn ymateb yn fwy hyblyg i geisiadau gan randdeiliaid (e.e. mynychu mwy o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhanbarthol).

*Cynllunio strategol*

5.24 Eglurwyd y cysyniad bod Cymraeg i Blant yn rhan o 'daith iaith' gan y swyddogion Cymraeg i Blant y cyfwelwyd â nhw, ac fe'i crybwyllwyd hefyd gan rai rhanddeiliaid ac ychydig o'r rhieni. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gasglwyd gan swyddogion a rhanddeiliaid y rhaglen fod bylchau yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg sydd ar gael mewn rhai ardaloedd. Golyga hyn nad yw'r llwybr o'r rhaglen Cymraeg i Blant i Gylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddi-dor i rieni mewn nifer o ardaloedd. Ceir tystiolaeth fod swyddogion Cymraeg i Blant, staff Mudiad Meithrin eraill a swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ystyried sut orau i gynllunio'r ddarpariaeth Cymraeg i Blant yng nghyd-destun y ddarpariaeth arall sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos hefyd fod swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant yn cydnabod bod gan sefydliadau lleol, fel awdurdodau lleol a Mentrau Iaith rolau pwysig i'w chwarae wrth lenwi'r bylchau hyn yn y ddarpariaeth.

**Monitro**

5.25 Datblygwyd trefniadau monitro rheolaidd gan Lywodraeth Cymru a'r contractwr. Mae swyddogion Cymraeg i Blant yn casglu ac yn darparu data i Lywodraeth Cymru ar niferoedd y sesiynau grŵp a ddarparwyd, niferoedd y rhieni a'r plant sy'n mynychu sesiynau grŵp, a niferoedd y sgyrsiau un-i-un a gynhaliwyd rhwng staff Cymraeg i Blant a rhieni. Cesglir yr un data hefyd ar gyfer sesiynau grŵp a gynhaliwyd gan sefydliadau partner mewn amryw gategorïau (Cylch Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, rhianta, grwpiau ar ôl a chyn geni, sesiynau awdurdodau lleol, digwyddiadau ysgol, digwyddiadau eraill a sefydliadau eraill). Cesglir data hefyd ar nifer y cyflwyniadau a roddir i fyfyrwyr bydwreigiaeth a gofal plant a nifer y myfyrwyr sy'n mynychu'r rhain.

5.26 Mae data monitro'r rhaglen a gyflwynir yn Adran 3 yn dangos bod y rhaglen wedi tyfu mewn maint a chwmpas ers iddi gychwyn. Mae'r data monitro ar gyfer y flwyddyn lawn ddiweddaraf (2017-18) yn dangos bod 2,946 o sesiynau wedi'u trefnu a'u darparu gan y rhaglen Cymraeg i Blant a bod 20,926 o rieni a 21,952 o blant wedi mynychu'r rhain.[22] Yn ogystal, cofnodwyd 1,176 o sgyrsiau un-i-un rhwng rhieni a swyddogion Cymraeg i Blant. Mae data monitro'r rhaglen yn dangos hefyd

[22] Cyflwynir data mwy diweddar ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Medi 2018 yn Adran 3 yr adroddiad hefyd.

bod swyddogion Cymraeg i Blant wedi darparu 11 cyflwyniad am y rhaglen Cymraeg i Blant i gyfanswm o 80 ymwelydd iechyd neu fydwraig yn 2017-18 (y flwyddyn lawn ddiweddaraf o ddata sydd ar gael) a mynychodd cyfanswm o 156 o fyfyrwyr gofal plant neu fydwreigiaeth un o 6 cyflwyniad gan staff Cymraeg i Blant.

5.27 Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau casglu data proffil ar-lein gan rieni sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg i Blant ac sy'n dewis cofrestru eu manylion ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth gefndir am broffil ieithyddol y teulu (gweler Ffigur 3). Mae staff Cymraeg i Blant yn annog rhieni i gofrestru ar-lein ond maen nhw'n dibynnu ar rieni'n dewis gwneud hyn yn annibynnol ar ôl sesiynau grŵp. Nid oedd data ar broffil rhieni ar gael yn ystod y gwerthusiad proses hwn ac felly nid yw'n briodol llunio casgliadau ar ehangder, cysondeb a chadernid y data. Fodd bynnag, byddai'r data hwn yn debygol o ffurfio rhan bwysig o werthusiad deilliannau o'r rhaglen yn y dyfodol.

5.28 Defnyddir ffurflen adborth gan y contractwr sy'n gofyn i rieni am eu bwriadau o ran defnyddio'r Gymraeg yn y cartref a defnydd o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ac addysg cyfrwng Cymraeg. Darperir y ffurflen hon i rieni ar ôl mynychu cyfres o weithgareddau Cymraeg i Blant. Mae'r posibilrwydd o adolygu'r cwestiynau a'r dull a ddefnyddir i gasglu'r wybodaeth drwy'r ffurflen hon wedi ei gynnwys ymysg yr argymhelliion ar gyfer casglu data yn y dyfodol.

**Partneriaethau**

5.29 Adroddodd swyddogion y rhaglen fod partneriaethau gyda sefydliadau eraill mewn gwahanol sectorau wedi'u datblygu ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol. Adroddodd rhanddeiliaid a swyddogion Cymraeg i Blant fod natur y cydweithredu wedi amrywio ond ar y cyfan yn cynnwys: cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth (fel rheol er mwyn hwyluso atgyfeiriadau rhwng Cymraeg i Blant a sefydliadau rhanddeiliaid); cyd-ddarparu sesiynau grŵp; staff Cymraeg i Blant yn darparu sesiynau grŵp mewn lleoliadau a gynhelir gan randdeiliaid; darparu cyngor neu hyfforddiant, a chydweithredu strategol.

5.30 Canfu'r rhan fwyaf o gyfweleion oedd yn rhanddeiliaid a fu'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant fod y cydweithredu'n fanteisiol, naill ai iddynt hwy eu hunain neu i'r rhieni y gweithion nhw gyda nhw. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth gan swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant yn dangos bod

amrywiadau yng nghryfder y cydweithredu yn ôl ardal a sector. Mewn rhai ardaloedd, yn enwedig y rhai lle nad oedd rhaglen Twf yn gweithredu cyn hynny, adroddwyd bod partneriaethau gyda nifer fawr o sefydliadau megis dechrau. Roedd canfyddiad ymhlith swyddogion a rhanddeiliaid y rhaglen fod rhai heriau a rhwystrau a oedd yn cyfyngu ar hyd a lled gweithio mewn partneriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: capasiti ac amser staff a rhanddeiliaid yn ogystal â chryfder y berthynas rhwng swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant (e.e. pa mor dda oedd y cysylltiadau wedi'u sefydlu).

5.31 Er bod Cymraeg i Blant wedi datblygu partneriaethau ar lefel strategol gyda nifer fawr o sefydliadau, ymddengys bod gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol wedi'i gymell i raddau helaeth yn sgil y cysylltiad rhwng swyddogion Cymraeg i Blant a'r rhanddeiliaid sy'n gweithio yn eu hardal leol. Golyga hyn y gall cryfder y partneriaethau ddibynnu ar y berthynas rhwng unigolion, ac felly gall trefniadau fod yn anghyson ac yn ad hoc. Dangoswyd yr anghysondeb hwn gan wahaniaethau mewn lefelau ymwybyddiaeth a chyfathrebu gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant ymhlith rhanddeiliaid o'r un sector a ddynodwyd gan staff Cymraeg i Blant a'r rhai a ddynodwyd yn annibynnol gan y gwerthuswyr. Mae'n bosibl felly bod angen ystyried sut y gellir dwyn perswâd ar reolwyr strategol mewn rhai sectorau fel iechyd i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r rhaglen Cymraeg i Blant ac yn cael eu hannog i gyfeirio rhieni at y rhaglen.

### Theori Newid

5.32 Mae'r broses o ddatblygu Theori Newid ar gyfer y rhaglen wedi adnabod tair prif haen i'r rhaglen. Y rhain yw *darparu sesiynau grŵp, partneriaethau* a *rôl Llywodraeth Cymru*. Er bod yr haenau hyn yn gysylltiedig ac yn gorgyffwrdd i raddau, bu'n bosibl gosod cyfres o gamau a chysylltiadau tybiedig rhwng mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau pob haen. Mae'r Theori Newid hefyd yn cydnabod bod y rhaglen yn gweithredu mewn cyd-destun ehangach, gan gyfrannu tuag at dargedau trosfwaol Llywodraeth Cymru a osodwyd yn strategaeth *Cymraeg 2050*. Cynhaliwyd rhywfaint o arbrofi cychwynnol o ddilysrwydd y Theori Newid trwy ymgysylltu gyda Llywodraeth Cymru fel cyllidwyr y rhaglen. Bydd angen profi pellach, sy'n cynnwys y contractwr, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill, i fireinio'r Theori Newid er mwyn iddi gwmpasu theori'r rhaglen yn llawnach.

5.33 Mae'r gwerthusiad wedi astudio argaeledd y data yn erbyn pob un o'r eitemau a restrwyd yn Theori Newid ddrafft y rhaglen, yn ogystal ag adnabod gofynion a materion data posibl i'r dyfodol a fydd yn gofyn am ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Cymru, y contractwr a gwerthuswyr i'r dyfodol (e.e. diwygiadau posibl i'r data monitro a gesglir gan rieni). Bydd angen i werthusiad deilliannau i'r dyfodol ystyried y dulliau mwyaf priodol o gasglu data gan rieni, partneriaid a rhanddeiliaid, yn ogystal â'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer asesu ychwanegolrwydd Cymraeg i Blant.

## 6. Argymhellion

6.1 Ar sail y canfyddiadau a'r casgliadau, cyflwynir yr argymhellion canlynol ar gyfer darparu'r rhaglen yn y dyfodol.

### Y gynulleidfa darged

**Argymhelliad 1**: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried diwygio ystod oedran targed datganedig y rhaglen i rieni plant cyn oed ysgol, yn hytrach na phlant hyd at 7 mlwydd oed fel yr amlinellwyd ym manyleb wreiddiol Cymraeg i Blant. Byddai hyn yn adlewyrchu arfer, a sut deellir y rhaglen gan randdeiliaid ehangach, yn well.

**Argymhelliad 2**: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal yr hyblygrwydd presennol o fewn y rhaglen sy'n galluogi swyddogion Cymraeg i Blant i gynnwys rhieni o wahanol gefndiroedd ieithyddol mewn gweithgareddau grŵp.

### Gweithgareddau'r rhaglen

**Argymhelliad 3**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y fanyleb ar gyfer cam nesaf Cymraeg i Blant yn parhau i gynnwys digon o hyblygrwydd a chyfle i gontractwyr a Llywodraeth Cymru adolygu a diwygio'r mathau o weithgareddau a gynigir trwy'r rhaglen ac i dreialu gweithgareddau newydd pan fydd cyfleoedd yn codi.

**Argymhelliad 4:** Lle bo'n ymarferol, dylai swyddogion Cymraeg i Blant gynnig 'sesiwn bontio' i rieni tuag at ddiwedd cyfres o sesiynau grŵp Cymraeg i Blant er mwyn rhoi gwybod i rieni am grwpiau Cylch Ti a Fi a gweithgareddau eraill yn eu hardal, ac fel bo rhieni yn cael eu cefnogi wrth bontio iddynt.

### Ardaloedd daearyddol

**Argymhelliad 5:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried casglu tystiolaeth fwy systematig o'r galw posibl am sesiynau grŵp Cymraeg i Blant yn ystod cam nesaf y ddarpariaeth i lywio adolygiad o faint a chwmpas y rhaglen. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i ymchwilio ymhellach i un o gasgliadau'r gwerthusiad hwn, ar sail canfyddiadau swyddogion a rhanddeiliaid Cymraeg i Blant, bod galw ychwanegol ymhlith rhieni am y mathau o weithgareddau a gynigir trwy'r rhaglen Cymraeg i Blant.

**Argymhelliad 6**: Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr barhau i adolygu'n rheolaidd yr ardaloedd daearyddol lle y darperir Cymraeg i Blant a sicrhau bod y rhaglen yn ymatebol i'r newidiadau yn y sectorau addysg a blynyddoedd cynnar (e.e. sefydlu grwpiau Cymraeg i Blant i fwydo ysgolion newydd, neu lenwi bylchau a gaiff eu hadnabod yn y ddarpariaeth cyn oed ysgol). Dylai'r broses hon alinio hefyd gyda chynllunio iaith ehangach a dylai gynnwys ymgysylltiad systematig gan swyddogion Cymraeg i Blant i ddatblygu ac adolygu CSGAau, cyfarfodydd fforymau iaith lleol a mewnbwn i gynllunio rhanbarthol y Mudiad Meithrin.

### Strwythurau a phrosesau

**Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried caniatáu i'r contractwr reoli cyfran o'r cyllid a ddyrennir i farchnata a datblygu adnoddau i'r rhaglen. Gallai hyn alluogi'r contractwr i ymateb yn gynt ac yn fwy hyblyg i'r anghenion a gaiff eu hadnabod ymhlith rhieni neu randdeiliaid.

**Argymhelliad 8**: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i ddatblygu amrywiaeth ehangach o ddeunyddiau y gellid eu defnyddio mewn sesiynau grŵp Cymraeg i Blant. Gallai hyn gynnwys mwy o adnoddau digidol y gellid eu haddasu gan swyddogion Cymraeg i Blant mewn ymateb i anghenion lleol a gaiff eu hadnabod.

### Monitro

**Argymhelliad 9**: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod data proffil cynhwysfawr a chadarn yn cael ei gasglu gan rieni sy'n cynnwys gwybodaeth waelodlin am eu proffil cymdeithasol-demograffig ac ieithyddol wrth iddynt ddechrau cymryd rhan yn y rhaglen.

**Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr adolygu trefniadau casglu data monitro Cymraeg i Blant ac ystyried yr argymhellion a wnaed yn Adran 4 yr adroddiad hwn i sicrhau bod data cadarn a chynhwysfawr ar gael i ymgymryd â gwerthusiad deilliannau yn y dyfodol.

## Partneriaethau

**Argymhelliad 11:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr ystyried pa ddulliau y gellid eu cymryd i hwyluso mwy o weithio mewn partneriaeth a helpu goresgyn yr heriau a'r rhwystrau (gan gynnwys heriau a rhwystrau canfyddedig) i gydweithredu a gafodd eu hadnabod yn y gwerthusiad hwn.

**Argymhelliad 12:** Dylai'r contractwr weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Mudiad Meithrin a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y ddarpariaeth Cymraeg i Blant yn cael ei chynllunio'n strategol i alinio â chynnwys y CSGAau lleol.

**Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant a'i nod a'i amcanion ymhlith yr holl sefydliadau partner sy'n dod i gyswllt â chynulleidfa darged y rhaglen.

**Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall uwch reolwyr yn y sector iechyd sicrhau bod eu gweithlu yn adnabod rhagor o gyfleoedd i raeadru gwybodaeth am Cymraeg i Blant i'r rhai sy'n darparu gwasanaethau i rieni.

**Argymhelliad 15:** Dylai'r contractwr ystyried datblygu dull mwy systematig o rannu manylion gyda rhanddeiliaid am y gweithgareddau grŵp mae'n eu darparu (e.e. trwy ledaenu amserlenni sesiynau grŵp yn rheolaidd gyda rhanddeiliaid).

## Theori Newid

**Argymhelliad 16:** Dylai Llywodraeth Cymru a'r contractwr adolygu a mireinio'r Theori Newid ar gychwyn rownd nesaf y contract Cymraeg i Blant (yn ddisgwyliedig yn 2019). Yn ogystal, dylai'r dyluniad ymchwil ar gyfer gwerthusiad deilliannau'r rhaglen yn y dyfodol ddatblygu a phrofi ymhellach y Theori Newid fel cam tuag at ddatblygu cynllun gwerthuso ar gyfer y rhaglen.

**Argymhelliad 17:** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod Theori Newid yn cael ei datblygu cyn gweithredu unrhyw gynllun olynol i'r rhaglen Cymraeg i Blant.

# Atodiad A: Offerynnau Ymchwil

## Canllaw pwnc i rieni/ gwarcheidwaid Cymraeg i Blant

*Cyflwyniad yr ymchwilydd*

Comisiynwyd Ymchwil Arad a Phrifysgol Bangor gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymraeg i Blant. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn casglu tystiolaeth gan rieni a gwarcheidwaid ar draws Cymru. Mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn cynnwys gweithgareddau fel grwpiau stori a chân, ioga i fabanod ac ati, ac yn cynnwys y sesiwn hon heddiw. Mae tîm o ymchwilwyr wedi dewis ystod o weithgareddau ar draws Cymru i ymweld â nhw ac i siarad â rhieni/gwarcheidwaid.

Bydd hyn yn cynnwys cymryd rhan mewn sgwrs anffurfiol (hyd at chwarter awr) gyda'r ymchwilydd naill ai mewn sgwrs un-i-un neu mewn grŵp bach i drafod materion fel eich rhesymau am fynychu, eich profiadau o'r gweithgareddau, a'ch defnydd o grwpiau eraill i blant ifanc.

Bydd y wybodaeth a gesglir trwy'r gwerthusiad yn cael ei defnyddio i gynllunio'r rhaglen Cymraeg i Blant yn lleol ac yn genedlaethol i'r dyfodol.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil yn cael ei wneud yn wirfoddol, ac ni fydd eich dewis i gymryd rhan neu beidio'n effeithio ar eich gallu i droi at weithgareddau Cymraeg i Blant yn y dyfodol.

Bydd yr holl wybodaeth a gesglir gan rieni/gwarcheidwaid ar draws Cymru'n cael ei hadrodd yn ddienw. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad, ac o bosibl mewn cyhoeddiadau eraill gan Lywodraeth Cymru.
**Sylwch:** Dylai'r ymchwilydd sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid wedi cael nodyn cyfarwyddyd. Bydd yr ymchwilydd yn sicrhau bod yr hysbysiad preifatrwydd ar gael ac yn gofyn i rieni a gwarcheidwaid arwyddo'r ffurflen ganiatâd. Bydd yr ymchwilydd yn addasu'r iaith a'r cywair i amgylchiadau/gofynion y cyfranogwyr.

*Cefndir ieithyddol*

1. Rhowch drosolwg o'ch cefndir mewn perthynas â'r Gymraeg.
    - Eich cefndir teuluol, addysg, sgiliau yn y Gymraeg.
2. Rhowch drosolwg o'ch defnydd o'r Gymraeg.
    - Eich defnydd gyda'r teulu a'ch plant, yn y gwaith, yn gymdeithasol. Bydd yr ymchwilydd yn ceisio cael darlun cyn llawned â phosibl o hyd a lled eu defnydd o'r iaith.
3. Ydych chi'n defnyddio gofal plant ffurfiol e.e. meithrinfa?
    - Pa gyfrwng iaith?

*Ymwybyddiaeth o'r rhaglen Cymraeg i Blant a chyfathrebu*

4. Sut clywsoch chi am y [sesiwn hon/gweithgaredd hwn]? Bydd yr ymchwilydd yn enwi'r gweithgaredd (e.e. y cyfryngau cymdeithasol, trwy ffrind, taflenni / posteri, ymwelydd iechyd)
    - A gawsoch chi ddigon o wybodaeth am [y gweithgaredd]? Bydd yr ymchwilydd yn enwi'r gweithgaredd.
    - Beth a'ch denodd i fynychu'r gweithgaredd hwn yn y lle cyntaf?
5. Beth ydych chi'n deall yw nod y gweithgaredd hwn?
    - A gafodd nod y gweithgaredd ei esbonio i chi? Sut?
6. Ydych chi wedi clywed am y rhaglen Cymraeg i Blant?
    - Os ydych, pa wybodaeth gawsoch chi am y rhaglen Cymraeg i Blant? O ble gawsoch chi'r wybodaeth? Beth ydych chi'n ei ddeall am amcanion Cymraeg i Blant?
7. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw weithgareddau/sesiynau eraill a gynigir gan y rhaglen Cymraeg i Blant?
    - Sut clywsoch chi am y gweithgareddau hyn?
8. Ydych chi wedi gweld neu glywed am unrhyw ymgyrchoedd i annog rhieni a gwarcheidwaid i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, neu i ystyried gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg?
    - Ble gwelsoch/clywsoch chi am yr ymgyrchoedd hyn?
    - Beth yw'ch argraffiadau chi o'r ymgyrchoedd hyn?

*Ymgysylltu â'r gweithgaredd*

9. Pam ddewisoch chi fynychu'r gweithgaredd hwn?
10. Pa agweddau sy'n apelio fwyaf atoch?
11. Ers pryd ydych chi wedi bod yn mynychu'r gweithgaredd hwn?
    - Pa mor aml ydych chi'n mynychu?
12. Ym mha iaith neu ieithoedd ydych chi'n cyfathrebu yn ystod y gweithgaredd?
    - Pam ydych chi'n cyfathrebu yn yr iaith hon/ieithoedd hyn?
13. Ydy arweinwyr y gweithgaredd:
    - yn eich cyfeirio at unrhyw weithgareddau eraill?
    - yn darparu rhagor o wybodaeth neu adnoddau am ddefnyddio'r Gymraeg gyda'ch plentyn?
14. Ydych chi wedi mynychu gweithgareddau Cymraeg i Blant eraill? Pa rai?
15. Oes gweithgareddau tebyg eraill ar gael yn eich ardal, gan ddarparwyr eraill?
    - Pa fath o weithgareddau eraill sydd ar gael?
        - trwy gyfrwng y Gymraeg
        - trwy gyfrwng y Saesneg
    - Sut mae gweithgaredd heddiw'n cymharu â gweithgareddau eraill?

*Barn ar y gweithgaredd*

16. Pa elfennau o'r gweithgaredd ydych chi'n eu mwynhau?
17. Pa elfennau o'r gweithgaredd ellir eu gwella a sut?
18. Dylai'r ymchwilydd gyfeirio cwestiwn at y rhai nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg. Os oes grŵp, bydd yr ymchwilydd yn penderfynu yn unol â natur y grŵp.
    - [I'r rhai gyda rhywfaint o sgiliau Cymraeg] Ydych chi'n teimlo'n hyderus yn defnyddio'r Gymraeg gyda'ch plentyn yn ystod y gweithgaredd? Pam?
    - [I'r rhai heb unrhyw/ychydig o sgiliau Cymraeg] Oeddech chi'n teimlo'n hyderus / yn nerfus wrth fynychu'r gweithgaredd am y tro cyntaf? Pam?
19. I ba raddau mae'r gweithgaredd yn eich helpu i ddefnyddio unrhyw Gymraeg gyda'ch plentyn/plant?
    - Pa gymorth pellach fyddech chi'n ei werthfawrogi?
20. A fyddech chi'n argymell y gweithgaredd hwn i rieni neu warcheidwaid eraill? Os byddech, i bwy?
21. Oes yna weithgareddau ychwanegol neu wahanol yr hoffech i'r rhaglen Cymraeg i Blant eu cynnig?
    - Pa fath o weithgareddau? Beth fyddai mantais y gweithgareddau hyn?

*Y Dyfodol*

22. Wrth edrych i'r dyfodol, i ba raddau ydych chi wedi ystyried / gwneud cynlluniau mewn perthynas â pha iaith neu ieithoedd fyddwch chi'n
    - eu defnyddio yn y cartref?
    - eu defnyddio ar gyfer gofal plant?
    - eu defnyddio ar gyfer addysg eich plant?
23. Oes unrhyw wybodaeth neu gefnogaeth bellach yr hoffech chi ei chael i'ch helpu i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'ch plentyn / plant, yn y cartref, yn gymdeithasol ac yn anffurfiol?
    - Pa fath o wybodaeth neu gymorth pellach?

**Canllaw pwnc i randdeiliaid rhanbarthol**

*Cyflwyniad yr ymchwilydd*

Fel uchod.

*Gwybodaeth gefndir*

1. Darparwch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau yn [dylai'r ymchwilydd enwi sefydliad y rhanddeiliad].
    - Faint o gyswllt sydd gennych gyda swyddogion Cymraeg i Blant fel rhan o'ch gwaith? [Dylai'r ymchwilydd enwi'r swyddog(ion) rhanbarthol perthnasol]
2. Darparwch drosolwg o amcanion eich sefydliad, gan gynnwys unrhyw amcanion yn ymwneud â chefnogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.
3. Darparwch drosolwg o'ch rhanbarth (e.e. proffil ieithyddol, patrymau addysg cyfrwng Cymraeg, y gweithgareddau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, ac os yn berthnasol, beth oedd yn digwydd cyn Cymraeg i Blant).

*Amcanion*

4. Beth yw'ch dealltwriaeth o nodau ac amcanion Cymraeg i Blant?
    - A esboniwyd y nodau a'r amcanion hyn i chi? Gan bwy?
5. Beth yw'ch dealltwriaeth o'r ddarpariaeth Cymraeg i Blant?
    - Gweithgareddau rhanbarthol, gwaith hyrwyddo cenedlaethol
6. I ba raddau y mae nodau ac amcanion Cymraeg i Blant yn gyson ag amcanion [y sefydliad]?
    - I ba raddau y mae Cymraeg i Blant yn eich helpu fel sefydliad i gyflawni'r amcanion neu'r strategaethau hyn?

*Partneriaethau*

7. Beth oedd eich cyswllt cyntaf gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant?
    - Cyswllt gyda'ch sefydliad yn gyffredinol.
    - Cyswllt gyda chi'n benodol.
    - Pwy wnaeth y cyswllt cyntaf (Cymraeg i Blant neu'r rhanddeiliad)?
8. Sut datblygwyd y bartneriaeth gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant?
    - Meithrin perthnasoedd, sefydlu proses o gydweithredu, cyfarfodydd, pwyntiau cyswllt.
9. Rhowch drosolwg o'r ffordd rydych chi'n gweithio gyda'r rhaglen Cymraeg i Blant yn eich ardal chi.
    - Cynllunio strategol, cyd-drefnu darpariaeth neu ddigwyddiadau.

- Oddeutu pa mor aml ydych chi’n tueddu i gadw mewn cysylltiad? Pwy sy’n tueddu i gychwyn y cyswllt?

10. [Os nad atebwyd yng nghwestiwn 9] Rhowch enghreifftiau penodol o sut rydych ch’n gweithio gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant.

*Manteision a heriau cydweithredu*

11. I ba raddau mae’r bartneriaeth gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant yn eich helpu i fodloni’ch amcanion fel sefydliad?
    - I ba raddau mae’r bartneriaeth yn eich cynorthwyo wrth gyflwyno’ch gwasanaethau?
12. Oes unrhyw fanteision wedi dod i’r amlwg trwy’r bartneriaeth?
    - I chi fel sefydliad?
    - I’ch cleientiaid/cwsmeriaid?
13. Pa agweddau ar eich cydweithrediad gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant sy’n gweithio’n dda?
    - Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
14. Oes agweddau ar eich cydweithrediad gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant sydd heb weithio cystal?
    - Os oes, beth ydyn nhw?
    - Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
    - Sut gellir sicrhau bod yr agweddau hyn yn gweithio’n well o hyn ymlaen?
15. [Yn yr achosion hynny lle na chafwyd unrhyw gydweithredu, neu lle’r oedd y cydweithredu’n hynod isel] Beth yw’r prif resymau am beidio â chydweithredu (mwy) gyda’r rhaglen Cymraeg i Blant?
    - Beth, os unrhyw beth, allai Cymraeg i Blant fod yn ei wneud i hyrwyddo mwy o gydweithredu?

*Cynlluniau i’r dyfodol*

16. O edrych i’r dyfodol, a ddylid ystyried unrhyw newidiadau neu addasiadau i’r ffordd y mae’ch sefydliad yn gweithio gyda rhaglen Cymraeg i Blant? Pa newidiadau?
17. O edrych i’r dyfodol, a ddylid ystyried unrhyw newidiadau i nodau ac amcanion Cymraeg i Blant, neu unrhyw newidiadau i nodau ac amcanion eich sefydliad?

**Canllaw pwnc staff Llywodraeth Cymru**

*Cyflwyniad yr ymchwilydd*

Fel uchod.

*Gwybodaeth gefndir*

1. Os gwelwch yn dda, rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau o ran y rhaglen Cymraeg i Blant ac yn fwy eang o fewn Llywodraeth Cymru.

2. Faint o ymwneud sydd / oedd gennych chi â chynllunio strategol ar gyfer
- Y maes blynyddoedd cynnar, a'r maes iaith Gymraeg?
- Dylunio'r rhaglen Cymraeg i Blant?

3. Faint o gyswllt sydd gyda chi fel rhan o'ch swydd gyda thîm Cymraeg i Blant Mudiad Meithrin?

*Amcanion*

4. Os gwelwch yn dda, rhowch drosolwg o'r cyd-destun polisi sy'n berthnasol i'r rhaglen Cymraeg i Blant.
- Beth yw'r strategaeth a pholisïau allweddol sy'n llywio'r rhaglen?

5. Sut ddyluniwyd nod ac amcanion y rhaglen Cymraeg i Blant?
- Pwy oedd yn rhan o'r broses?
- A wynebwyd unrhyw heriau wrth ddylunio'r rhaglen?

6. Beth yw nod ac amcanion y rhaglen Cymraeg i Blant?
- Ydy'r rhain yn gyson ar draws pob rhanbarth yng Nghymru?

7. Pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer y rhaglen Cymraeg i Blant?
- Sut aethpwyd ati i benderfynu pwy yw'r gynulleidfa darged?

8. A ddefnyddiwyd gwersi o unrhyw raglenni tebyg i gynorthwyo dyluniad Cymraeg i Blant? Beth oedd y gwersi hyn?

*Hyrwyddo ac ymgysylltu*

9. Os gwelwch yn dda, rhowch drosolwg o gynlluniau marchnata a hyrwyddo'r rhaglen

- Ar lefel genedlaethol gan Lywodraeth Cymru
- Y gofynion ar Mudiad Meithrin ar lefel genedlaethol a lleol.

10. Pa elfennau o'r gwaith hyrwyddo sydd wedi gweithio'n dda?

- Pa dystiolaeth sydd gennych fod yr elfennau hyn yn gweithio'n dda?

11. A oes elfennau o'r gwaith hyrwyddo sydd heb weithio cystal?

- Os felly, beth ydynt?
- Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
- Sut gellid gwella'r elfennau hyn?

*Partneriaethau*

12. Os gwelwch yn dda, disgrifiwch y bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a thîm Cymraeg i Blant Mudiad Meithrin.

- Pa systemau cyswllt sydd wedi'u sefydlu?
- Pa fath o gymorth sydd ar gael i dîm Cymraeg i Blant Mudiad Meithrin gan Lywodraeth Cymru?

13. Mae disgwyl i ddarparwr Cymraeg i Blant sefydlu trefniadau i weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau a chyrff perthnasol eraill i gyflawni amcanion y rhaglen.

- Beth oedd y rhesymeg am osod y disgwyliad hwn?
- Os gwelwch yn dda, rhowch drosolwg o unrhyw bartneriaethau rydych yn ymwybodol ohonynt.

*Monitro*

14. Pa ddeilliannau a chanlyniadau ydych chi'n eu monitro ar lefel genedlaethol?

- Pa dargedau penodol sydd gennych?
- Pa fesuryddion ydych chi'n eu defnyddio i fesur y deilliannau a chanlyniadau?
- Sut benderfynwyd ar y targedau a mesuryddion hyn?

15. Disgrifiwch eich systemau ar gyfer casglu data monitro.

- Sut mae'r data rhanbarthol yn cael eu defnyddio?
- A ydy'r systemau monitro yn effeithlon? A ellid gwella'r systemau monitro?

*Cynnydd*

16. Pa gynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn amcanion a thargedau Cymraeg i Blant?

- Rhowch drosolwg o'r prif ddeilliannau hyd yn hyn.

17. Pa elfennau o’r rhaglen Cymraeg i Blant sydd wedi gweithio’n dda?
- Pa ffactorau sydd wedi cynorthwyo hyn?
- Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?

18. A oes elfennau o’r rhaglen Cymraeg i Blant sydd heb weithio cystal?
- Os felly, beth ydynt?
- Pa fath o dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
- Sut gellid sicrhau bod yr elfennau hyn yn gweithio’n well o hyn ymlaen?

[Nodyn i’r ymchwilydd – ymatebion i’r adrannau monitro a chynnydd i fwydo’r broses o brofi’r Theori Newid]

*Cynlluniau ar gyfer y dyfodol*

19. Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymraeg i Blant
- yn y tymor byr (dros y misoedd neu flwyddyn nesaf)?
- yn y tymor hir (dros y blynyddoedd nesaf)?

20. A ydych eisoes wedi adnabod unrhyw addasiadau angenrheidiol i nod, amcanion neu strwythur rheoli Cymraeg i Blant?

21. A oes unrhyw ddatblygiadau polisi ar y gweill a allai ddylanwadu ar ddyluniad strategol neu ddarpariaeth Cymraeg i Blant? Os hynny, rhowch ddisgrifiad o’r rhain.

**Canllaw pwnc swyddogion rhanbarthol**

*Cyflwyniad yr ymchwilydd*

Fel uchod.

*Gwybodaeth gefndirol*

1. Os gwelwch yn dda, rhowch drosolwg o'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel swyddog rhanbarthol Cymraeg i Blant.
- Amser yn y rôl, swydd flaenorol.

2. Rhowch drosolwg o'ch rhanbarth (e.e. proffil ieithyddol, patrymau addysg cyfrwng Cymraeg, argaeledd gweithgareddau blynyddoedd cynnar a darpariaeth Mudiad Meithrin, darpariaeth o dan y cynllun TWF gynt).

*Amcanion*

3. Beth yw'ch dealltwriaeth chi o nod ac amcanion cenedlaethol Cymraeg i Blant?
4. Sut ydych chi yn y rhanbarth yn deall eich rôl o fewn y nod ac amcanion cenedlaethol?,
- Sut mae'r nodau ac amcanion hyn wedi siapio eich prosesau a gweithredu yn lleol?

(Ymchwilydd – y bwriad yma yw ceisio dod i ddeall y cyswllt fertigol rhwng y cenedlaethol a'r lleol)

5. Beth yw nod ac amcanion Cymraeg i Blant o fewn eich rhanbarth chi yn benodol?
- Sut ddyluniwyd nod ac amcanion eich rhanbarth chi?
- A yw'r nodau ac amcanion hyn wedi'u cofnodi?

6. Beth yw'r cyswllt rhyngoch chi ar y lefel ranbarthol a'r rheolwyr yn ganolog?
- Beth yw'r gefnogaeth a gynigir gan y rheolwyr yn ganolog?
- Pa mor aml ydych chi'n cwrdd? Beth sy'n cael ei drafod?
- Beth ydych chi'n ei adrodd i'r rheolwyr yn ganolog?

7. Beth yw'r cyswllt rhyngoch chi a'r swyddogion rhanbarthol eraill?
- Pa mor aml ydych chi'n cwrdd? Beth sy'n cael ei drafod?
- Sut ydych chi'n rhannu gwersi neu arferion da rhwng rhanbarthau?

8. I ba raddau mae'r rhaglen Cymraeg i Blant yn cyd-fynd â gweithgareddau ehangach Mudiad Meithrin yn y rhanbarth?

9. Ym mha ffordd mae Cymraeg i Blant yn cefnogi amcanion Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg eich awdurdod lleol?

*Hyrwyddo ac ymgysylltu*

10. Sut ydych chi'n mynd ati i gynllunio pa negeseuon rydych yn eu trosglwyddo ymhlith rhieni?
- Ydy'r rhain yn cael eu pennu / eu trafod / eu cytuno ar lefel ranbarthol? Lefel genedlaethol?
- Oes yna gynllun cyfathrebu rhanbarthol (Os oes, sut ddyluniwyd hwn? Rhowch drosolwg o'ch cynllun cyfathrebu)

11. Beth ydy'r negeseuon rydych yn eu rhannu?
- O ran (i) buddion gofal ac addysg Gymraeg; a
- (ii) caffael iaith cynnar a throsglwyddo iaith?

12. (Os heb ateb eisoes) Sut ddatblygwyd y broses o adnabod a chyrraedd rhieni a fyddai'n elwa ar gefnogaeth y rhaglen?
• Pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer eich gwaith hyrwyddo?

13. (Os heb ateb eisoes) A ddatblygwyd camau pendant a phrosesau pwrpasol er mwyn rhannu gwybodaeth gyda rhieni? (ac os felly beth oeddynt?)

14. Pa elfennau o'r gwaith hyrwyddo sydd wedi gweithio'n dda?
• Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?

15. A oes elfennau o'r gwaith hyrwyddo sydd heb weithio cystal?
• Os felly, beth ydynt?
• Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
• Sut gellid gwella'r elfennau hyn?

*Darparu gweithgareddau a chefnogaeth ymarferol*

16. Rhowch drosolwg o'r rhaglen o gefnogaeth a gynigir i rieni yn eich rhanbarth.

17. Sut ddyluniwyd eich rhaglen o weithgareddau?
• Sut mae'r gweithgareddau yn cael eu trefnu a'u rheoli?

18. Sut ydych yn rhoi gwybod i rieni am y gweithgareddau?

19. Pwy yw'r gynulleidfa darged ar gyfer y gweithgareddau?

20. I ba raddau mae'r rhaglen o weithgareddau yn cyd-fynd â chyfleoedd eraill yn y rhanbarth i fanteisio ar weithgareddau cyfrwng Cymraeg?
• Sut ydych yn sicrhau bod y rhieni yn ymwybodol o'r gefnogaeth fydd ar gael iddynt y tu hwnt i weithgareddau Cymraeg i Blant?

21. Pa elfennau o'r gweithgareddau sydd wedi gweithio'n dda?
• Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?

22. A oes elfennau o'r gweithgareddau sydd heb weithio cystal?
• Os felly, beth ydynt?
• Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
• Sut gellid gwella'r elfennau hyn?

*Partneriaethau*

23. Os gwelwch yn dda, rhowch drosolwg o sut rydych yn cydweithio mewn partneriaeth gyda mudiadau a chyrff perthnasol eraill er mwyn cyflawni amcanion Cymraeg i Blant.

24. Gyda pha bartneriaid ydych chi wedi cydweithio hyd yn hyn?
• Sut cynlluniwyd eich dull o ddatblygu partneriaethau yn rhanbarthol?
• A oes unrhyw bartneriaid wedi eu targedu yn benodol hyd yn hyn?

25. Pa fath o bartneriaethau sydd yn eich cynorthwyo orau i gwrdd ag amcanion Cymraeg i Blant?

26. Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth gyda'r rhaglen Dechrau'n Deg?
• Sut mae'r bartneriaeth gyda Dechrau'n Deg yn gweithio?

27. Pa ffactorau sydd yn eich cynorthwyo i ddatblygu partneriaethau? Pa heriau ydych chi'n wynebu wrth ddatblygu partneriaethau?

*Monitro*

28. Pa ddeilliannau a chanlyniadau ydych chi'n eu monitro yn eich rhanbarth chi?
- Pa dargedau penodol sydd gennych?
- Pa fesuryddion ydych chi'n eu defnyddio i fesur y deilliannau a chanlyniadau?

29. Disgrifiwch eich systemau ar gyfer casglu data monitro.
- A ydy'r systemau monitro yn effeithlon? A ellid gwella'r systemau monitro?
- I bwy ydych chi'n adrodd a sut?

*Cynnydd*

30. Pa gynnydd sydd wedi ei wneud yn erbyn eich amcanion a'ch targedau chi fel rhanbarth?
- Rhowch drosolwg o'r prif ddeilliannau hyd yn hyn.

31. A ydych yn casglu adborth gan rieni sydd yn ymwneud â'r rhaglen Cymraeg i Blant?
- Rhowch drosolwg o'r prif negeseuon sydd yn dod allan o'r adborth hwn.

32. Pa elfennau o'r rhaglen Cymraeg i Blant sydd wedi gweithio'n dda?
- Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
- Pa ffactorau sydd wedi cynorthwyo'r cynnydd hwn?

33. A oes elfennau o'r rhaglen Cymraeg i Blant sydd heb weithio cystal?
- Os felly, beth ydynt?
- Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos hyn?
- Sut gellid sicrhau bod yr elfennau hyn yn gweithio'n well o hyn ymlaen?

[Nodyn i'r ymchwilydd – ymatebion i'r adrannau monitro a chynnydd i fwydo'r broses o brofi'r Theori Newid]

*Cynlluniau ar gyfer y dyfodol*

34. Beth yw blaenoriaethau Cymraeg i Blant
- yn y tymor byr (dros y misoedd neu flwyddyn nesaf)?
- yn y tymor hir (dros y blynyddoedd nesaf)?

35. Wrth edrych tua'r dyfodol, a oes angen ystyried unrhyw addasiadau i nod neu amcanion Cymraeg i Blant?

36. Pa agweddau o reoli a darparu Cymraeg i Blant sydd wedi gweithio'n dda?
- Sut gellid adeiladu ar yr agweddau hyn yn y dyfodol?

37. Pa agweddau o reoli a darparu Cymraeg i Blant sydd yn heriol?
- Sut gellid mynd i'r afael â'r heriau hyn yn y dyfodol?